Mynd i'r afael
â **difreintedd**
a chodi
**safonau**

Estyn
*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Hyrwyddo arfer dda wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais

## Deunyddiau HMS ar gyfer ysgolion uwchradd

Mai 2014

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Adran 1 – arweiniad ar gyfer hyfforddwyr ysgol** | | **1** |
| Cyflwyniad | | 1 |
| Beth rydym ni’n ei olygu wrth ddisgyblion dan anfantais? | | 1 |
| Beth yw nodau’r hyfforddiant? | | 2 |
| Ar gyfer pwy y mae’r deunyddiau? | | 2 |
| Sut mae’r hyfforddiant yn cysylltu â gwella ysgolion? | | 3 |
| Beth yw rôl yr hyfforddwr ysgol? | | 3 |
| Beth yw ffocws yr hyfforddiant? | | 3 |
| Sut mae’r deunyddiau HMS wedi’u trefnu? | | 3 |
| Monitro ac arfarnu | | 4 |
| Lledaenu canlyniadau hyfforddiant | | 5 |
| Deunydd darllen cefndir defnyddiol ar gyfer yr hyfforddwr ysgol | | 5 |
| Rhan 1: | Beth rydym ni’n ei wybod am ddisgyblion dan anfantais? | 7 |
| Rhan 2: | Pa mor dda y mae ein disgyblion dan anfantais yn cyflawni? | 15 |
| Rhan 3: | Beth mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda? | 22 |
| Rhan 4: | Sut gallwn ni fynd i’r afael â thlodi ac anfantais yn fwy effeithiol? Cynllunio gweithredu ar gyfer gwella | 60 |
| **Adran 2 – deunyddiau ar gyfer cyfranogwyr** | | **67** |
| Rhan 1: | Papur briffio ar dlodi ac anfantais | 68 |
| | Copïau o sleidiau PowerPoint 1-8 | 70 |
| Rhan 2: | Copïau o sleidiau PowerPoint 1-6 | 74 |
| Rhan 3: | Copïau o sleidiau PowerPoint 1-4 | 77 |
| | Astudiaethau achos arfer dda | 79 |
| Rhan 4: | Copi o sleid PowerPoint | 110 |
| | Cynllun gweithredu personol | 111 |
| | Cynigion ar gyfer blaenoriaethau mewn cynlluniau gwella adrannau a chynlluniau gwella ysgolion | 112 |

## Cyflwyniad

Dros nifer o flynyddoedd, mae Estyn wedi tynnu sylw at yr heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu o ran gwella cyflawniad disgyblion dan anfantais. Mae ein hadroddiadau wedi dangos hefyd beth mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda. Mae gwaith arolygu ac ymchwil yn awgrymu mai 'ansawdd' ystafelloedd dosbarth ac ysgolion, yn hytrach na 'nifer' y bobl sydd ynddynt, sy'n bwysig i bob disgybl, ac i blant dan anfantais yn arbennig.

Mae dau fater yn ymwneud ag 'ansawdd' yn rhai amlwg o bwysig ar gyfer disgyblion dan anfantais, sef:

- gwella ansawdd addysgu hyd yr eithaf; a
- gwella ansawdd ysgolion hyd yr eithaf.

Cynhyrchwyd y deunyddiau HMS hyn ar gyfer ysgolion er mwyn hyrwyddo arfer dda yn ehangach, yn ogystal â gwneud defnydd llawnach o'r wybodaeth a gynhwysir yn ein hadroddiadau ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais.

Mae'r deunyddiau HMS wedi'u seilio'n bennaf ar ein hadroddiadau ar dlodi ac anfantais. Yr adroddiadau yw:

- Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill (2011);
- Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion (2012);
- Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol (2013); a
- Amddifadedd disgyblion - adroddiad cryno (2014).

Mae'r adroddiadau ar gael ar ein gwefan yn: www.estyn.gov.uk

Mae'r deunyddiau hyfforddi yn cyfeirio at ddeunyddiau a gwybodaeth arall hefyd, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Sutton.

Mae Adran un yn cynnwys arweiniad i'r 'hyfforddwr ysgol' a fydd yn arwain yr HMS. Mae Rhan dau yn cynnwys deunyddiau ar gyfer cyfranogwyr.

## Beth rydym ni'n ei olygu wrth ddisgyblion dan anfantais?

Mae'n bwysig defnyddio ystod eang o feini prawf ar gyfer nodi disgyblion dan anfantais. Dim ond y rheini sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) y bydd llawer o ysgolion yn eu nodi fel disgyblion dan anfantais. Fodd bynnag, mae disgyblion dan anfantais hefyd yn cynnwys y rhai o grwpiau lleiafrifol, disgyblion mewn teuluoedd ar incwm isel, plant sy'n derbyn gofal a phlant teithwyr.

Mae hefyd yn bwysig deall y gwahaniaeth rhwng disgyblion dan anfantais a disgyblion sy'n tangyflawni. Er bod ysgolion yn gyffredinol yn mynd ati'n effeithiol i nodi lle nad yw disgyblion yn cyflawni gystal ag y dylent wneud, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod disgyblion dan anfantais yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Er

enghraifft, mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau sylfaenol disgyblion dan anfantais yn unig, ac ychydig iawn o ysgolion sy'n gwneud digon ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus sydd dan anfantais.

## Beth yw nodau'r hyfforddiant?

Nodau cyffredinol yr hyfforddiant yw helpu ysgolion i rannu arfer orau wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn ogystal â chefnogi datblygu dull ysgol-gyfan sy'n strwythuredig, yn gydlynus ac yn cynnwys ffocws er mwyn gwella cyflawniad disgyblion dan anfantais.

Mae pob un o'r pedwar gweithgaredd hyfforddi yn nodi amcanion a chanlyniadau penodol ar gyfer cyfranogwyr.

## Ar gyfer pwy y mae'r deunyddiau?

Pwrpas y deunyddiau yw darparu adnoddau ar gyfer hyfforddiant ysgol-gyfan ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Gall y deunyddiau gael eu defnyddio gan:

- ymarferwyr ac uwch reolwyr;
- cynorthwywyr cymorth dysgu;
- swyddogion ymgynghorol awdurdodau lleol; a
- llywodraethwyr.

Bydd ysgolion yn gwybod bod modd defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer mentrau ysgol-gyfan a fydd o fudd arbennig i ddysgwyr sy'n gymwys i gael PYDd a phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys gweithgareddau datblygu'r staff cyfan fel diwrnodau HMS sy'n canolbwyntio ar effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad, a hyfforddi staff i ddefnyddio strategaethau y gwyddys eu bod yn arbennig o effeithiol. Bydd y deunyddiau yn cynorthwyo ysgolion i fodloni disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd ysgolion yn defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth, fel y rheini y tynnir sylw atynt yn adroddiadau Estyn ar amddifadedd ac anfantais, yn ogystal â'r rheini a ddisgrifir ym mhecyn cymorth Sefydliad Gwaddol Addysgol Ymddiriedolaeth Sutton.

Wrth weithio tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) effeithiol, dylai ysgolion ystyried sut y gallant gydweithio ag eraill i rannu'r hyfforddiant yn ogystal â dysgu o arfer orau ei gilydd. Gellir defnyddio'r deunyddiau hyn ar gyfer y math cydweithredol hwn o DPP. Gall ysgolion hefyd fod eisiau ystyried sut y gallant rannu profiadau a dysgu gyda'u partneriaid lleol presennol (fel Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf ac ati), yn ogystal â grwpiau gwirfoddol a chymunedol a allai helpu gyda llawer o weithgareddau ysgol. Gallai'r deunyddiau HMS gyfrannu hefyd at waith cydweithredol mewn cymunedau dysgu proffesiynol, yn cynnwys hyrwyddo ymchwil ymholi yn seiliedig ar weithredu, a defnyddio hyfforddiant a mentora gan yr ymarferwyr mwyaf effeithiol.

Cyn yr hyfforddiant, dylai ysgolion ystyried y canlyniadau a ddymunir, er enghraifft, targedau ar gyfer cyrhaeddiad gwell a chynnwys disgyblion dan anfantais. Wrth weithio gydag ystod o bartneriaid, bydd angen i uwch reolwyr sefydlu prosesau ar gyfer asesu llwyddiant o ran cyflawni deilliannau gwell, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am wersi a ddysgwyd gyda rhai eraill. Ceir mwy o wybodaeth am fonitro ac arfarnu yn yr arweiniad hwn.

## Sut mae'r hyfforddiant yn cysylltu â gwella ysgolion?

Dylai'r prosesau hunanarfarnu, cynllunio datblygiad a DPP fod yn rhan gyson o fywyd gweithio a chylch gwella ysgol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cysylltu â'r cylch gwella trwy gynorthwyo staff i fynd ati'n weithredol i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol, gan gynnwys cyfranogi mewn profiadau dysgu proffesiynol ysgol-gyfan. Mae'r hyfforddiant yn cynnig cyfleoedd i ysgolion rannu arfer dda o fewn yr ysgol a thu hwnt, yn annog staff i fyfyrio ar eu harfer eu hunain yn ogystal ag arfarnu effaith dysgu proffesiynol ar ddysgu a lles disgyblion.

## Beth yw rôl yr hyfforddwr ysgol?

Yn eich rôl fel yr hyfforddwr ysgol, nid oes disgwyl i chi fod yn arbenigwr ar dlodi ac anfantais. Fodd bynnag, rydych yn debygol o fod yn uwch athro yn yr ysgol sy'n gallu arwain a thywys trafodaethau, annog cyfranogwyr i fyfyrio ar eu harfer eu hunain yn ogystal ag arfarnu pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag anfantais. Dylech fod yn gallu ymateb i adborth gan gyfranogwyr a defnyddio canlyniadau'r hyfforddiant i gyfrannu at gynlluniau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys cyfeiriadau at ystod o ddogfennau cysylltiedig a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth baratoi ar gyfer yr hyfforddiant.

Mae'r deunyddiau wedi'u llunio fel y gallwch eu cyflwyno heb yr angen am waith paratoi helaeth. Fodd bynnag, er mwyn gwneud yr hyfforddiant yn berthnasol i bob ysgol, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth benodol, fel data perfformiad yr ysgol ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais a gwella cyrhaeddiad, a gymerwyd o gynllun gwella'r ysgol. Mae'r deunyddiau yn nodi ble fydd angen y wybodaeth hon.

## Beth yw ffocws yr hyfforddiant?

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar arfer orau a mabwysiadu dull strategol ysgol-gyfan i fynd i'r afael ag anfantais. Mae'r testunau yn cynnwys:

- Rhan 1: Beth rydym ni'n ei wybod am ddisgyblion dan anfantais?
- Rhan 2: Pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni?
- Rhan 3: Beth mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda?
- Rhan 4: Sut gallwn ni fynd i'r afael ag anfantais yn fwy effeithiol? Cynllunio gweithredu ar gyfer gwella ysgolion.

## Sut mae'r deunyddiau HMS wedi'u trefnu?

Mae'r deunyddiau wedi'u trefnu i'w gwneud yn hwylus i'w defnyddio a'u cyflwyno. Maent yn nodi amcanion a chanlyniadau ar gyfer cyfranogwyr, yn ogystal â'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r deunyddiau wedi'u gosod a'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys. Rhoddir syniad bras o amseru'r tasgau ar gyfer pob gweithgaredd. O fewn terfynau cyffredinol yr amser ar gyfer HMS, dylech geisio bod yn hyblyg er mwyn ymateb i anghenion y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant. Fel yr hyfforddwr ysgol, dylech ddarllen drwy'r holl ddeunyddiau yn ofalus a nodi'r gofynion ar gyfer pob gweithgaredd.

| | |
|---|---|
| **Nodau, amcanion a deilliannau** | *Sut bydd yr HMS yn helpu'r ysgol i fynd i'r afael ag anfantais?* Mae'r deunyddiau yn cynnwys yr amcanion ar gyfer pob sesiwn yn ogystal â'r canlyniadau disgwyliedig. Dylech hefyd ystyried targedau ar gyfer cyrhaeddiad gwell a chynhwysiant disgyblion dan anfantais. |
| **Amser** | *Faint o amser sydd ar gael gennych ar gyfer yr hyfforddiant?* Cynlluniwyd i'r gweithgareddau gymryd hyd at bedair awr o'r dechrau i'w diwedd. Gallwch fod eisiau cynllunio cyfnodau o egwyl rhwng y gweithgareddau hyfforddi sy'n fwyaf cyfleus i'r cyfranogwyr. |
| **Lle** | *Ble fydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal?* Bydd angen digon o le arnoch ar gyfer sesiynau llawn i'r cyfranogwyr, yn ogystal â lle ar gyfer gweithgareddau grŵp o fath gweithdy. |
| **Adnoddau** | *Pa adnoddau fydd angen iddynt fod ar gael gennych ar gyfer y cyfranogwyr?* Mae adnoddau penodol wedi'u rhestru ar gyfer yr hyfforddiant. Bydd angen i chi benderfynu faint o gopïau y byddwch am drefnu eu bod ar gael a sut byddwch chi'n defnyddio'r adnoddau; er enghraifft, efallai y byddwch eisiau defnyddio siartiau troi neu fyrddau gwyn rhyngweithiol ac ati. Mae rhai gweithgareddau yn gofyn i chi lungopïo taflenni ar gyfer y cyfranogwyr. |
| **Arweiniad ar gyfer yr hyfforddwr** | *Sut bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno?* Mae pob sesiwn yn rhoi canllaw cam wrth gam ar sut i gyflwyno'r hyfforddiant. Mae awgrymiadau i'ch atgoffa pryd i roi taflenni i'r cyfranogwyr. |

Cynlluniwyd y deunyddiau HMS fel eu bod yn cynnig dull hyblyg o hyfforddi i ysgolion. Er enghraifft, gall ysgolion ddewis defnyddio'r holl ddeunyddiau ar un o'u diwrnodau HMS yn nhymor yr hydref, neu wasgaru'r sesiynau hyfforddi ar draws diwrnodau HMS dros y flwyddyn ysgol. Bydd ysgolion ar gyfnodau gwahanol yn eu gwaith i wella cyflawniad a darpariaeth ar gyfer disgyblion dan anfantais, a gallant addasu a defnyddio adrannau a fyddai'n fwyaf buddiol i'r staff. Gall y deunyddiau gael eu defnyddio gan yr ysgol gyfan a chlystyrau o ysgolion, yn ogystal â chan grwpiau ffocws a chymunedau dysgu proffesiynol o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion.

## Monitro ac arfarnu

Mae monitro ac arfarnu yn bwysig os ydych chi ac eraill am ganfod a yw'r hyfforddiant wedi sicrhau gwelliannau mewn deilliannau disgyblion, gwybodaeth a medrau staff a newidiadau sefydliadol. Lle mae'r arfarnu wedi'i gyfyngu i'r digwyddiad ar ddiwedd yr hyfforddiant yn unig, fel drwy holiadur boddhad staff, mae'r dull hwn yn colli cyfleoedd i farnu effeithiau tymor hwy pwysig ar gyflawniad disgyblion yn ogystal â medrau ac arfer staff. Am y rheswm hwn, nid yw'r deunyddiau hyfforddi yn cynnwys arolwg boddhad staff. Gallwch fod eisiau defnyddio'ch dulliau presennol i gael adborth ar ansawdd yr hyfforddiant a ddarparoch i'r cyfranogwyr.

Bydd monitro ac arfarnu'r cynlluniau gweithredu a'r diwygiadau i'r cynllun gwella ysgol, a gynhyrchwyd o ganlyniad i'r hyfforddiant, yn rhoi ffynhonnell wybodaeth bwysig am y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud a'r meysydd sydd i'w gwella o hyd. Gan ddefnyddio'r camau gweithredu a nodwyd, dylech ystyried effaith yr hyfforddiant ar ddisgyblion dan anfantais, fel eu cyflawniad a'u cyrhaeddiad cyffredinol, a pha

mor dda y mae eu medrau llythrennedd a dysgu yn datblygu. Bydd prosesau monitro ac arfarnu yn eich galluogi chi a chydweithwyr eraill i farnu sut y mae datblygu arbenigedd staff yn galluogi disgyblion dan anfantais i gyflawni mwy.

Os ydych chi'n cydweithio ag eraill ar gyfer yr hyfforddiant hwn, er enghraifft, mewn grŵp cynradd ac uwchradd clwstwr, dylech gytuno ar y canlyniadau a ddymunir, fel targedau ar gyfer cyrhaeddiad gwell a chynhwysiant. Dylech hefyd gytuno ar y prosesau ar gyfer asesu llwyddiant o ran cyflawni'r canlyniadau hynny. Bydd y camau hyn yn eich helpu chi ac eraill i farnu effaith a buddion y gwaith ar y cyd.

Byddwch yn gwybod bod trefniadau rheoli perfformiad newydd wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2012, sy'n galluogi gwneud cysylltiad rhwng amcanion unigol pennaeth ac athro a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae ysgolion sydd wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau wedi integreiddio systemau fel bod HMS, a mathau eraill o ddatblygiad proffesiynol, yn cysylltu'n naturiol â rheoli perfformiad a hunanarfarnu ar gyfer yr holl staff. Dylech ystyried sut bydd prosesau rheoli perfformiad eich ysgol yn helpu arweinwyr a rheolwyr i farnu effaith yr hyfforddiant. Er enghraifft, gall fod amcan rheoli perfformiad gan bob un o'r staff i wella cyflawniad disgyblion dan anfantais.

## Lledaenu deilliannau hyfforddiant

Mae rhannu gwybodaeth am beth sy'n gweithio orau o ran gwelliannau mewn addysgu a dysgu yn bwysig ar gyfer gwella ysgol. Yn dilyn yr hyfforddiant, gallwch fod eisiau casglu gwybodaeth gan gyfranogwyr a'i lledaenu i bob un o'r staff.

Mae rhannu gwybodaeth y tu hwnt i'r ysgol yn bwysig hefyd, yn enwedig lle rydych wedi cydweithio ag eraill, fel ysgolion eraill, y gymuned, partneriaid ac ystod o sefydliadau. Cyn yr hyfforddiant, dylech chi a'ch partneriaid gytuno sut bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu. Bydd y dull hwn yn helpu hyrwyddo dysgu proffesiynol ar y ddwy ochr a chynyddu gallu'r ysgol i sicrhau effeithiolrwydd.

## Deunydd darllen cefndir defnyddiol ar gyfer yr hyfforddwr ysgol

Efallai y gwelwch ei bod o gymorth i ymgyfarwyddo ag ystod o ddogfennau cysylltiedig, gan gynnwys:

Cymunedau, teuluoedd ac ysgolion gyda'i gilydd: Llwybr i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol yn ysgolion Cymru, D Egan (Achub y Plant Cymru, 2012) www.savethechildren.org.uk

Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, Estyn (2012) www.estyn.gov.uk;

Gwella ysgolion Llywodraeth Cymru (2012) www.learning.wales.gov.uk;

No Child In Wales Born Without A Chance (2013) Achub y Plant www.savethechildren.org.uk/.../Communities-families-and-schools-together-report.pdf

Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, Estyn (2013) www.estyn.gov.uk

Amddifadedd disgyblion Adroddiad cryno, Estyn (2014) www.estyn.gov.uk

Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion 2013-2015, Dogfen Arweiniad 101/2013 Llywodraeth Cymru (2013) www.cymru.gov.uk

Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn (2011) www.estyn.gov.uk

The Sutton Trust Toolkit of Strategies to Improve Learning, Higgins, Kokotsaki a Coe Toolkit (2011) www.educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit.

# Mabwysiadu dull strategol ysgol gyfan i fynd i'r afael ag anfantais

## Rhan 1: Beth rydym ni'n ei wybod am ddisgyblion dan anfantais?

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- ystyried nodweddion ac effaith tlodi ac anfantais ar ddisgyblion; a
- myfyrio ar sut yr effeithir ar ddisgyblion yn yr ysgol gan anfantais.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, dylai cyfranogwyr:

- fod yn deall sut mae tlodi ac anfantais yn effeithio ar gyflawniadau a chynnydd disgyblion; a
- gwybod beth yw blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol.

**Amser:** Tua 25 munud

**Gwaith paratoi gan yr hyfforddwr ysgol:**

- darllenwch drwy holl ddeunyddiau'r hyfforddiant fel eich bod yn gyfarwydd â nhw;
- e-bostiwch neu llungopïwch y papur briffio a'i anfon at y cyfranogwyr iddynt ei ddarllen cyn yr hyfforddiant;
- gosodwch wybodaeth o setiau data craidd Cymru Gyfan a % y disgyblion â hawl i gael PYDd yn y tabl ar Sleid Powerpoint 2;
- nodwch flaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol sy'n ymwneud â disgyblion dan anfantais ar Sleid Powerpoint 7; a
- llwythwch y sleidiau PowerPoint ar gyfer y sesiynau llawn.

**Adnoddau:**

- Bwrdd gwyn a chyfrifiadur
- Siart troi (dewisol)
- Setiau data craidd Cymru Gyfan yr ysgol ar gyfer cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4
- Papur briffio

**Cyflwyniad**

Yn y sesiwn lawn hon, dechreuwch drwy esbonio bod yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar hyrwyddo arfer dda wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae'r deunyddiau HMS sy'n cael eu defnyddio wedi'u llunio gan Estyn, ac maent yn seiliedig yn bennaf ar ein hadroddiadau cyhoeddedig ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais.

Dangoswch **Sleid Powerpoint 1** sy'n amlinellu'r amcanion a'r canlyniadau penodol ar gyfer y sesiwn hon. Atgoffwch y cyfranogwyr beth yw prif gynnwys y **papur briffio** ar dlodi ac anfantais. Gall y cyfranogwyr fod eisiau cynnig sylwadau.

Dywedwch wrth y cyfranogwyr, er y defnyddir hawl i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) fel mesur o amodau economaidd-gymdeithasol poblogaeth ysgol, mae grwpiau eraill o blant dan anfantais hefyd. Dangoswch **Sleid Powerpoint 2** i ddangos y grwpiau hyn. Nawr dangoswch **Sleid Powerpoint 3** i atgoffa cyfranogwyr o gyfraddau blaenorol a chyfredol y % o ddisgyblion yn yr ysgol sydd â hawl i gael PYDd.

Dosbarthwch y **daflen** sy'n cynnwys sleidiau PowerPoint 4, 5 a 6 a siaradwch drwy **sleidiau PowerPoint 4 a 5** ar nodweddion disgyblion dan anfantais. Gallwch fod eisiau defnyddio eich deunydd darllen cefndir i ychwanegu mwy o fanylion. Dywedwch wrth y cyfranogwyr y cynhelir gweithgaredd yn awr lle byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon.

**Gweithgaredd: Adnabod nodweddion disgyblion dan anfantais**
Mewn parau, gwahoddwch y cyfranogwyr i ddefnyddio'r wybodaeth o'r sleidiau PowerPoint i ystyried i ba raddau y mae'r nodweddion hyn yn adlewyrchu disgyblion dan anfantais yn yr ysgol.

Gofynnwch i'r cyfranogwyr gwblhau'r brawddegau yn Sleid Powerpoint 7.

Sesiwn lawn - gan arwain yr adborth, gofynnwch i'r cyfranogwyr rannu eu myfyrdodau ar y materion a godwyd gan nodweddion disgyblion dan anfantais. Gallwch fod eisiau tynnu sylw at y nodweddion tebyg mwyaf arwyddocaol â disgyblion yn yr ysgol yr adroddwyd amdanynt gan y cyfranogwyr ar sleidiau 4 a 5 neu ar wahân ar y siart troi. Dangoswch y fersiwn wedi'i chwblhau o **Sleid Powerpoint 6**.

Nawr gofynnwch i'r cyfranogwyr dreulio ychydig funudau yn myfyrio ynglŷn â sut y mae'r ysgol yn blaenoriaethu gwaith i fynd i'r afael â chyflawniad disgyblion dan anfantais ar hyn o bryd. Yna dangoswch **Sleid Powerpoint 7**, i atgoffa'r cyfranogwyr o'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

SYLWER: Gallwch fod eisiau ystyried trafod priodoldeb targedau'r ysgol ar gyfer gwella cyflawniad disgyblion dan anfantais. Er enghraifft, nid yw targed sy'n cael ei fynegi fel *'lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion PYDd a disgyblion nad ydynt yn cael PYDd'* mor fanwl a defnyddiol â *'chynyddu perfformiad disgyblion PYDd mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol o ddeg pwynt canran'.*

**Sleid Powerpoint 1**

**Nodau cyffredinol yr hyfforddiant:**

Nodau cyffredinol yr hyfforddiant yw hyrwyddo arfer orau wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn ogystal â chynorthwyo ysgolion i ddatblygu dull ysgol-gyfan sy'n strwythuredig, yn gydlynus ac yn cynnwys ffocws er mwyn gwella cyflawniad disgyblion dan anfantais.

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- ystyried nodweddion ac effaith tlodi ac anfantais ar ddisgyblion; a
- myfyrio ar sut yr effeithir ar ddisgyblion yn yr ysgol gan anfantais.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, dylai cyfranogwyr:

- fod yn deall sut mae tlodi ac anfantais yn effeithio ar gyflawniadau a chynnydd eu disgyblion; a
- gwybod beth yw blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol.

**Sleid Powerpoint 2**

**Sut dylem ni ddiffinio disgyblion dan anfantais?**

Mae'n bwysig cael ystod eang o feini prawf ar gyfer nodi disgyblion dan anfantais. Mae disgyblion dan anfantais yn cynnwys:


- y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- y rhai o grwpiau lleiafrifol;
- y rhai mewn teuluoedd ar incwm isel;
- plant sy'n derbyn gofal; a
- phlant teithwyr.

## Sleid Powerpoint 3

**Canran yr ysgol o ddisgyblion oed ysgol statudol sydd â hawl i gael PYDd – cyfartaledd 3 blynedd**

*Dylech fewnosod siart 1.2b o set ddata graidd Cymru Gyfan yr ysgol. Mae'r siart canlynol yn dangos enghraifft o'r tabl hwn.*

**1.2b** % y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn ôl blwyddyn - cyfartaledd 3-blynedd




## Sleid Powerpoint 4

Mae astudiaethau ar dlodi plant yn dweud y canlynol wrthym:

- bod y bwlch rhwng disgyblion o gefndiroedd cyfoethocach a thlotach yn ehangu'n arbennig o gyflym yn ystod yr ysgol gynradd;
- bod disgyblion dan anfantais mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol o fod heb uchelgais a hunan-barch, ac o fod â phroblemau ymddygiadol ac anhawster yn ymwneud â'u cyfoedion;
- bod bechgyn mor ifanc â naw mlwydd oed mewn ysgolion difreintiedig yn dadrithio gyda'r ysgol ac yn dechrau ymddieithrio; ac
- mai mynediad cyfyngedig sydd gan ddisgyblion mewn ysgolion difreintiedig at weithgareddau cerddoriaeth, celf a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol y bydd disgyblion mewn ysgolion breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol yn gyffredinol.

**Sleid Powerpoint 5**

Rydym hefyd yn gwybod bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig;

- yn fwy tebygol o fod â chofnod presenoldeb gwael;
- yn gweld bod y cwricwlwm yn amherthnasol yn aml;
- yn llai tebygol o dderbyn diwylliant yr ysgol;
- yn fwy tebygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol;
- â rhieni sy'n llai tebygol o fod yn rhan o addysg eu plant;
- â rhieni sy'n fwy tebygol o fod â chanfyddiad a phrofiad negyddol o'r ysgol ac addysg;
- yn llai iach;
- yn fwy tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant;
- yn fwy tebygol o gael plentyn yn ystod eu harddegau; ac
- yn achos bechgyn gwyn y dosbarth gweithiol, yn llai tebygol o gyflawni'u potensial nag unrhyw grŵp arall.

**Sleid Powerpoint 6**

Mae ymchwil yn dweud wrthym hefyd fod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o wneud yn dda mewn TGAU os yw'r unigolyn ifanc:

- yn credu yn …;
- o'r farn fod …;
- yn gweld yr ysgol yn …;
- o'r farn ei bod yn debygol y bydd …;
- yn osgoi …; a
- nid yw'n dioddef ….

**Sleid Powerpoint 6 (wedi'i gwblhau)**

Mae ymchwil yn dweud wrthym hefyd fod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o wneud yn dda mewn TGAU os yw'r unigolyn ifanc:

- yn credu yn ei allu/gallu ei hun yn yr ysgol;
- o'r farn fod digwyddiadau yn deillio yn bennaf o'i ymddygiad/hymddygiad a'i weithredoedd/gweithredoedd ei hun;
- yn gweld yr ysgol yn werthfawr;
- o'r farn ei bod yn debygol y bydd yn gwneud cais i fynd i addysg uwch, ac yn mynd i mewn i addysg uwch;
- yn osgoi ymddygiad peryglus fel ysmygu'n aml, defnyddio canabis, ymddygiad gwrthgymdeithasol, triwantiaeth, atal a gwahardd; ac
- nid yw'n dioddef bwlio.

**Sleid Powerpoint 7**

Mae blaenoriaethau presennol yr ysgol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais yn cynnwys:

- …
- …
- …
- …

*(Dylech gwblhau'r sleid hon gyda gwybodaeth a gymerwyd o gynllun gwella'r ysgol.)*

## Beth rydym ni'n ei wybod am ddisgyblion dan anfantais?

### Papur briffio ar dlodi ac anfantais

Mae dylanwad a chyrhaeddiad tlodi yn ymestyn ymhell y tu hwnt i effaith incwm yn unig. Gall chwarae rhan yn hyder ac uchelgais dysgwyr, a'u cyflogadwyedd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae tlodi'n effeithio ar un o bob tri o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn gyfystyr â rhyw 200,000 o blant yng Nghymru, y gallai fod ganddynt lai o ddewisiadau a llai o gyfleoedd bywyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ystod o fentrau i geisio gwella cynnydd addysgol disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae'r mentrau hyn a'r cynllun yn cydnabod fod gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae i helpu gwella'r deilliannau i blant o gefndiroedd o amddifadedd, yn annibynnol ar, ac mewn partneriaeth â mentrau eraill i fynd i'r afael ag achosion creiddiol amddifadedd.

Dengys ymchwil mai anfantais economaidd-gymdeithasol yw'r rhwystr unigol mwyaf rhag cyflawni mewn addysg. Mae'r cysylltiad rhwng anfantais a thangyflawniad addysgol yn un cryf. Fodd bynnag, heblaw tlodi, mae ffactorau eraill hefyd sy'n effeithio ar ddeilliannau asesiadau ysgol a chanlyniadau arholiadau. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys dyheadau isel ar gyfer y disgyblion hyn a diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng disgyblion dan anfantais a disgyblion sy'n tangyflawni.

Mae hawl i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn cael ei ddefnyddio fel mesur o amodau economaidd-gymdeithasol poblogaeth ysgol. Yng Nghymru, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn is na'u cyfoedion heb yr hawl honno ym mhob cyfnod allweddol ac o ran bob mesur perfformiad. Mae'r bwlch cyrhaeddiad hwn i'w weld yn amlwg erbyn saith mlwydd oed, a bydd yn ehangu'n raddol. Erbyn 16 oed, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ryw hanner mor debygol o gael pum gradd A*-C mewn TGAU na disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn golygu bod plentyn wedi'i dynghedu i dangyflawni. Gall disgyblion o gefndiroedd cymharol dlawd gyflawni ar y lefel uchaf ac maent yn cyflawni ar y lefel uchaf, a gall ysgolion sy'n gwasanaethu cymdogaethau tlawd berfformio'n well nag ysgolion â dalgylchoedd mwy cefnog.

Am flynyddoedd lawer, gwella cyflawniad disgyblion dan anfantais fu un o'r heriau mawr i ysgolion yng Nghymru. Nid oes yr un esboniad unigol pam nad yw dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais yn perfformio gystal â'u cyfoedion oherwydd ystod o ffactorau cymhleth y mae cydberthynas rhyngddynt yn aml. Golyga hyn nad oes yr un ateb hawdd. Er bod Strategaeth Tlodi Plant gan Gymru, nid oes rhaglen genedlaethol i ysgolion ei dilyn ar gyfer mynd i'r afael â materion tlodi ac anfantais. Fodd bynnag, caiff ysgolion eu cynorthwyo drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sef prif gyfrwng Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y flaenoriaeth genedlaethol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Caiff ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig eu hannog yn gryf i weithio gyda'u Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn lleol, a gyda'r ddarpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i gynorthwyo teuluoedd yn eu cymunedau. Mae gan bob ysgol ran allweddol i fynd i'r afael ag anfantais a gallant wneud gwahaniaeth. Yn benodol, mae gan ysgolion ddylanwad pwysig a phwerus ar wella cyrhaeddiad a dyheadau, a gallant ddarparu ysgol cyfleoedd bwerus i bobl ifanc.

Dywed gwaith arolygu ac ymchwil wrthym mai 'ansawdd' ein hystafelloedd dosbarth a'n hysgolion sy'n bwysig i bob disgybl, ac i ddisgyblion dan anfantais yn arbennig.

Mae'r ysgolion sy'n gwneud gwahaniaeth i gyflawniad disgyblion dan anfantais yn gwneud yr hyn y mae bob ysgol lwyddiannus yn ei wneud i sicrhau cyflawniad disgyblion. Yn ychwanegol, maent hefyd yn creu ethos hynod gadarnhaol sy'n galluogi disgyblion dan anfantais i gyflawni'n dda. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio strategaethau i fynd i'r afael yn benodol â ffactorau sy'n rhoi disgyblion dan anfantais. Hefyd, drwy helpu disgyblion dan anfantais, mae'r holl ddisgyblion mewn ysgol yn gwneud yn well. Gall ymgysylltiad effeithiol gan deuluoedd a'r gymuned gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i bawb, ond yn enwedig i ddisgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig. Mae ysgolion llwyddiannus yn cydnabod nad yw'n ddigon i wasanaethu pob disgybl yn gyfartal - mae angen ffocws penodol ar y disgyblion a'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu magu mewn tlodi. Mae ysgolion yr ymddengys eu bod yn mynd yn groes i'r duedd, yn mynd i'r afael ag effaith anfantais gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau ac ymyriadau sy'n eu helpu i fynd i'r afael â set gymhleth o broblemau.

**Rhan 2: Pa mor dda y mae ein disgyblion dan anfantais yn cyflawni?**

## Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- archwilio ystod o ddata cenedlaethol a lleol ar berfformiad disgyblion dan anfantais; ac
- ystyried perfformiad disgyblion dan anfantais yn yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

## Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:

Erbyn diwedd y sesiwn hon, dylai cyfranogwyr:

- wybod pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yng Nghymru yn perfformio o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn gymwys i gael PYDd; a
- deall pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn yr ysgol yn perfformio o gymharu â'u cyfoedion yn yr ysgol, yn y teulu o ysgolion ac yn genedlaethol.

**Amser:** Tua 60 munud

## Gwaith paratoi gan yr hyfforddwr ysgol:

- darllenwch drwy holl ddeunyddiau'r hyfforddiant fel eich bod yn gyfarwydd â nhw;
- casglwch ystod o ddata, fel data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer, ar gyflawniad disgyblion dan anfantais;
- rhowch ddata i mewn ar y Sleidiau Powerpoint 5 a 6 o Adran 1.2b o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer CA3 ac Adran 1.4a/b o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer CA4;
- set ddata craidd Cymru Gyfan yr ysgol ar gyfer CA3 a CA4;
- llungopïwch y Sleidiau Powerpoint 2, 3 a 4 os ydych yn dymuno ar gyfer y cyfranogwyr;
- llungopïwch adrannau o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer CA3 a CA4 ar gyfer y cyfranogwyr;
- casglwch ynghyd unrhyw ddata arall y mae'r ysgol yn ei chasglu ar berfformiad disgyblion dan anfantais, a pharatowch sleid PowerPoint gyda'r wybodaeth hon; a
- llwythwch y sleidiau PowerPoint ar gyfer y sesiynau llawn.

## Adnoddau:

- Bwrdd gwyn a chyfrifiadur
- Siart troi
- Llungopïau o Sleidiau Powerpoint 2 a 3 (dewisol)
- Adran 1.2a/1.2b (tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd a chymhariaeth â'r teulu) o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer CA3

- Adran 1.4a/1.4b (tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd a chymhariaeth â'r teulu) o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer CA4
- Adrannau 10 10.1b (Lefel 5+ Lefel 6+ a Lefel 7+ meincnodi yn ôl pwnc), 10.2a (meincnodi'r DPC) a 10.3a (cymhariaeth â'r teulu % y disgyblion yn cyflawni'r DPC yn erbyn disgwyliadau wedi'u modelu ar sail PYDd) o setiau data craidd Cymru Gyfan ar gyfer CA3
- Adrannau 1.7a/b (Lefel 1 tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd a chymhariaeth â'r teulu), 1.8d/e (sgôr pwyntiau wedi'i gapio tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd a chymhariaeth â'r teulu), 1.10a/b (DPC tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd) ac 8.1a ac 8.2a (meincnodi) o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer CA4
- Data ysgolion eraill ar berfformiad disgyblion dan anfantais, gan gynnwys unrhyw ddadansoddiadau gwerth ychwanegol.

**Crynodeb o Ran 1**

Os nad yw Rhan 2 yr hyfforddiant yn dilyn ymlaen yn uniongyrchol o Ran 1, gallwch fod eisiau dechrau'r sesiwn hon drwy grynhoi'r hyfforddiant cynharach gan ddefnyddio'r sleidiau PowerPoint a ddarperir yn y pecyn hwn.

**Cyflwyniad**

Dechreuwch y sesiwn lawn drwy esbonio bod y rhan hon o'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar gyflawniad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd, gan archwilio data perfformiad ar lefel genedlaethol, lefel leol a lefel ysgolion.

Dangoswch **Sleid Powerpoint 1** sy'n amlinellu amcanion y sesiwn. Dangoswch **Sleidiau Powerpoint 2, 3 a 4** sy'n dangos gwybodaeth a data cenedlaethol ar y deilliannau ar gyfer disgyblion dan anfantais yng Nghymru yn CA3 a CA4. Gallwch fod eisiau darparu **taflen** i'r cyfranogwyr o'r sleidiau PowerPoint hyn.

Atgoffwch y cyfranogwyr bod ystod o ddata ar gael ar berfformiad disgyblion dan anfantais, gan gynnwys data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer a phecynnau data ar gyfer ysgolion a elwir yn setiau data craidd Cymru Gyfan. Mae'r pecynnau data hyn yn darparu ystod eang o wybodaeth gyd-destunol am berfformiad, gan gynnwys perfformiad disgyblion dan anfantais. Atgoffwch y cyfranogwyr nad yw data ar ei ben ei hun yn cynnig atebion i faterion a nodwyd. Yn hytrach, mae'n codi cwestiynau, a gallai'r atebion i'r rheini gynnig datrysiad. Mae'r ddwy sleid ganlynol yn dangos data ysgolion a gymerwyd o'r setiau data craidd hyn. Dangoswch y **sleidiau Powerpoint 5 a 6** sy'n cyfeirio at dueddiadau perfformiad disgyblion PYDd/disgyblion nad ydynt yn cael PYDd, a chymariaethau â'r teulu. Tynnwch sylw at nodweddion allweddol perfformiad yr ysgol yn y meysydd hyn. Os ydych wedi paratoi **Sleid Powerpoint 7** ar ddata arall ar berfformiad disgyblion dan anfantais, dangoswch hon nawr.

Dywedwch wrth y cyfranogwyr fod y gweithgaredd sy'n dilyn yn gofyn iddynt ddadansoddi agweddau ar berfformiad disgyblion dan anfantais yn yr ysgol. Nawr, sefydlwch y trefniadau ar gyfer y gweithgaredd grŵp. Gallwch ddewis creu grwpiau o staff o feysydd pwnc gwahanol neu drefnu grwpiau o gyfranogwyr yn adrannau pwnc. Dosbarthwch y **daflen** o setiau data craidd Cymru Gyfan sy'n berthnasol i bob grŵp pwnc yn ogystal â chopi o'r awgrymiadau ar gyfer trafod. Gofynnwch i'r grwpiau enwebu cofnodwr fel bod pob grŵp yn dychwelyd i'r sesiwn adborth lawn gyda rhestr o gryfderau a meysydd i'w gwella.

**Gweithgaredd:  Dadansoddi perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael PYDd (35 munud)**

Mewn grwpiau, dylai cyfranogwyr ddefnyddio'r taflenni ar ddata perfformiad a'r awgrymiadau trafod i ddadansoddi perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd. Dylent nodi'r cryfderau ym mherfformiad disgyblion dan anfantais, a meysydd i'w gwella.

Sesiwn lawn - gan arwain yr adborth, cofnodwch y cryfderau a'r meysydd i'w gwella o'r grwpiau ar siart troi.  Dylai'r cyfranogwyr nodi'r wybodaeth hon er mwyn cynorthwyo eu gwaith yn y gweithgaredd hyfforddi nesaf.

**Adolygu Rhan 1**

**Sleid PowerPoint**

**Sut ydym ni wedi diffinio disgyblion dan anfantais?**

Mae'n bwysig cael ystod eang o feini prawf ar gyfer nodi disgyblion dan anfantais. Mae disgyblion dan anfantais yn cynnwys:

- y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- y rhai o grwpiau lleiafrifol;
- y rhai mewn teuluoedd ar incwm isel;
- plant sy'n derbyn gofal; a
- phlant teithwyr.

**Sleid PowerPoint**

**Beth rydym ni'n ei wybod am effeithiau tlodi ac anfantais?**

Bod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o fod heb uchelgais a hunan-barch, ac i fod â phroblemau ymddygiadol ac anhawster yn uniaethu â'u cyfoedion.

Bod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o weld bod y cwricwlwm yn amherthnasol.

Mai mynediad cyfyngedig sydd gan ddisgyblion mewn ysgolion difreintiedig at weithgareddau cerddoriaeth, celf a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol y bydd disgyblion mewn ysgolion breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol yn gyffredinol.

Bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod â chofnod presenoldeb gwael ac yn llai tebygol yn aml o dderbyn diwylliant yr ysgol.

Bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael plentyn yn ystod eu harddegau.

Bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod â rhieni nad ydynt yn ymwneud gymaint ag addysg eu plant ac yn fwy tebygol o fod â chanfyddiad a phrofiad negyddol o'r ysgol ac addysg.

**Sleid Powerpoint 1**

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- archwilio ystod o ddata cenedlaethol a lleol ar berfformiad disgyblion dan anfantais; ac
- ystyried perfformiad disgyblion dan anfantais yn yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, dylai cyfranogwyr:

- wybod am berfformiad disgyblion dan anfantais yng Nghymru; a
- deall pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni yn yr ysgol.

**Sleid Powerpoint 2**

**Canlyniadau allweddol ar gyfer disgyblion dan anfantais yng Nghymru**

- At ei gilydd, mae perfformiad disgyblion PYDd a disgyblion nad ydynt yn cael PYDd wedi gwella er 2005. Gan edrych ar y dangosydd pwnc craidd, mae'r bwlch mewn perfformiad wedi lleihau'n gyffredinol dros y chwe blynedd diwethaf yng nghyfnod allweddol 3.

- Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael PYDd yn is na'u cyfoedion heb yr hawl i gael PYDd ym mhob cyfnod allweddol ac o ran bob mesur perfformiad. Mae'r bwlch mewn perfformiad yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

- Yng nghyfnod allweddol 3, ar gyfer pynciau unigol, mae'r bwlch mwyaf ym mathemateg (23.1 pwynt canran) er mai yn Saesneg y bu'r bwlch mwyaf yn hanesyddol. Mewn Cymraeg y mae'r bwlch lleiaf (17.8 pwynt canran).


- Yng nghyfnod allweddol 4, ar gyfer y dangosydd pwnc craidd y mae'r bwlch mwyaf (32.1 pwynt canran), er mai ar drothwy L2 y mae'r bwlch mwyaf wedi bod yn hanesyddol. Ar drothwy L1 y mae'r bwlch lleiaf (10.6 pwynt canran).

- Mae 'bylchau' mewn perfformiad rhwng grwpiau o ddysgwyr, fel plant sy'n derbyn gofal, o gymharu â phob disgybl: mae 10% yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn yr ysgol uwchradd o gymharu â 50% ar gyfer pob disgybl.

## Sleid Powerpoint 3

### Canlyniadau allweddol ar gyfer disgyblion dan anfantais yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3


**Gwahaniaeth rhwng perfformiad DPC disgyblion PYDd a'r rhai nad ydynt yn cael PYDd yng nghyfnod allweddol 3, 2008-2013**



**<u>Sleid Powerpoint 4</u>**

**Canlyniadau allweddol ar gyfer disgyblion dan anfantais yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 4**

**Gwahaniaeth rhwng perfformiad o ran trothwy Lefel 2 yn cynnwys TGAU A*-C yn Saesneg / Cymraeg a mathemateg disgyblion PYDd a'r rhai nad ydynt yn cael PYDd yng nghyfnod allweddol 4, 2008-2013**




**<u>Sleid Powerpoint 5</u>**

**<u>Cyfnod allweddol 3 – data perfformiad ysgolion</u>**

*(Mewnosodwch ddata o Adran 1.2a/1.2b (tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd a chymhariaeth â'r teulu) o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer cyfnod allweddol 3.)*

**<u>Sleid Powerpoint 6</u>**

**<u>Cyfnod allweddol 4 – data perfformiad ysgolion</u>**

*(Mewnosodwch ddata o Adran 1.4a/1.4b (tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd a chymhariaeth â'r teulu) o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer cyfnod allweddol 4.)*

**<u>Sleid Powerpoint 7</u>**

*Mewnosodwch eich data eich hun ar berfformiad disgyblion dan anfantais, fel data gwerth ychwanegol.*

## Rhan 3: Beth mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda?

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- myfyrio ar arfer dda yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion dan anfantais; ac
- arfarnu agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi nodi:

- cryfderau yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais; a
- meysydd i'w gwella er mwyn helpu codi safonau cyflawniadau disgyblion dan anfantais.

**Amser:** Tua 60-90 munud

**Gwaith paratoi gan yr hyfforddwr ysgol:**

- darllenwch drwy holl ddeunyddiau'r hyfforddiant fel eich bod yn gyfarwydd â nhw;
- penderfynwch ar gyfansoddiad y grwpiau. Mae'n debyg y gwelwch ei bod yn ddefnyddiol cadw trefniant y grwpiau o'r gweithgaredd blaenorol. Fodd bynnag, efallai y byddwch am ystyried ar wahân aelodaeth y grŵp sy'n archwilio materion arweinyddiaeth a rheolaeth, i gynnwys staff fel arweinwyr cynnydd a'r Cydlynydd Anghenion Ychwanegol (CydAY) ac ati;
- penderfynwch pa astudiaethau achos arfer dda fyddai'r rhai mwyaf defnyddiol, a llungopïwch y rhain a'r pwyntiau trafod ar gyfer y pum testun. Dosbarthwch y rhain cyn yr hyfforddiant; a
- llwythwch y sleidiau PowerPoint ar gyfer y sesiynau llawn.

**Adnoddau:**

- Bwrdd gwyn a chyfrifiadur
- Llungopïau o arfer dda a phwyntiau trafod ar gyfer y pum testun

**Crynodeb o Ran 1 a Rhan 2**

Os nad yw Rhan 3 yr hyfforddiant yn dilyn ymlaen yn uniongyrchol o Ran 1 a Rhan 2, gallwch fod eisiau dechrau'r sesiwn hon drwy grynhoi'r hyfforddiant cynharach gan ddefnyddio'r sleidiau PowerPoint a ddarperir yn y pecyn hwn.

**Cyflwyniad**

Dechreuwch y sesiwn drwy esbonio bod y rhan hon o'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar yr hyn y mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda. Dangoswch **Sleid Powerpoint 1** sy'n amlinellu amcanion y sesiwn.

**Strategaethau y gellir eu rhoi ar waith gan yr ysgol yn unig**

Dangoswch **Sleid Powerpoint 2** sy'n dangos nodweddion arfer effeithiol wrth fynd i'r afael ag anfantais a roddir ar waith gan ysgolion sy'n gweithio ar eu pennau'u hunain. Mae nifer o strategaethau y gall ysgolion eu cyflwyno a'u gweithredu drwy'r strwythurau, systemau a phrosesau arferol a geir ym mhob ysgol. Gallwch fod eisiau cyfeirio at arfer bresennol yr ysgol mewn perthynas â'r nodweddion hyn. Gallwch hefyd fod eisiau defnyddio eich deunydd darllen cefndir i ychwanegu rhagor o wybodaeth ar gyfer cyfranogwyr.

Mae ysgolion llwyddiannus mewn amgylchiadau heriol:

- yn defnyddio **dull strategol, ysgol-gyfan** i fynd i'r afael ag anfantais – mae ganddynt ddull strwythuredig, cydlynus, â ffocws o wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais, ac maent yn sicrhau bod gan uwch arweinydd gyfrifoldeb rheoli dros oruchwylio a chydlynu gwaith yr ysgol ar fynd i'r afael ag effaith anfantais;
- **yn defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd** disgyblion dan anfantais – maent yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau ac yn ei defnyddio i ddadansoddi cynnydd grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys monitro pa mor dda y mae dysgwyr dan anfantais yn gwneud yn erbyn meincnodau a chyrhaeddiad blaenorol, ac olrhain cynnydd dysgwyr unigol dan anfantais.
- yn canolbwyntio ar ddatblygu **medrau llythrennedd a dysgu** dysgwyr dan anfantais – maent yn ymwybodol mai diffyg llythrennedd cychwynnol sydd wrth wraidd llawer o fathau eraill o anfanteision addysgol;
- yn datblygu **medrau cymdeithasol ac emosiynol** dysgwyr dan anfantais – maent yn deall y berthynas rhwng lles a safonau, ac yn aml yn ailstrwythuro eu system gofal bugeiliol i ddelio'n fwy uniongyrchol ag anghenion penodol dysgwyr dan anfantais;
- yn gwella **presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad** dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt gosbau addas, ond yn gweld bod systemau gwobrwyo yn gweithio'n arbennig o dda;
- yn **teilwra'r cwricwlwm** yn unol ag anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt systemau mentora sy'n arwain dysgwyr trwy eu rhaglenni astudio ac yn eu helpu i gynllunio eu llwybrau dysgu eu hunain;
- yn gwneud ymdrechion da i ddarparu **profiadau cyfoethogi** y mae dysgwyr mwy
- breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol – maent yn cynnig dewislen amrywiol o glybiau, gweithgareddau a gwibdeithiau diwylliannol ac addysgol;
- yn **gwrando ar ddysgwyr dan anfantais** ac yn cynnig cyfleoedd iddynt gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol – maent yn casglu barn dysgwyr am addysgu a dysgu, yn rhoi rôl allweddol i ddysgwyr yn natblygiad yr ysgol, ac yn cynnwys dysgwyr yn uniongyrchol i wella safonau;

- yn ymgysylltu â **rhieni a gofalwyr** dysgwyr dan anfantais – maent yn cyfathrebu ac yn gweithio wyneb yn wyneb i'w helpu nhw a'u plant i oresgyn rhwystrau rhag dysgu; ac
- yn **datblygu arbenigedd staff** i fodloni anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt ddiwylliant o rannu arfer orau, yn rhoi cyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd, ac mae ganddynt dargedau rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.

Mae'r strategaethau uchod yn gymharol generig eu natur, ond os yw'r ysgol am ddylanwadu ar gyflawniadau a lles dysgwyr, yna nid yw'n ddigon gwneud y pethau hyn yn unig. Mae ysgolion llwyddiannus yn gwneud rhywbeth ychwanegol gyda ffocws ar gyfer dysgwyr dan anfantais ym mhob un o'r strategaethau hyn. Mae eu gwaith yn waith dwys, sy'n targedu dysgwyr dan anfantais yn benodol ac yn canolbwyntio'n fanwl ar anghenion unigol dysgwyr dan anfantais.

**Strategaethau sy'n cynnwys gweithio gyda phartneriaid**

Dangoswch **Sleid Powerpoint 3** sy'n dangos nodweddion arfer effeithiol wrth fynd i'r afael ag anfantais drwy weithio gyda phartneriaid. Dywedwch wrth y cyfranogwyr y cydnabyddir yn gyffredin na all ysgolion ar eu pennau'u hunain dorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chyflawniad. Er bod gan yr ysgol ran bwysig i'w chwarae i wella cyflawniadau dysgwyr dan anfantais, mae ymchwil yn pwysleisio'r angen am ddulliau â sail eang sy'n golygu nifer o asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion yn y gymuned. Yn ychwanegol at yr ysgol, mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau addysgol, cymdeithasol ac iechyd eraill.

Mae ysgolion llwyddiannus mewn amgylchiadau heriol:

- yn ymgysylltu â **rhieni a gofalwyr** dysgwyr dan anfantais – maent yn cyfathrebu ac yn gweithio wyneb yn wyneb i'w helpu nhw a'u plant i oresgyn rhwystrau rhag dysgu;
- yn ymgysylltu â theuluoedd dysgwyr newydd sy'n agored i niwed – maent yn creu amgylchedd croesawgar, gan sefydlu ystafelloedd teuluol neu ystafelloedd anogaeth yn aml lle gall plant ddysgu gyda'u teuluoedd am gyfnod;
- yn deall beth a olygir gan **ysgolion bro** – maent yn cryfhau cysylltiadau â'r gymuned gyda'r bwriad clir o godi cyfraddau presenoldeb, gwella ymddygiad, a chodi lefel cefnogaeth rhieni;
- yn cynllunio ystod o **ddysgu y tu allan i oriau** yn ofalus - maent yn sicrhau bod y gweithgareddau'n cyfateb i anghenion dysgwyr, yn cyd-fynd â'r cwricwlwm ac yn cynyddu hyder, cymhelliant a hunan-barch dysgwyr;
- yn cydlynu ac yn rheoli **gwaith aml-asiantaeth** yn systematig – maent yn datblygu'r medrau arweinyddiaeth sydd eu hangen ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn sefydlu protocolau a phrosesau, yn nodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith gyda phartneriaid, yn deall y cymorth y bydd y disgybl yn ei gael gan bartner allanol, ac yn monitro cynnydd yn ofalus;
- yn defnyddio cymorth arbenigol lle mae gan ddysgwyr anghenion cymhleth na all yr ysgol ar ei phen ei hun eu bodloni - maent yn canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr unigol, yn gweithio gydag asiantaethau i ddarparu gwasanaethau eang yn gysylltiedig â'r teulu i fodloni'r anghenion hynny, ac yn gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion iechyd neu les penodol;

- yn ymgysylltu mewn dulliau '**Tîm o amgylch y teulu'** – maent yn defnyddio'r gronfa o fedrau o fewn y tîm i fynd i'r afael â phryderon iechyd, domestig a lles cymdeithasol dysgwyr a'u teuluoedd;
- yn **cydgyfrannu eu hadnoddau,** fel cyllid o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, mewn strategaethau a hyfforddiant ar y cyd – maent yn mynd i'r afael yn systematig ag anfantais yn eu clwstwr o ysgolion, gan gynnwys cynllunio dulliau i alluogi pontio hwylus o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd drwy eu cefnogi, er enghraifft, yn eu dysgu cymdeithasol ac emosiynol, ac mewn llythrennedd;
- yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith asiantaethau allanol yn erbyn mesurau clir o berfformiad dysgwyr – maent yn defnyddio data i arfarnu effaith mentrau newydd ac yn rhannu gwybodaeth am berfformiad gyda phartneriaid er mwyn helpu cydgysylltu dulliau'r ysgol ag ymyriadau eraill; ac
- yn canolbwyntio'r defnydd o'r **Grant Amddifadedd Disgyblion** – maent yn cyfeirio'r grant yn benodol tuag at ddysgwyr dan anfantais ac nid dysgwyr â chyflawniad isel, yn defnyddio'r strategaethau y gwyddys yn union yw'r rhai mwyaf effeithiol, yn gweithio gyda phartneriaid a rhieni, ac yn arfarnu effaith y gwaith.

Dywedwch wrth y cyfranogwyr y byddant yn gweithio ar weithgaredd mewn grwpiau nawr, a fydd yn gofyn iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddadansoddi enghreifftiau o arfer dda, ymateb i awgrymiadau trafod ac ystyried y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais yn yr ysgol. I hwyluso'r hyfforddiant hwn, mae'r nodweddion hyn wedi'u trefnu'n fras yn bum maes, gydag astudiaeth achos arfer dda ac awgrymiadau trafod ar gyfer pob maes. Dangoswch **PowerPoint 4** sy'n dangos y meysydd hyn.

Yn awr, dylech drefnu'r cyfranogwyr yn grwpiau ar gyfer y gweithgaredd. Gall y grŵp arweinyddiaeth a rheolaeth hefyd ystyried gwariant ar gyfer dysgu mewn perthynas â defnyddio'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Grant Amddifadedd Ysgolion ac arian cyfatebol Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf.

**Dosbarthwch** yr astudiaethau achos arfer orau a'r awgrymiadau trafod ar nodweddion arfer effeithiol. Pan fyddant yn eu grwpiau, dylai cyfranogwyr ddarllen yr astudiaeth achos a defnyddio'r wybodaeth hon wrth iddynt ymateb i'r pwyntiau trafod. Gofynnwch i'r grwpiau enwebu cofnodwr er mwyn gallu nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Bydd angen y wybodaeth hon ar y cyfranogwyr ar gyfer sesiwn olaf yr hyfforddiant.

**Gweithgaredd: Nodi arfer effeithiol** **35 munud**

Dylai'r cyfranogwyr ddarllen yr astudiaeth achos arfer orau a defnyddio'r awgrymiadau trafod i ystyried y ffordd y mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion dan anfantais ar hyn o bryd. Dylent gofnodi'r cryfderau yn yr ysgol a'r meysydd y penderfyna'r grŵp bod angen eu datblygu.

Sesiwn adborth lawn – gan arwain yr adborth, gofynnwch i'r cofnodwr o'r grwpiau roi un/dwy enghraifft o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu y maent wedi'u nodi. Gofynnwch am gwestiynau a sylwadau ar y pwyntiau a godwyd. Dywedwch wrth y cyfranogwyr fod rhan olaf yr hyfforddiant yn gofyn iddynt ymateb i'r meysydd hyn trwy gynllunio ar gyfer gwella.

## Adolygu Rhan 1 a 2

### Sleid PowerPoint

**Sut rydym ni wedi diffinio disgyblion dan anfantais?**

Mae'n bwysig cael ystod eang o feini prawf ar gyfer nodi disgyblion dan anfantais. Mae disgyblion dan anfantais yn cynnwys:

- y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- y rhai o grwpiau lleiafrifol;
- y rhai mewn teuluoedd ar incwm isel;
- plant sy'n derbyn gofal; a
- phlant teithwyr.

### Sleid PowerPoint

**Beth rydym ni'n ei wybod am effeithiau tlodi ac anfantais?**

Bod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o fod heb uchelgais a hunan-barch, ac i fod â phroblemau ymddygiadol ac anhawster yn uniaethu â'u cyfoedion.

Bod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o weld bod y cwricwlwm yn amherthnasol.

Mai mynediad cyfyngedig sydd gan ddisgyblion mewn ysgolion difreintiedig at weithgareddau cerddoriaeth, celf a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol y bydd disgyblion mewn ysgolion breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol yn gyffredinol.

Bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod â chofnod presenoldeb gwael ac yn llai tebygol yn aml o dderbyn diwylliant yr ysgol.

Bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.  Maent hefyd yn fwy tebygol o gael plentyn yn ystod eu harddegau.

Bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod â rhieni nad ydynt yn ymwneud gymaint ag addysg eu plant ac yn fwy tebygol o fod â chanfyddiad a phrofiad negyddol o'r ysgol ac addysg.

Gallwch ddewis defnyddio Sleidiau Powerpoint 5 a 6 o Ran 2 yr hyfforddiant, er mwyn edrych eto ar berfformiad disgyblion dan anfantais yn yr ysgol.

## Sleid Powerpoint 1

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- myfyrio ar arfer dda yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion dan anfantais; ac
- arfarnu agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi nodi:

- cryfderau yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais; a
- meysydd i'w gwella er mwyn helpu codi safonau cyflawniadau disgyblion dan anfantais.

## Sleid Powerpoint 2

**Strategaethau y gall yr ysgol yn unig eu rhoi ar waith**

**Deg strategaeth yn yr ysgol:**

- Dull ysgol gyfan
- Defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd
- Medrau llythrennedd a dysgu
- Medrau cymdeithasol ac emosiynol
- Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad
- Teilwra'r cwricwlwm
- Profiadau cyfoethogi
- Gwrando ar ddysgwyr
- Ymgysylltu â rhieni
- Datblygu arbenigedd staff

**Sleid PowerPoint 3**

**Strategaethau sy'n cynnwys gweithio gyda phartneriaid**

**Ni all ysgolion ar eu pennau'u hunain dorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chyflawniad.**




**<u>Sleid PowerPoint 4</u>**

**Beth mae ysgolion mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda?**

1 Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais
2 Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais
3 Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned
4 Gweithio mewn partneriaeth
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth wrth fynd i'r afael ag anfantais

## Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 1: Mae Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi dylunio system broffilio i olrhain cynnydd dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4.

### Cyd-destun yr ysgol

Ysgol gymunedol 11-16 yn Llansawel, Castell-nedd Port Talbot yw Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart. Mae 500 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd. At ei gilydd, mae nifer o ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig yn rhan o'r dalgylch, ac mae gan 34% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan hanner y disgyblion ym Mlwyddyn 7 hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan yr ysgol ddwy bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ei dalgylch. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan 24% o ddysgwyr.

### Strategaeth

Nod yr ysgol yw "galluogi pob unigolyn i gyflawni ei lawn botensial o fewn fframwaith o ddisgwyliadau uchel". Mae rhan o strategaeth yr ysgol i wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais yn cynnwys:

- lleihau'r amrywiaeth mewn perfformiad rhwng pynciau a grwpiau o ddysgwyr;
- dadansoddi data yn effeithiol i osod targedau heriol ac olrhain cynnydd meysydd pwnc, dysgwyr unigol a grwpiau allweddol o ddysgwyr; ac
- ymgorffori prosesau gosod targedau ac olrhain systematig.

### Gweithredu

### Nodi

Mae'r ysgol yn nodi dysgwyr yng ngharfan Blwyddyn 11 sydd: yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; plant sy'n cael gofal; dysgwyr mwy abl a dawnus; dysgwyr y mae angen cymorth iaith a lleferydd arnynt; a dysgwyr â nam ar eu clyw.

Mae proffil gan bob dysgwr. Mae'r proffiliau hyn yn defnyddio'r wybodaeth uchod ac amrywiaeth o ddata academaidd, yn cynnwys data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT) a gwybodaeth o'r Profion Gallu Gwybyddol (CATs). Defnyddir y data gwaelodlin hwn i ddyrannu 'band ysgol' ar gyfer dysgwyr. Mae saith band ac mae gan bob un isafswm o ran perfformiad disgwyliedig. Er enghraifft, os yw dysgwyr ym mand 5, yr isafswm o ran perfformiad disgwyliedig iddo yng nghyfnod allweddol 4 yw cyflawni gradd 'C' neu gyfwerth mewn TGAU. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol yn disgwyl y bydd pob dysgwr yn cyflawni o leiaf lefel 5. Caiff y targed hwn ei adolygu ddwywaith y flwyddyn yn ystod gosod targedau ysgol gyfan a'i addasu i gynnwys her ar gyfer dysgwyr, lle bydd angen.

Ar ddiwedd Blwyddyn 10, mae athrawon pwnc yn rhoi amcangyfrif o radd ar gyfer pob dysgwr, sy'n cael ei roi ym 'mhroffil y dysgwr'. Defnyddir hyn i nodi dysgwyr sy'n tangyflawni mewn unrhyw feysydd pwnc penodol. Mae'r wybodaeth hon yn ffurfio sail y grwpiau dysgu sy'n cael eu ffurfio ar gyfer Blwyddyn 11, sy'n cynnwys tua

chwe dysgwr. Rhoddir y dysgwyr mwy abl a dawnus mewn grŵp ar wahân. Rhoddir dysgwyr sy'n tangyflawni mewn Saesneg neu fathemateg mewn grŵp dysgu pwnc craidd penodol o 10 dysgwr. Mae unrhyw ddysgwyr sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cael eu croesgyfeirio gyda'r grwpiau cychwynnol hyn er mwyn gallu rhoi cymorth unigol ychwanegol i'r dysgwyr hyn. Caiff dysgwyr â nam iaith a lleferydd a nam ar eu clyw eu dysgu gan staff arbenigol. Caiff pedwar deg y cant o ddysgwyr Blwyddyn 11 eu hyfforddi yn y modd hwn, a chaiff 11% yn ychwanegol eu dysgu trwy'r cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach (Reaching Wider) mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe.

Caiff y proffiliau dysgwyr hyn eu rhannu gyda phob aelod er mwyn gallu cael system gymorth gydlynus.

**Y broses hyfforddi**

Mae saith aelod o staff, y mae pump ohonynt wedi'u hyfforddi'n anogwyr dysgu, yn cael sesiwn i weithio gyda'r rhai y maent yn eu mentora bob pythefnos. Maent yn gweithio gydag unigolion neu gyda grŵp o ddysgwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i fodloni anghenion penodol. Pan fydd angen, mae anogwyr dysgu'n gweithio gydag athrawon pwnc i ddatblygu mwy o strategaethau. Mewn mathemateg, mae cynllun 'mentora cyfoedion' ar waith mewn rhai dosbarthiadau i ddysgwyr sy'n teimlo'n llai hyderus ynghylch rhifedd. Caiff llythrennedd ei ddatblygu gyda'r grŵp dysgwyr mwy abl a dawnus trwy gymdeithas drafod, a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r cydlynydd llythrennedd ac yn gorffen gyda fideo yn cael ei gyflwyno gan ddysgwyr i gystadleuaeth Question Time y BBC.

Mae'r system broffilio yn galluogi staff i fireinio strategaethau i fynd i'r afael â thangyflawni. Pan gaiff canlyniadau ffug arholiadau eu bwydo i mewn i'r system, mae anogwyr yn myfyrio ar lwyddiant strategaethau amrywiol, ac yn ystyried sut i addasu dulliau a ffyrdd o rannu arfer dda.

Mae disgyblion yn llenwi holiadur ar ddechrau pob tymor sy'n gofyn iddynt roi gradd i agweddau ar eu hunan-barch, eu hyder a'r nodau a osodir ar eu cyfer. Mae staff yn dadansoddi'r ymatebion ar ôl adolygiad y tymor cyntaf ac yn cyflwyno eu canfyddiadau ar ffurf graff. Mae'r graff yn dangos canran y myfyrwyr a nododd ddatblygiad cadarnhaol ym mhob maes cwestiwn penodol. Trwy arfarnu, mae'r ysgol wedi canfod:

- er bod holiaduron ffurfiannol yn rhoi cipolwg ar y modd y mae teimladau personol dysgwyr amdanyn nhw eu hunain wedi newid, mae angen i athrawon ganfod mwy ynglŷn â pham mae dysgwyr yn teimlo bod y newid hwn wedi digwydd; a
- bod y broses broffilio yn neilltuo amser a chymorth i ddysgwyr nodi eu meysydd gwendid eu hunain, datblygu strategaethau i'w goresgyn a myfyrio ar ba ffyrdd eraill y gallant ddefnyddio'r medrau hyn. Mae'r ysgol yn bwriadu rhoi amser ychwanegol i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol hon ar gyfer Blwyddyn 11 y flwyddyn nesaf.

**Deilliannau**

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda yng Nghwrt Sart. Dros y blynyddoedd diwethaf, maent wedi cyflawni canlyniadau gwell na'r rhai mewn ysgolion tebyg. Yn 2011, fe wnaeth 31% o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim gyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, a oedd yn uwch na pherfformiad cyfartalog dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ledled Cymru (22%). Mae lefelau presenoldeb wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am y pum mlynedd diwethaf.

## Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

**Astudiaeth achos 2: Mae Ysgol Bryn Elian yng Nghonwy wedi aildrefnu ei system fugeiliol i helpu olrhain a monitro anghenion ei disgyblion dan anfantais.**

### Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11-18 gydag 850 o ddisgyblion yw Ysgol Bryn Elian. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ochr ddwyreiniol Bae Colwyn a'r pentrefi cyfagos. Mae'r dalgylch yn amrywiol ac yn cynnwys ardal o amddifadedd cymdeithasol, sy'n gymwys i gael cyllid cydgyfeirio Ewropeaidd. Mae gan 22% y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae 30% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

### Strategaeth

Cydnabu'r ysgol fod angen ailffurfio'r system fugeiliol fel ei bod yn addas ar gyfer y disgyblion. Roedd angen cymorth academaidd a bugeiliol penodol ar ddisgyblion dan anfantais i oresgyn eu rhwystrau unigol rhag gwneud cynnydd. Penodwyd mentor dysgu nad yw'n addysgu i bob grŵp blwyddyn i gynorthwyo rheolwr dysgu, sef aelod o staff addysgu'r ysgol. Yn unol â chynllun strategol yr ysgol, hyfforddwyd pob mentor i fod yn anogwyr dysgu.

### Gweithredu

Mae mentoriaid dysgu yn ymgymryd ag ystod o dasgau. Maent:

- yn dadansoddi data ar gyfer eu grŵp blwyddyn bob chwe wythnos, gan fesur perfformiad a chynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd. Pan fydd disgyblion yn methu cyrraedd eu targedau, caiff strategaethau eu hailasesu, ac mae mentoriaid dysgu yn targedu unigolion ar gyfer sesiynau mentora;
- yn defnyddio data prawf Agweddau Disgyblion Atyn Nhw eu Hunain a'r Ysgol (PASS) i nodi'r rhwystrau rhag dysgu i ddysgwyr dan anfantais unigol. Trwy waith unigol a gwaith grŵp, mae mentoriaid yn gweithio gyda'r disgybl i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion;
- yn rhoi cymorth ymddygiad i staff a disgyblion trwy gynnal sesiynau un i un gyda disgyblion, ac fe barheir â nhw wedyn yn yr ystafell ddosbarth, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- yn goruchwylio sesiynau 'dal i fyny' a 'chymorthfeydd gwaith cwrs' gyda disgyblion sydd wedi bod yn absennol neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt;
- yn cysylltu ag asiantaethau eraill i gydweithio'n agos â disgyblion ar y gofrestr amddiffyn plant, ar y gofrestr plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd dan adain y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg;
- yn gweithredu system alw ar y diwrnod cyntaf y mae disgybl yn absennol; ac
- yn rhan annatod o strwythur bugeiliol yr ysgol.

Mae pob mentor wedi cael ei hyfforddi gan seicolegydd clinigol mewn therapi ymddygiad gwybyddol hefyd. Mae mentoriaid unigol wedi cael eu hyfforddi mewn maes arbenigedd. Mae'r mentoriaid yn gweithio fel tîm trwy gyfeirio grwpiau o ddysgwyr â phroblemau penodol at fentor sy'n arbenigo yn y maes hwnnw. Mae mentoriaid yn cynnal sesiynau ar gyfer disgyblion mewn meysydd fel datblygu cyfeillgarwch, meddwl cadarnhaol ac ymddygiad a rhaglenni cymorth i gyfoedion mewn grŵp. Mae mentoriaid yn ennyn diddordeb disgyblion mewn prosiectau a gynlluniwyd i ddatblygu empathi a datrys problemau bywyd go iawn hefyd.

Fe wnaeth yr ysgol hefyd sefydlu 'canolfan cymorth i ddisgyblion' (PSC) yn 2006-2007 i gynorthwyo disgyblion â phroblemau ymddygiad. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi newid natur y cymorth a gynigir yn y PSC i gryfhau lles emosiynol dysgwyr.

Caiff gwaith mentoriaid dysgu ei arfarnu trwy ddadansoddi:

- data perfformiad disgyblion;
- data PASS;
- monitro ymddygiad a phresenoldeb; ac
- adborth gan ddisgyblion.

Mae arfarnu gwaith mentoriaid dysgu wedi dangos bod angen i'r ysgol wneud y canlynol i wella'r gwaith a wnânt:

- nodi mwy o gyfleoedd hyfforddiant achrededig ar gyfer mentoriaid;
- cryfhau'r tîm trwy gael gweithwyr allweddol yng nghyfnod allweddol 3 ac yng nghyfnod allweddol 5; a
- datblygu strategaethau i ddarparu mwy o sesiynau ar ôl yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ac ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## Deilliannau

Mae lefelau presenoldeb wedi bod yn y chwarter uchaf o blith y rhai ar gyfer ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Mae presenoldeb disgyblion dan anfantais wedi gwella. Mae data PASS yn dangos bod agwedd disgyblion at ddysgu wedi gwella gan arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion sydd â phroblemau ymddygiad. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni lefel 2 wedi cynyddu'n sylweddol, o 25% yn 2009 i 70%, ac mae lefelau perfformiad yn llawer gwell na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan erbyn hyn.

## Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

**Astudiaeth achos 3: Mae Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn Abertawe wedi canolbwyntio ar wella presenoldeb trwy ddefnyddio ystod o ddulliau.**

**Ffilm: Mynd i'r afael â thlodi drwy wella presenoldeb**

### Cyd-destun yr ysgol

Ysgol gyfun gymysg 11-16 ar ochr ddwyreiniol Abertawe yw Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed. Mae'r ysgol yn yr unfed ward ar ddeg mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 73% o ddysgwyr yn byw mewn 30% o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 664 o ddysgwyr ar y gofrestr, ac mae 36% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer fawr o ddysgwyr yn trosglwyddo i mewn ac allan o'r ysgol.

### Strategaeth

Mae gwella presenoldeb wedi bod yn flaenoriaeth strategol yn y cynllun datblygu ysgol ers cael ei nodi'n argymhelliad arolygu yn 2005. Ar yr adeg honno, barnwyd bod presenoldeb yn anfoddhaol. Argymhellodd y tîm arolygu hefyd y dylai'r ysgol arfarnu, a bu gwelliant yn narpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 i ddysgwyr gallu cymedrol ac is. Roedd yr ysgol yn ystyried bod yr argymhellion hyn yn gydberthynol.

Mae camau strategol allweddol i wella presenoldeb wedi cynnwys:

- datblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i anghenion yng nghyfnod allweddol 4;
- trawsnewid cwricwlwm cyfnod allweddol 3 trwy newid cynlluniau gwaith sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm medrau;
- cymell Blwyddyn 9 yn nhymor yr haf gyda rhaglen o fedrau allweddol achrededig; a
- chraffu ar ystod o faterion presenoldeb i nodi blaenoriaethau a sefydlu meini prawf llwyddo i fesur gwelliant.

Sefydlodd yr ysgol grŵp ffocws ar bresenoldeb gyda chenhadaeth i:

- leihau absenoldebau anawdurdodedig;
- diffinio'r gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor;
- lleihau triwantiaeth a gwella prydlondeb; a
- rheoli presenoldeb trwy gynllun parhad busnes.

### Gweithredu

Presenoldeb yw'r eitem gyntaf ar yr agenda yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol, y tîm arweinyddiaeth, yr uwch dîm bugeiliol a'r tîm bugeiliol. I wella presenoldeb, datblygodd yr ysgol nifer o ddulliau, sef:

- ymestynnwyd tîm o swyddogion cymorth bugeiliol (SCB), a sefydlwyd i ddechrau trwy gyllid Rhagori, ac fe gafodd ei ariannu'n ddiweddarach gan gyllideb yr ysgol. Mae swyddogion cymorth bugeiliol a'r Swyddog Lles Addysg (SLlA) yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Mae tiwtoriaid dosbarth yn cefnogi gwaith y swyddogion cymorth bugeiliol ar bresenoldeb. Mae'r swyddogion cymorth bugeiliol a'r uwch dîm bugeiliol yn cynnwys cyfarfodydd cymorth sydd wedi'u hanelu at rieni targedig;
- ailstrwythurwyd y tîm bugeiliol a gwnaed newidiadau i gyfrifoldebau addysgu a dysgu ac i ddefnyddio staff cysylltiol;
- bu'r ysgol yn arbrofi â system negeseuon testun i fonitro presenoldeb, ac yn dilyn adborth cadarnhaol gan rieni, datblygwyd hyn ar gyfer yr ysgol gyfan;
- cafodd cyllid ENGAGE (cynllun cyllid Ewropeaidd, sy'n cael ei redeg trwy Lywodraeth Cymru) ei dargedu at bresenoldeb dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yng nghyfnod allweddol 4;
- bu grŵp ffocws ar bresenoldeb yn cyfarfod bob mis, wedi'i gadeirio gan y pennaeth;
- buddsoddodd yr ysgol mewn hyfforddiant staff i wella cysondeb cysylltu presenoldeb a chynnydd mewn adborth i ddysgwyr yn ystod yr adolygiadau academaidd ddwywaith y flwyddyn, i rieni mewn nosweithiau rhieni ac wrth gwblhau adroddiadau dysgwyr;
- defnyddiodd yr ysgol arfer dda ei hysgolion cynradd o ran lles a chymorth i ddysgwyr. Datblygodd ddarpariaeth gofleidiol, yn cynnwys clwb brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol, a gynlluniwyd i ddatblygu medrau personol a dysgu dysgwyr; ac
- ystod o weithio amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar bresenoldeb, yn cynnwys y prosiect 'So To Do', sef Prosiect Menter Ieuenctid, gwasanaeth seicoleg addysg, cymorth ymddygiad, Ymgysylltu â Dysgwyr yn Abertawe a'r Gwasanaeth Ymgynghorol ar gyfer Ieithoedd Ethnig Lleiafrifol.

Caiff disgyblion eu gwobrwyo am bresenoldeb da hefyd trwy:

- wobrau pwysig mewn Noswaith Wobrwyo Flynyddol;
- llythyrau tymhorol at rieni i ddysgwyr y mae eu presenoldeb yn 95%+; a
- gwobrau arbennig am bresenoldeb 100% am y flwyddyn gyfan.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod staff yn monitro ac yn arfarnu strategaethau presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfarfodydd monitro wythnosol penaethiaid ysgolion is, canol, uwch;
- cyfarfod swyddogion cymorth bugeiliol cyn cyfarfod y swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg;
- cyfarfodydd monitro wythnosol swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg; a
- chyfarfodydd monitro misol y grŵp ffocws ar bresenoldeb i nodi materion o archwilio data yn ôl grŵp blwyddyn, rhyw a grwpiau o ddysgwyr (ethnig lleiafrifol, anghenion addysgol arbennig, plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim).

**Deilliannau**

Mae deilliannau da yr ysgol yn cynnwys:

- presenoldeb gwell ym mhob grŵp blwyddyn o flwyddyn i flwyddyn: dros y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb cyffredinol wedi cynyddu o 83.4% i 90.9%;
- presenoldeb gwell ar draws grwpiau o ddysgwyr. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb Blwyddyn 11 wedi cynyddu o 62% i 90.6%;
- gostyngiad yng nghanran yr absenoldebau anawdurdodedig yn ôl grŵp blwyddyn ac yn gyffredinol. At ei gilydd, mae canran yr absenoldebau anawdurdodedig wedi gostwng o 15.8% i 0.8% dros y pum mlynedd diwethaf;
- dilyniant cynyddol i'r sector ôl-16 o ganlyniad i bresenoldeb ac ymgysylltu gwell;
- gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn y ganran sy'n gadael heb gymwysterau. Bu gostyngiad cyson yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael heb unrhyw gymhwyster, o 7% yn 2005 i 0% yn 2011;
- perthnasoedd agosach gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr unigol trwy fonitro presenoldeb mewn modd sensitif; a
- lles gwell dysgwyr yn sgîl ymgysylltu cyson a pharhaus trwy bresenoldeb gwell.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella'n sylweddol. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella o 45% i 63%, ac yng nghyfnod allweddol 4 o 23% i 37%. Mae canlyniadau diweddar yng Nghefn Hengoed wedi bod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion.

## Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1 Pa fecanweithiau ydym ni'n eu defnyddio ar gyfer nodi disgyblion dan anfantais? Pa mor effeithiol yw'r rhain?
2 A ydym ni'n defnyddio data a gwybodaeth feintiol ac ansoddol, gan gynnwys gwybodaeth am les a chanfyddiadau disgyblion? Pa mor dda ydym ni'n defnyddio'r wybodaeth hon?
3 Pa mor dda ydym ni'n olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion dan anfantais yn systematig?
4 Sut ydym ni'n defnyddio meincnodau allanol i fesur cynnydd yn erbyn ysgolion eraill?
5 Pa mor dda ydym ni'n monitro ac yn arfarnu'r cymorth a'r ymyriadau a ddarparwn ar gyfer disgyblion dan anfantais? Os nad yw strategaethau yn arwain at welliannau disgyblion, a ydym ni'n eu mireinio neu'n eu newid?
6 A oes gennym ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng lles a safonau? Sut byddem ni'n esbonio hyn?
7 Pa mor dda y mae ein prosesau mentora yn cefnogi datblygiad cyffredinol disgyblion?

**Ble mae'r cryfderau yng nghyflawniadau ein disgyblion dan anfantais?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

## Grŵp 2: Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais

## Astudiaeth achos 1: Mae Ysgol Gyfun Sandfields wedi dylunio dull ysgol-gyfan llwyddiannus o ddatblygu llythrennedd.

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Ysgol Sandfields yn gwasanaethu ystâd Sandfields ym Mhort Talbot, sef un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd yng Nghymru. Mae 625 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan 39% o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan ryw 12% o ddysgwyr ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, ac mae gan 42% angen addysgol arbennig. Mae darpariaeth adnoddau gwell yn yr ysgol ar gyfer 67 o ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol a dwys.

### Strategaeth

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, nid oes gan lawer o'r dysgwyr y medrau darllen i gymryd rhan yn y cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi datblygu strategaethau effeithiol i wella medrau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd.

### Gweithredu

Mae'r ysgol wedi datblygu strategaeth ysgol-gyfan ar gyfer addysgu medrau. Yn sgîl hyfforddiant i staff, mae staff yn craffu ar raglenni astudio yng nghyfnod allweddol 3 i nodi ble caiff medrau eu haddysgu ar draws meysydd pwnc. Wedyn, mae staff yn mapio amlder a defnydd o fedrau penodol ar gyfer pob maes cwricwlwm ym mhob hanner tymor trwy gydol cyfnod allweddol 3. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ymateb i unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth.

Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad llythrennedd a rhifedd hefyd. Wrth ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae staff yn cynllunio rhaglen gymorth strwythuredig ar gyfer y rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn y medrau penodol hyn. Caiff y gweithdai iaith neu fathemateg dilynol eu cynnal gan y cydlynydd anghenion addysgol arbennig mewn ymgynghoriad â'r penaethiaid Saesneg a mathemateg. Mae staff yn olrhain cynnydd dysgwyr gan ddefnyddio profion llythrennedd a rhifedd. Nod y gweithdai iaith yw gwella oedran darllen swyddogaethol dysgwyr i fod uwchlaw 10 oed. Mae'r targed gwaelodlin hwn yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen unigol ar gyfer tynnu dysgwyr o wersi ar gyfer y ddau weithdy hyn yng nghyfnod allweddol 3. Mae athrawon yn cyfeirio dysgwyr at y gweithdai, ond gall dysgwyr gyfeirio'u hunain hefyd, a gall rhieni ofyn bod eu plant yn mynychu. Mae'r ysgol hefyd wedi atal Ffrangeg ym Mlwyddyn 7 i ddosbarthiadau dethol sydd â diffygion iaith sylweddol. Am dymor, mae'r athro Ffrangeg yn gweithio gyda'r tîm anghenion addysgol arbennig i ddatblygu medrau darllen. Mae dysgwyr yn dilyn rhaglen ymyrraeth strwythuredig. Mae'r dull hwn yn datblygu arbenigedd staff ac yn rhoi mwy o amser i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd hefyd.

Yn ychwanegol, mae'r adran Saesneg, ar ôl dadansoddi data dysgwyr, wedi cyflwyno rhaglen ddarllen yng nghyfnod allweddol 3. Mae pob dysgwr yn dilyn y rhaglen, ac mae'n gwella'r cwricwlwm trwy ganolbwyntio ar fedrau mewn ffordd strwythuredig a mesuradwy.

Mae'n darparu dull unffurf ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael safon gyson o gyflwyno, gan ddefnyddio adnoddau priodol, trwy gydol y cyfnod allweddol. Mae'r adran Saesneg wedi cymryd yr awenau i ailysgrifennu polisi asesu'r ysgol gyfan. Mae hyn wedi helpu i wella cysondeb marcio ac adborth i ddysgwyr ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn rhannu arfer dda trwy lanlwytho adnoddau ar fewnrwyd yr ysgol. Ar gyfer pob adnodd iaith, mae arwydd o ddarllenadwyedd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i staff asesu eu hadnoddau ac addasrwydd y deunydd y maent yn ei ddefnyddio.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae'r holl ddysgwyr yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Y nod yw cael pawb i gyflawni lefel 1, a lefel 2 i'r rhai sy'n abl i wneud hynny. Mae'r broses hon yn cysylltu â fframwaith cymwysterau cyfnod allweddol 4, lle mae pob dysgwr yn dilyn cwrs Bagloriaeth Cymru.

Mae uwch arweinwyr yn adolygu meysydd y cwricwlwm yn rheolaidd i fonitro cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer medrau. Mae'r ysgol yn casglu safbwyntiau dysgwyr
yn rheolaidd.

**Deilliannau**

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol rhwng yr adeg pan fyddant yn dechrau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r dysgwyr wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ran cymhwysedd mewn darllen. Pan ddechreuodd y Flwyddyn 9 bresennol yn yr ysgol, roedd oedran darllen tua 73% ohonynt islaw 10 oed. Mae'r dysgwyr wedi elwa'n sylweddol, ac ar hyn o bryd, dim ond 14% o'r garfan sydd ag oedran darllen islaw 10 oed.

Yng nghyfnod allweddol 4, am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod yn y chwarter cyntaf neu'r ail chwarter ar gyfer pob ysgol ar y meincnodau prydau ysgol am ddim o ran pob un o'r prif ddangosyddion. Mae perfformiad ymhlith y gorau yn nheulu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn llwyddo i leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu cael. Dros y pum mlynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd rhwng y dysgwyr hynny y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion mwy breintiedig wedi gostwng o 33% i 17%.

# Grŵp 2: Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais

## Astudiaeth achos 2: Defnyddio'r cwricwlwm a strategaethau eraill i gefnogi dysgwyr sydd o dan anfantais

### Cyd-destun

Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 11-16 oed yw Ysgol Bryngwyn. Mae wedi'i lleoli yn Dafen, ar ochr ogledd-ddwyreinol Llanelli, ac mae'n denu disgyblion o rannau o ganol y dref a nifer o bentrefi y tu allan i'r ardal. Mae 834 o ddysgwyr ar y gofrestr. Ar y cyfan, mae'r dalgylch o dan anfantais. Mae 22% o'r disgyblion yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Canolbwyntio ar wella presenoldeb, agwedd a chyflawniad dysgwyr sydd o dan anfantais yw nodau craidd yr ysgol.

### Gweithredu

Mae'r ysgol yn nodi ei disgyblion sydd o dan anfantais gan ddefnyddio ystod eang o feini prawf ac yn olrhain cynnydd disgyblion unigol yn erbyn data gwaelodlin bob tymor. Dadansoddir cynnydd disgyblion sydd o dan anfantais yn benodol ar ddiwedd cyfnodau allweddol 3 a 4 i lywio cynlluniau.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio ystod dda o brosesau i ddadansoddi amrywiaeth o ddata am berfformiad. Mae'r rhain yn cynnwys data olrhain yr ysgol a gwybodaeth o Brofion Gallu Gwybyddol (PGG) a phrofion y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysgol (SCYA) i arfarnu effaith strategaethau ar ddisgyblion dan anfantais.

Mae strategaethau ar gyfer gwella medrau disgyblion dan anfantais yn cynnwys:

- nodi dau aelod o'r uwch dîm yn benodol i wella deilliannau disgyblion ym meysydd cyfathrebu a rhifedd;
- cynyddu nifer y setiau Saesneg a mathemateg ym Mlynyddoedd 9, 10 ac 11;
- creu grwpiau ar wahân ar gyfer rhifedd a llythrennedd ym Mlynyddoedd 7 ac 8;
- cyflwyno cymwysterau Medrau Allweddol ym maes Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu ar gyfer lefelau 1-3;
- cyflwyno prosiect llythrennedd pontio ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3. Caiff disgyblion o Flynyddoedd 6 a 7 eu nodi ar sail dadansoddiadau data i dderbyn sesiynau 'dal i fyny' wythnosol yn ogystal â sesiynau darllen yn gynnar bob bore;
- cyflwyno prosiect rhifedd pontio ar gyfer cyfnod allweddol 2/3. Caiff disgyblion ym Mlynyddoedd 6, 7 ac 8 eu nodi drwy ddefnyddio data a chrëir grwpiau ymyrryd bychain. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn sesiwn wythnosol awr o hyd – sy'n dilyn 'rhaglen ymarfer rhifau'; a
- defnyddio cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 3 i gymell disgyblion.

Mae strategaethau eraill i fynd i'r afael ag anfantais yn cynnwys:

- prosiect llythrennedd emosiynol i ddysgwyr cyfnod allweddol 3 a nodwyd gan bennaeth y flwyddyn fel dysgwyr sydd o dan anfantais y mae angen cymorth arnynt. Manteisiodd y grŵp hwn ar amrywiaeth o strategaethau ymyrryd a oedd yn gweddu i anghenion unigol. Rhoddwyd cymorth ychwanegol i'r prosiect drwy gysylltiadau â gwasanaethau cymorth eraill ac asiantaethau gwirfoddol;
- pwyslais cryf ar lais y dysgwr i wneud newidiadau i'r cwricwlwm. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o ddysgu'n seiliedig ar brosiectau 'gorchwyl a gorffen' byr i gymell dysgwyr, yn ogystal â sefydlu prosiect wythnos o hyd mewn achosion eraill a oedd yn cynnwys ymweliadau i roi profiad dysgu mwy cyfoethog i ddysgwyr;
- annog bechgyn i ddarllen yn fwy llwyddiannus drwy ddatblygu prosiect sy'n cysylltu pêl-droed â darllen. Aeth y dysgwyr a fu'n gysylltiedig â'r dasg ati i'w arwain drwy fentora dysgwyr Blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd a oedd yn bwydo'r ysgol;
- swyddog presenoldeb yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod cysylltiad effeithiol gyda rhieni. Mae'r swyddog hwn hefyd yn gweithio gyda grŵp o ddysgwyr a nodwyd a oedd yn absennol yn aml, i geisio lleihau nifer yr absenoldebau anawdurdodedig;
- darparu sylfaen ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at gyfathrebu gwell ac mae gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn effeithiol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r ysgol. Mae hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r ysgol i gefnogi dysgwyr sydd o dan anfantais; a
- chydweithio'n effeithiol â Chymdeithas Pobl Ifanc a Phlant Sir Gaerfyrddin i ddarparu gweithgareddau sydd ag amrywiaeth eang o ddarpariaeth y tu allan i oriau ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd.

**Deilliannau**

Mae'r ysgol yn ymgysylltu â disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn llwyddiannus iawn o ganlyniad i:

- ddatblygu medrau allweddol disgyblion yn effeithiol iawn yn eu rhaglenni astudio;
- gwrando ar adborth gan ddisgyblion dan anfantais a chymryd camau effeithiol dros ben ar sail y wybodaeth hon;
- addasu strategaethau dysgu ac addysgu yn llwyddiannus er mwyn cymell disgyblion a'u galluogi i gwblhau eu gwaith yn llwyddiannus;
- monitro effaith y strategaethau hyn ar ddisgyblion dan anfantais yn ofalus; a'r
- rhaglen y tu allan i oriau ysgol hynod effeithiol a phoblogaidd eithriadol.

Mae'r ysgol wedi gwella deilliannau ar gyfer disgyblion dan anfantais yn y meysydd canlynol:

- mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn 25% uchaf yr ysgolion tebyg yn y dangosydd perfformiad hwn;

- ym maes llythrennedd, mae'r ysgol wedi gwella cywirdeb darllen a medrau deall y dysgwyr yn sylweddol;
- ym maes rhifedd, gwellodd disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 eu medrau'n sylweddol gan gyflawni canlyniadau uwch na'r rhai a gafodd eu darogan;
- bu gwelliant amlwg yng nghyflawniad bechgyn dan anfantais yn gyffredinol. Yng nghyfnod allweddol 3, ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng perfformiad bechgyn a merched. Newidiadau yn y strategaethau dysgu ac addysgu sy'n gyfrifol am hyn yn ôl y pennaeth;
- roedd canlyniadau TGAU pob disgybl yn llawer uwch na'r hyn a gafodd eu darogan gan ddata'r Prawf Gallu Gwybyddol (PGG);
- mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf a nhw sydd â'r nifer uchaf erbyn hyn yn nheulu'r ysgolion tebyg y mae Bryngwyn ynddo;
- mae cyfartaledd y sgôr pwyntiau ehangach i ddisgyblion 15 oed yn yr ysgol wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf a nhw sydd â'r cyfartaledd uchaf yn nheulu'r ysgolion tebyg y mae Bryngwyn ynddo; ac
- mae presenoldeb wedi gwella ymysg disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a chofnododd yr ysgol ostyngiad yn nifer yr absenoldebau anawdurdodedig.

# Grŵp 2: Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais

## Astudiaeth achos 3: Dysgu y tu allan i oriau i gyd-fynd â'r cwricwlwm

### Cyd-destun

Mae rhaglen C3+, 'Cyfoethogi, Cymell, Cyffroi', yn gweithio gydag ysgolion yn Rhondda Cynon Taf lle mae oddeutu 23% o ddisgyblion oed ysgol yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Mae'r rhaglen yn targedu grwpiau o bobl ifanc ag anghenion penodol gan eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd neu mae ganddynt hunan-barch isel a medrau cymdeithasol gwael. Mae'r grwpiau hefyd yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal neu'r rhai sy'n fwy abl a dawnus. Mae'r rhaglen yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i dderbyn disgyblion a gyfeirir at y ddarpariaeth gan amrywiaeth o asiantaethau.

### Gweithredu

Mae gweithwyr C3+ yn ymgynghori â disgyblion i addasu a gwella'r rhaglen. Cynigir amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys hoci, celf, trampolinio, dawnsio stryd, crefftau creadigol, iaith arwyddion, pêl-rwyd, ffotograffiaeth, colur ar gyfer y theatr, dawnsio neuadd, newyddiaduraeth, cic-focsio, sgïo, marchogaeth, golff, cwad-feicio a choginio, yn ogystal ag ystafell lle gall pobl ifanc ymlacio mewn amgylchedd diogel a gofalgar.

Mae gweithgareddau C3+ wedi'u datblygu mewn cymunedau unig a difreintiedig mewn clystyrau o ysgolion. Mae'r ddarpariaeth wedi'i thargedu at gymunedau, grwpiau a phobl ifanc sy'n amharod i fynychu gweithgareddau mewn ysgol. Mae rhaglen C3+ wedi darparu cludiant, prydau min-nos rhatach, gweithgareddau am ddim yn ogystal â gweithgareddau cymunedol i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan.

### Deilliannau

Mae disgyblion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn nodi'r medrau, fel gweithio mewn tîm a chyfathrebu, y maent wedi'u dysgu drwy'r gweithgareddau. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymgysylltu â disgyblion ac yn meithrin ymdeimlad o werth a pherthyn yng nghymuned yr ysgol, yn ogystal â gwella hunan-barch a lles. Mae nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth C3+ wedi cynyddu wrth i'r ddarpariaeth ehangu. Yn 2007-2008, cafwyd 101,360 o gysylltiadau â phobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn C3+. Yn 2008-2009, cododd nifer y cysylltiadau i 227,405. Mae Mae canran y bobl ifanc 15 oed sy'n cyrraedd trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, yn Rhondda Cynon Taf wedi gwella'n llawer cyflymach na Chymru gyfan. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r dangosydd perfformiad hwn wedi codi chwe phwynt canran.

## Grŵp 2: Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1. Pa mor dda ydym ni'n addasu'r cwricwlwm er mwyn cynorthwyo disgyblion dan anfantais? Sut ydym ni'n gwybod bod hyn yn bodloni eu hanghenion?
2. Pa mor dda ydym ni'n defnyddio'r cwricwlwm i archwilio themâu tlodi ac anfantais ac yn helpu disgyblion i ddeall sut y gellir effeithio arnynt mewn ffyrdd gwahanol?
3. Pa mor dda ydym ni'n addasu ein strategaethau addysgu a dysgu i gyfateb i anghenion disgyblion dan anfantais?
4. A ydym ni'n nodi ac yn targedu cymorth ar gyfer disgyblion dan anfantais yn ein gwaith ar bontio rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3? A yw'r gwaith hwn yn effeithiol?
5. Pa mor dda ydym ni'n defnyddio dysgu y tu allan i oriau i gynyddu hyder, cymhelliant a hunan-barch disgyblion? A ydym ni'n cynnwys cyfoethogi diwylliannol a chwaraeon yn ogystal â chymorth addysgol ychwanegol fel clybiau gwaith cartref?
6. A ydym ni'n targedu disgyblion penodol dan anfantais i'w hannog i ymuno â chlwb a fyddai o fudd iddynt?
7. Pa mor dda ydym ni'n monitro faint o ddisgyblion dan anfantais sy'n manteisio ar weithgareddau y tu allan i oriau ac yn arfarnu'r effaith ar eu cyflawniad a'u lles?

**Ble mae'r cryfderau yn ein cymorth penodol ar gyfer disgyblion dan anfantais?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

**Astudiaeth achos 1: Mae Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd wedi creu cysylltiadau cryfach gyda rhieni a'r gymuned leol er mwyn sicrhau bod dysgwyr dan anfantais yn cael eu cynorthwyo'n dda.**

**Cyd-destun yr ysgol**

Ysgol cyfrwng Saesneg 11 i 18 ger canol Caerdydd yw Ysgol Uwchradd Cathays. Mae 896 o ddysgwyr ar y gofrestr, yn cynnwys 144 yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn derbyn dysgwyr o ardal ddaearyddol eang, a daw tua 40% o ddysgwyr o'r tu allan i'r dalgylch. Maent yn cynrychioli'r ystod gallu llawn, ond mae cyrhaeddiad cyfran sylweddol o ddysgwyr islaw'r cyfartaledd pan fyddant yn dechrau. Mae gan 38% o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol y gyfran uchaf o blant ceiswyr lloches o oedran ysgol uwchradd yng Nghaerdydd, sef rhwng 7% a 10% o boblogaeth yr ysgol yn nodweddiadol. Mae lefel symudedd y grŵp hwn yn uchel iawn. Ar gyfartaledd, mae trosiant poblogaeth y dysgwyr rhwng 20% a 30% bob blwyddyn.

Mae dros 30 o ieithoedd yn cael eu siarad gan ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Arabeg, Bengaleg, Tsieceg, Ffarseg, Pwnjabeg, Somalieg ac Wrdw. Nid yw'r Gymraeg yn famiaith i unrhyw un o'r dysgwyr na'r myfyrwyr. Saesneg yw mamiaith tua hanner ohonynt. Darperir cymorth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol ar gyfer 257 o ddysgwyr.

**Strategaeth**

Mae rhan o gynllunio strategol yr ysgol yn ymwneud â chreu cysylltiadau cryfach gyda rhieni a'r gymuned leol, er mwyn sicrhau bod dysgwyr dan anfantais yn cael eu cynorthwyo'n dda. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio sylw ar gyfnod pontio dysgwyr o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 ac mae'n monitro cynnydd a lles dysgwyr yn ofalus.

**Gweithredu**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o lawer o asiantaethau a grwpiau cymunedol i helpu dysgwyr i ymgynefino a datblygu a chryfhau cysylltiadau cyfathrebu gyda'u rhieni.

**Dydd Sadwrn Pontio**

Mae'r ysgol yn cynnal llawer o weithgareddau pontio, yn cynnwys 'Dydd Sadwrn Pontio', pan fydd yr ysgol yn cynnal ystod o weithgareddau ar gyfer dysgwyr a'u rhieni. Cynigir cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr sydd dan anfantais yng nghyfnod allweddol 2.

**Diwrnod dod â Rhiant i'r Ysgol**

Yn ystod Blwyddyn 7, gwahoddir y rhieni i dreulio bore yn gweithio ochr yn ochr â'u plant. Y llynedd, cymerodd 24 o rieni ran, ac eleni, mae'r ysgol yn gobeithio cynyddu'r nifer hon.

**Cyfarfodydd teuluol**

Gwahoddir pob dysgwr ym Mlwyddyn 7 i'r ysgol ar gyfer 'Cyfweliad Teuluol' gydag aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Trafodir materion fel pontio, medrau sylfaenol, a chyfleoedd ychwanegol sydd ar gael. Caiff y canlyniadau o'r cyfarfodydd eu hadrodd yn ôl wrth benaethiaid adran a phenaethiaid blwyddyn, ac fe gânt eu hymgorffori mewn eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd arweinwyr yn aml. Yn ogystal, caiff cyfarfodydd teuluol eu trefnu i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 i drafod cynnydd, uchelgeisiau a dyheadau dysgwyr. Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfieithwyr yn bresennol mewn digwyddiadau o'r fath. Mae'r cyfieithwyr hefyd yn helpu'r staff i werthfawrogi a deall gwahaniaethau diwylliannol penodol a allai effeithio ar addysgu a dysgu.

**Defnyddio arbenigedd yn y gymuned**

Mae cyfradd presenoldeb un grŵp o ddisgyblion ethnig lleiafrifol yn isel iawn ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r ysgol wedi manteisio ar gymorth a chefnogaeth unigolyn o'r un grŵp ethnig. Mae'n cynnig ei gymorth i weithredu fel person cyswllt rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio cynllun tebyg o'r blaen gyda grŵp ethnig arall, a llwyddodd hyn i wella'r cyfathrebu rhwng y rhieni a'r ysgol.

**Prosiect Fy Addysg: ymgysylltu â rhieni a datblygu llais y dysgwyr (wedi'i gefnogi gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd)**

Nod y prosiect yw ymgysylltu â rhieni o wahanol gefndiroedd ethnig, y mae llawer ohonynt yn amharod i ymgysylltu â'r ysgol ynghylch materion addysgu a dysgu. Cynlluniodd y dysgwyr darn o gyfrwng rhyngweithiol i roi gwybod i rieni ac aelodau o'r teulu am addysg eu plant a sut i ddeall y system addysg yn well. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd DVD a gwefan. Cafodd y dysgwyr eu hyfforddi i ddefnyddio cyfryngau digidol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd i gynllunio a chyfarwyddo'r gwaith. Bydd cam nesaf y prosiect yn golygu bod dysgwyr a'u rhieni yn gweithio gyda'i gilydd, er mwyn i rieni allu magu hyder ac ennill y medrau i gymryd rôl fwy rhagweithiol i gefnogi addysg eu plant.

Mae'r ysgol yn monitro ac yn dadansoddi cyfranogiad rhieni mewn digwyddiadau a nosweithiau rhieni. Caiff y wybodaeth hon ei monitro yn ôl grŵp ethnig ac yn ôl grŵp blwyddyn y dysgwyr.

Ar ôl dadansoddi'r arfarniad, mae'r ysgol yn ymestyn ei darpariaeth i wella'r cyfnod pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 trwy gynnig cwrs tridiau yn ystod hanner tymor i ddysgwyr cyfnod allweddol 2 a'u rhieni. Bydd y sesiynau yn cynnwys gweithgareddau ar gael mynediad i lyfrgell yr ysgol, cyfleoedd ffitrwydd a chwaraeon,

materion iechyd a gefnogir gan feddyg a deintydd lleol, bwyta'n iach, gyda'r bwriad o asesu anghenion ac ymgysylltu â rhieni a'u hannog i ymwneud â'r ysgol.

**Deilliannau**

Mae llawer o rieni'n teimlo bod ganddynt fwy o hyder wrth siarad gydag athrawon a'u holi. Mae'r ysgol wedi cyflogi cynorthwywyr addysgu dwyieithog ychwanegol i roi cymorth a gweithredu fel cyswllt. Mae ffocws yr ysgol ar ddysgwyr o grwpiau ethnig penodol a'u rhieni wedi cynyddu presenoldeb mewn nosweithiau rhieni ar gyfer y rhieni hynny o 50% i 86%. Mae perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

# Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

## Astudiaeth achos 2: Gweithio mewn partneriaeth gyda grŵp gwirfoddol yn y gymuned

### Cyd-destun

Mae disgyblion yn Ysgol Gyfun Esgob Gore yn Abertawe yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Mae oddeutu 25% o'r disgyblion yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Gwella cyflawniad grŵp penodol o ddysgwyr sydd o dan anfantais drwy gynnig cymorth dysgu a meithrin cysylltiadau agosach â'r gymuned leol.

### Gweithredu

Nododd yr ysgol grŵp o ddisgyblion o dras leiafrifol ethnig sydd hefyd o dan anfantais ac mewn perygl o dangyflawni. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, sef sefydliad gwirfoddol sy'n cefnogi dynion ifanc o dras ethnig yn ardal Abertawe.

Mae Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn cynnig rhaglen gwaith cwrs ac adolygu ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth i gefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr.

### Deilliannau

Mae'r strategaeth hon wedi cael effaith sylweddol ar gyflawniad y dysgwyr hyn. Ar ben hynny, mae cyfraddau gwahardd disgyblion o leiafrifoedd ethnig y nesaf peth i ddim o ganlyniad i bartneriaeth gwaith yr ysgol gyda Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig.

Mae'r gwaith gyda Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig wedi cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion a'r ysgol. Mae gweithwyr y tîm ar gael i ymateb i wahanol grwpiau ethnig, gwella dealltwriaeth a goddefgarwch yn ogystal â chynyddu hunan-barch y dysgwyr. Mae'r tîm yn gweithio yn yr ysgol bob wythnos ac mae hyn yn helpu'r ysgol i feithrin cysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol a chefnogi disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn dda. Mae'r ysgol hefyd yn fwy ymwybodol o unrhyw faterion yn y gymuned leol a allai effeithio ar gyflawniad y disgyblion.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill wedi culhau yn Esgob Gore. Mae perfformiad pob disgybl wedi gwella dros yr un cyfnod ac mae pob dangosydd perfformiad allweddol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

### Astudiaeth achos 3: Effaith cydlynwyr ysgolion bro

### Cyd-destun

Caerdydd yw'r chweched awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae oddeutu 22% o'r disgyblion mewn ysgolion yno yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Mae awdurdod lleol Caerdydd wedi nodi cydlynwyr ysgolion bro ym mhob ysgol uwchradd. Cydlynu, datblygu a monitro darpariaeth yr ysgol a'r gymuned ar draws clwstwr pontio yw eu cylch gwaith.

### Gweithredu

Mae'r cydlynwyr yn cwrdd yn rheolaidd mewn tîm yn yr awdurdod lleol i gael hyfforddiant ac i rannu arfer. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn gyfle i bartneriaid allweddol o'r gymuned ac asiantaethau eraill i fynychu a hysbysu cydlynwyr am strategaethau, ymyriadau a rhaglenni a all gefnogi darpariaeth wahanol yr ysgolion bro mewn cymunedau penodol. Mae cydlynwyr yr ysgolion bro yn cynnal gweithdai ymarferol hefyd i ddatblygu medrau arwain staff uwch yr ysgolion.

Mae'r cydlynwyr wedi datblygu 'Fframwaith Datblygu Ansawdd' i alluogi ysgolion i hunanarfarnu eu darpariaeth gymunedol yn ogystal â datblygu portffolio o dystiolaeth i roi enghreifftiau o arfer effeithiol. Mae'r gwaith hwn wedi helpu cryfhau ffocws yr ysgolion ar y gymuned. Mae llawer o ysgolion wedi meithrin cysylltiadau agosach gyda sawl prosiect cymunedol fel gwaith gyda grwpiau preswylwyr a chylchoedd chwarae.

### Deilliannau

Mae ysgolion wedi gweld bod mwy o ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio yn cymryd rhan a bod llawer o ddisgyblion wedi gwella eu medrau cymdeithasol a'u hunan-barch drwy brosiectau'r ysgolion bro hyn.

Mae Caerdydd yn parhau i berfformio ar lefel well yn y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 1 a 3, na'r hyn a allai fod wedi'i ddisgwyl ar sail y ganran sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mae disgyblion yn ysgolion Caerdydd yn cyflawni'n uwch na'r perfformiad disgwyliedig ym mhob dangosydd perfformiad allweddol.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1 Pa mor dda yw ein dealltwriaeth o'r ystod o broblemau sy'n wynebu teuluoedd ein disgyblion dan anfantais?
2 Pa mor dda ydym ni'n cefnogi ac yn gwella lefelau ymgysylltiad teuluoedd? Beth mwy gallem ni ei wneud?
3 A ydym ni'n effeithiol o ran cynyddu gallu rhieni i gefnogi dysgu'u plant? A oes mwy y gallem ni ei wneud?
4 Pa strategaethau ydym ni'n eu defnyddio i ymgysylltu â'r gymuned leol?
5 Pa mor dda ydym ni wedi nodi heriau yn ein cymuned? Sut ydym ni'n ymateb i'r heriau hyn?
6 A oes gan bob un o'n staff ddealltwriaeth glir o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn ysgol fro? Sut ydym ni'n diffinio hyn?
7 Pa mor effeithiol ydym ni fel ysgol fro, fel lefel ein hymglymiad â grwpiau cymunedol, rhannu cyfleusterau gyda'r gymuned a'r ffordd y cydweithiwn ar brosiectau cymunedol?
8 Sut mae ein gwaith fel ysgol fro yn effeithio ar ddisgyblion dan anfantais?

**Ble mae'r cryfderau yn ein dull o ymgysylltu â rhieni disgyblion dan anfantais a'r gymuned?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

## Grŵp 4: Gweithio gydag ystod ehangach o bartneriaid

**Astudiaeth achos: Mae Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn Abertawe wedi llwyddo i wella presenoldeb trwy ddefnyddio ystod o ddulliau gyda phartneriaid.**

**Cyd-destun yr ysgol**

Ysgol gyfun gymysg 11-16 ar ochr ddwyreiniol Abertawe yw Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed. Mae'r ysgol yn yr unfed ward ar ddeg mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 73% o ddysgwyr yn byw mewn 30% o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 664 o ddysgwyr ar y gofrestr, ac mae 36% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer fawr o ddysgwyr yn trosglwyddo i mewn ac allan o'r ysgol.

**Strategaeth**

Mae gwella presenoldeb wedi bod yn flaenoriaeth strategol yn y cynllun datblygu ysgol ers cael ei nodi'n argymhelliad arolygu yn 2005. Ar yr adeg honno, barnwyd bod presenoldeb yn anfoddhaol. Argymhellodd y tîm arolygu hefyd y dylai'r ysgol arfarnu, a bu gwelliant yn narpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 i ddysgwyr gallu cymedrol ac is. Roedd yr ysgol yn ystyried bod yr argymhellion hyn yn gydberthynol.

Mae camau strategol allweddol i wella presenoldeb wedi cynnwys:

- datblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i anghenion yng nghyfnod allweddol 4;
- trawsnewid cwricwlwm cyfnod allweddol 3 trwy newid cynlluniau gwaith sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm medrau;
- cymell Blwyddyn 9 yn nhymor yr haf gyda rhaglen o fedrau allweddol achrededig; a
- chraffu ar ystod o faterion presenoldeb i nodi blaenoriaethau a sefydlu meini prawf llwyddo i fesur gwelliant.

Sefydlodd yr ysgol grŵp ffocws ar bresenoldeb gyda chenhadaeth i:

- leihau absenoldebau anawdurdodedig;
- diffinio'r gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor;
- lleihau triwantiaeth a gwella prydlondeb; a
- rheoli presenoldeb trwy gynllun parhad busnes.

**Gweithredu**

Presenoldeb yw'r eitem gyntaf ar yr agenda yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol, y tîm arweinyddiaeth, yr uwch dîm bugeiliol a'r tîm bugeiliol. I wella presenoldeb, datblygodd yr ysgol nifer o ddulliau, sef:

- ystod o weithio amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar bresenoldeb, yn cynnwys y prosiect 'So To Do', sef Prosiect Menter Ieuenctid, gwasanaeth seicoleg addysg,

cymorth ymddygiad, Ymgysylltu â Dysgwyr yn Abertawe a'r Gwasanaeth Ymgynghorol ar gyfer Ieithoedd Ethnig Lleiafrifol;
- ymestynnwyd tîm o swyddogion cymorth bugeiliol (SCB), a sefydlwyd i ddechrau trwy gyllid Rhagori, ac fe gafodd ei ariannu'n ddiweddarach gan gyllideb yr ysgol. Mae swyddogion cymorth bugeiliol a'r Swyddog Lles Addysg (SLlA) yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Mae tiwtoriaid dosbarth yn cefnogi gwaith y swyddogion cymorth bugeiliol ar bresenoldeb. Mae'r swyddogion cymorth bugeiliol a'r uwch dîm bugeiliol yn cynnwys cyfarfodydd cymorth sydd wedi'u hanelu at rieni targedig;
- ailstrwythurwyd y tîm bugeiliol a gwnaed newidiadau i gyfrifoldebau addysgu a dysgu ac i ddefnyddio staff cysylltiol;
- bu'r ysgol yn arbrofi â system negeseuon testun i fonitro presenoldeb, ac yn dilyn adborth cadarnhaol gan rieni, datblygwyd hyn ar gyfer yr ysgol gyfan;
- cafodd cyllid ENGAGE (cynllun cyllid Ewropeaidd, sy'n cael ei redeg trwy Lywodraeth Cymru) ei dargedu at bresenoldeb dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yng nghyfnod allweddol 4;
- bu grŵp ffocws ar bresenoldeb yn cyfarfod bob mis, wedi'i gadeirio gan y pennaeth;
- buddsoddodd yr ysgol mewn hyfforddiant staff i wella cysondeb cysylltu presenoldeb a chynnydd mewn adborth i ddysgwyr yn ystod yr adolygiadau academaidd ddwywaith y flwyddyn, i rieni mewn nosweithiau rhieni ac wrth gwblhau adroddiadau dysgwyr; a
- defnyddiodd yr ysgol arfer dda ei hysgolion cynradd partner o ran lles a chymorth i ddysgwyr. Datblygodd ddarpariaeth gofleidiol, yn cynnwys clwb brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol, a gynlluniwyd i ddatblygu medrau personol a dysgu dysgwyr.

Caiff dysgwyr eu gwobrwyo am bresenoldeb da hefyd trwy:

- wobrau pwysig mewn Noswaith Wobrwyo Flynyddol;
- llythyrau tymhorol at rieni i ddysgwyr y mae eu presenoldeb yn 95%+; a
- gwobrau arbennig am bresenoldeb 100% am y flwyddyn gyfan.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod staff yn monitro ac yn arfarnu strategaethau presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfarfodydd monitro wythnosol penaethiaid ysgolion is, canol, uwch;
- cyfarfod swyddogion cymorth bugeiliol cyn cyfarfod y swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg;
- cyfarfodydd monitro wythnosol swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg; a
- chyfarfodydd monitro misol y grŵp ffocws ar bresenoldeb i nodi materion o archwilio data yn ôl grŵp blwyddyn, rhyw a grwpiau o ddysgwyr (ethnig lleiafrifol, anghenion addysgol arbennig, plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim).

**Deilliannau**

Mae deilliannau yn cynnwys:

- presenoldeb gwell ym mhob grŵp blwyddyn o flwyddyn i flwyddyn: dros y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb cyffredinol wedi cynyddu o 83.4% i 90.9%;
- presenoldeb gwell ar draws grwpiau o ddysgwyr. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb Blwyddyn 11 wedi cynyddu o 62% i 90.6%;
- gostyngiad yng nghanran yr absenoldebau anawdurdodedig yn ôl grŵp blwyddyn ac yn gyffredinol. At ei gilydd, mae canran yr absenoldebau anawdurdodedig wedi gostwng o 15.8% i 0.8% dros y pum mlynedd diwethaf;
- dilyniant cynyddol i'r sector ôl-16 o ganlyniad i bresenoldeb ac ymgysylltu gwell;
- gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn y ganran sy'n gadael heb gymwysterau. Bu gostyngiad cyson yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael heb unrhyw gymhwyster, o 7% yn 2005 i 0% yn 2011;
- perthnasoedd agosach gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr unigol trwy fonitro presenoldeb mewn modd sensitif; a
- lles gwell dysgwyr yn sgil ymgysylltu cyson a pharhaus trwy bresenoldeb gwell.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella o 45% i 63%, ac yng nghyfnod allweddol 4 o 23% i 37%. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau yng Nghefn Hengoed wedi bod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion.

## Grŵp 4: Gweithio gydag ystod ehangach o bartneriaid

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1 A ydym ni wedi nodi uwch aelod o staff sy'n cydlynu ac yn datblygu gwaith yr ysgol gyda phartneriaid allanol?
2 A ydym ni'n wybodus ac yn gwybod llawer am rôl a swyddogaeth gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau a gwasanaethau eraill?
3 A ydym ni'n mynd ati'n weithredol i chwilio am asiantaethau a gwasanaethau a fydd yn cefnogi'r heriau a wynebir gan ein disgyblion dan anfantais yn fwyaf effeithiol?
4 Sut gallem ni weithio'n fwy effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid? Er enghraifft, a allem ni greu 'canolfan' o fewn yr ysgol ar gyfer ystod o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs), y gwasanaeth iechyd a Gyrfa Cymru ?
5 Pa wybodaeth fyddwn ni'n ei rhannu'n rheolaidd gydag asiantaethau a gwasanaethau allanol?
6 A yw rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid allanol yn sicrhau bod strategaethau ymyrryd partneriaid yn gyson â dulliau'r ysgol?
7 Pa mor effeithiol yw ein gwaith gyda'r awdurdod lleol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu ar gyfer ein disgyblion dan anfantais?

**Ble mae'r cryfderau yn ein gwaith gydag ystod o bartneriaid?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

# Grŵp 5:  Arweinyddiaeth a rheolaeth disgyblion dan anfantais

## Astudiaeth achos 1:  Mae Ysgol Gyfun Treorci yn Rhondda Cynon Taf wedi canolbwyntio ar 'Gau'r Bwlch'

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Ysgol Gyfun Treorci yn ysgol gyfun gymysg fawr i ddisgyblion 11-18 oed yn sir Rhondda Cynon Taf.  Mae 1,600 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 354 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ysgolion cynradd lleol, er yn y tair blynedd diwethaf, mae dros 40 o ddisgyblion y flwyddyn wedi ymuno â'r ysgol ar ôl mynychu ysgolion cynradd y tu allan i'r dalgylch traddodiadol.

Daw derbyniad yr ysgol o gefndir cymdeithasol amrywiol ac mae'n cynrychioli'r ystod gallu lawn.  Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 24%, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd.  Mae gallu academaidd adeg derbyn islaw cyfartaleddau cenedlaethol.  Mae 16% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.  Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, mae tua 9% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl.

### Strategaeth

O ganlyniad i gefndir cymdeithasol amrywiol disgyblion yr ysgol a lefelau tlodi uwch na'r cyfartaledd, bu'n angenrheidiol darparu system gymorth ar gyfer disgyblion wedi'i theilwra yn ôl anghenion yr unigolyn.  Roedd hyn yn golygu datblygu dull cyfannol hyblyg sy'n galluogi mynd i'r afael ag anghenion pob disgybl unigol, yn gymdeithasol ac academaidd, er mwyn ei alluogi/galluogi i gyflawni potensial.  Ar yr un pryd, mae pwyslais cadarn ar gynhyrchu disgyblion llythrennog a rhifog.

### Gweithredu

Mae gan yr ysgol ddull cyfannol a hyblyg o ddarparu Gofal a Lles Bugeiliol ar sail anghenion unigol.  Mae'r dull yn cynnwys strategaethau amrywiol sy'n mynd i'r afael ag anghenion datblygiadol cymdeithasol ac academaidd y disgyblion yn yr ysgol.  Y flaenoriaeth yw sicrhau bod disgyblion sy'n gadael Ysgol Gyfun Treorci yn llythrennog a rhifog.  Mae'r strategaethau a ddefnyddir wedi'u rhestru isod:

- Pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn gysylltiedig â gofal bugeiliol bob dydd
- Pennaeth Dysgu a Medrau o ansawdd uchel ym Mhob Grŵp Blwyddyn, gan gynnwys tri yn y Chweched Dosbarth
- Swyddogion Arwain Cymorth Dysgu ym mhob Grŵp Blwyddyn, gan gynnwys yn y Chweched Dosbarth
- Swyddog Arwain Cymorth Dysgu dynodedig ar gyfer Blwyddyn 7 a Blwyddyn 11
- Anogwyr dysgu ar gyfer disgyblion â phroblemau Medrau Sylfaenol, a gyflogir gan yr ysgol
- Swyddog Cefnogi Presenoldeb a gyflogir gan yr ysgol

- Ymyriadau i gynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed (Grŵp Anogaeth/Grŵp Sgiliau Bywyd)
- Ymyriadau i gynorthwyo'r rhai sy'n cael PYDd (Prydau Ysgol am Ddim) fel: mentora gan y Pennaeth Dysgu a Medrau; Prosiectau pwrpasol i godi dyheadau/hunan-barch a hunanhyder (menter Gemau Olympaidd/Prosiect Llythrennedd 'Dragonfly')
- Arweiniad ar bwyntiau trosglwyddo allweddol
- Partneriaeth gydag asiantaethau amlddisgyblaethol
- Partneriaeth gyda rhieni
- Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDPau) mewnol ac allanol ar gyfer lles (e.e. CDPau Presenoldeb Clwstwr, Cau'r Bwlch)
- Darllen mewn parau y chweched dosbarth
- System gyfeillio y chweched dosbarth
- Mentora STEM y chweched dosbarth
- Ffeiliau cynnydd llwybrau dysgu ar gyfer pob grŵp blwyddyn
- Achredu / cydnabod rhagoriaeth gan dros 10 o gyrff dyfarnu

Lefel gyson y mentora a'r arfarnu sy'n seiliedig ar ddeilliannau mesuradwy ar gyfer y disgyblion yw'r allwedd i effeithiolrwydd bob un o'r strategaethau hyn. Mae lefel uchel o atebolrwydd a pherchenogaeth gan y staff felly. Caiff y deilliannau eu monitro ar y lefel ymyrraeth a hefyd ar lefel ysgol gyfan. Mae'r arfarniad hwn wedyn yn galluogi'r ysgol i dargedu ymyriadau effeithiol a gwella adnoddau/cyllid yn y meysydd hyn, ac mae'n galluogi cynllunio strategol effeithiol.

Mae archwiliad o ymyriadau yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion sy'n cael PYDd yn gysylltiedig â rhyw fath o gymorth neu ymyrraeth. Caiff cynnydd y disgyblion ei fonitro wedyn, yn feintiol ac ansoddol, gan ddefnyddio data fel canlyniadau cynnydd, cyfeiriadau ac adborth staff ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

**Deilliannau**

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn lleihau'r bwlch rhwng disgyblion sy'n cael PYDd a'u cyfoedion nad ydynt yn cael PYDd. Yn CA4, mae canran y disgyblion PYDd sy'n cyflawni Lefel 2 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf o 60% i 88%. Mae'r duedd hon o wella i'w gweld yn CA3 hefyd, lle mae cyfran y disgyblion sy'n cael PYDd a gyflawnodd y DPC wedi cynnydd o 41% i 50% dros yr un cyfnod.

## Grŵp 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 2: Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yng Ngwynedd yn sicrhau disgwyliadau uchel gan bob disgybl

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr rhwng 11 a 18 mlwydd oed. Mae ganddi 360 o ddisgyblion, gan gynnwys 50 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Daw mwyafrif y disgyblion o ardal sy'n ddifreintiedig yn economaidd neu'n gymdeithasol. Mae bron i 18% o'r disgyblion yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar sefydlu ethos cynhwysol arbennig gan sicrhau cyfle cyfartal a llwyddiant i bob disgybl. Cyfunir y ffocws hwn â phwyslais ar ddarparu addysg o'r ansawdd gorau er mwyn gwella safonau a sicrhau bod pob disgybl yn meddu ar y medrau pwysig ar gyfer bywyd a gwaith.

### Arfarnu

Mae'r awyrgylch cartrefol a chynhwysol yn nodwedd amlwg a llwyddiannus iawn yn yr ysgol. Mae'r staff yn gwybod pwysigrwydd bod â disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion a chynlluniant weithgareddau hynod ddiddorol sy'n hyrwyddo safonau uchel. Hefyd, ceir pwyslais cryf ar gefnogi pob disgybl a sicrhau bod gan bawb fynediad a chyfle cyfartal i gyfranogi ym mhob gweithgaredd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Mae'r ysgol yn defnyddio data asesiadau yn dda er mwyn cynorthwyo a gwella dysgu'r disgyblion. Caiff perfformiad disgyblion ei olrhain yn effeithiol a'i fonitro'n rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Bu arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ffactor allweddol wrth ddatblygu a chynnal pwyslais parhaus a chadarn ar wella safonau ar gyfer pob disgybl, ac mae hyn wedi treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

### Deilliannau

Dros gyfnod o chwe blynedd o 2007 i 2012, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim, o ran y prif ddangosyddion, yn llai na'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg yn y teulu ac ar gyfer Cymru gyfan.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyfunol wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad y disgyblion wedi golygu bod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran lefelau hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ym mhob un o'r pynciau craidd unigol, mae perfformiad disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig dros y

tair blynedd diwethaf wedi gwella, ac mae perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn ei theulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012, mae perfformiad disgyblion wedi bod yn rhagorol ac yn y chwartel uchaf o ran pob un o'r prif ddangosyddion er 2010-2011. Er 2010-2011, mae canlyniadau wedi gwella ar gyfer trothwy lefel 1, trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, y dangosydd pwnc craidd a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio, ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran pob un o'r dangosyddion. Mae cynnydd disgyblion yn llawer gwell na'r disgwyl o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4, ac mae'n rhagorol.

Er 2009-2010, nid oes unrhyw ddisgyblion wedi methu ag ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn ar ôl Blwyddyn 11.

## Grŵp 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth disgyblion dan anfantais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1 Pa mor dda ydym ni'n arwain, yn goruchwylio ac yn cydlynu gwaith ar gyfer disgyblion dan anfantais?
2 A oes gennym gynlluniau penodol i godi dyheadau disgyblion dan anfantais? A yw cynlluniau'n cynnwys targedau â ffocws y gellir eu mesur ar gyfer cyflawniad a phontio, yn ogystal â chynigion gweithredol manwl?
3 A ydym yn canolbwyntio ein cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion ar ddulliau sy'n targedu anghenion disgyblion dan anfantais yn benodol?
4 Pa mor dda ydym ni'n adeiladu ar y cysylltiadau sydd gennym ag ysgolion eraill i rannu a datblygu strategaethau i fynd i'r afael ag anfantais?
5 A ydym ni'n gweithio'n effeithiol fel clwstwr i wneud y defnydd gorau o gyllid grant a chynyddu gwaith asiantaeth i'r eithaf yn ein hysgol?
6 Ym mha ffyrdd ydym ni'n datblygu ein gweithlu i fynd i'r afael â materion tlodi ac anfantais?
7 A ydym ni'n wybodus ac yn gwybod llawer am rôl a swyddogaeth gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau a gwasanaethau eraill, ac a ydym ni'n goruchwylio cydlynu gwaith partneriaeth yn effeithiol?
8 A ydym ni'n defnyddio staff yr ysgol a staff amlasiantaeth yn effeithiol ac yn sicrhau ansawdd gwaith yr holl staff?
9 Pa mor dda ydym ni'n adolygu ac yn arfarnu gwaith gwasanaethau a'u heffaith ar ein disgyblion sydd o dan anfantais?
10 A ydym ni'n arfarnu effaith strategaethau a ddefnyddiwyd i wella cyflawniad disgyblion dan anfantais yn ddigon da i ddangos a fuont yn llwyddiannus?

**Ble mae'r cryfderau yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar ein disgyblion dan anfantais?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

## Rhan 4: Sut gallwn ni fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn fwy effeithiol? Cynllunio gweithredu ar gyfer gwella

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- myfyrio ar eu darpariaeth eu hunain a darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais; ac
- ystyried tystiolaeth ymchwil ar wella dysgu a chyrhaeddiad.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- nodi o leiaf un newid i'w harfer er lles disgyblion dan anfantais; a
- chynnig camau gweithredu ar gyfer cynlluniau gwella tîm a chynllun gwella'r ysgol.

**Amser:** Tua 50 munud

**Gwaith paratoi gan yr hyfforddwr ysgol:**

- darllenwch drwy holl ddeunyddiau'r hyfforddiant fel eich bod yn gyfarwydd â nhw;
- gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd ag arweiniad Llywodraeth Cymru ar y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion 2013-2015;
- llwythwch y sleidiau PowerPoint ar gyfer y sesiynau llawn;
- llungopïwch y cynlluniau gweithredu a'r cynigion ar gyfer gwella i'r cyfranogwyr; a
- llungopïwch dudalennau 5-7 o Strategaethau i Wella Dysgu ym Mhecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton.

**Adnoddau:**

- Bwrdd gwyn a chyfrifiadur
- Cardiau post gwag
- Deunyddiau wedi'u llungopïo
- Strategaethau i Wella Dysgu Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton
- Arweiniad ar y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion 2013-2015

## Crynodeb o Ran 1, Rhan 2 a Rhan 3

Os nad yw Rhan 4 yr hyfforddiant yn dilyn ymlaen yn uniongyrchol o Ran 3, dylech benderfynu sut byddwch chi'n crynhoi'r hyfforddiant cynharach gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn y pecyn hwn.

## Cyflwyniad

Mae'r sesiwn yn rhoi cyfle i chi arwain cyfranogwyr wrth fyfyrio ar yr hyfforddiant ac ystyried sut y gallant ymgorffori newidiadau yn eu harfer. Mae'r gweithgaredd yn gofyn iddynt fyfyrio ar y meysydd yr ymdriniwyd â nhw yn yr hyfforddiant er mwyn nodi camau gweithredu i helpu gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion sydd o dan anfantais. Dylent ystyried sut y gallent lywio eu harfer eu hunain yn ogystal â'r blaenoriaethau mewn cynlluniau gweithredu adrannau a chynllun gwella'r ysgol.

Dechreuwch y sesiwn drwy esbonio bod y rhan hon o'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar fyfyrio ar y materion a godwyd gan y gweithgareddau a'r drafodaeth er mwyn nodi ac ymgorffori newidiadau yn eu harfer. Dangoswch **Sleid Powerpoint 1** sy'n amlinellu amcanion y sesiwn.

Atgoffwch y cyfranogwyr bod yr hyfforddiant a'r gweithgareddau, hyd yma, wedi'u helpu nodi'r prif gwestiynau, sef:

**1 Pa mor dda mae ein disgyblion dan anfantais yn gwneud?**
**2 Ble mae angen gwelliannau?**

Yn y rhan olaf hon o'r hyfforddiant, mae'r ffocws ar:

**3 Beth sy'n rhaid i ni wneud i wella.**

Dywedwch wrth y cyfranogwyr mai'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yw prif gyfrwng Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol i ysgolion ar gyfer y flaenoriaeth genedlaethol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Dylai buddsoddiad a wneir drwy'r grantiau hyn gael effaith barhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

Dosbarthwch y **daflen** o Becyn Offer Ymddiriedolaeth Sutton ar gyfer ysgolion. Esboniwch fod y ddogfen hon wedi'i llunio i helpu ysgolion benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o wario'r grantiau i helpu gwella cyrhaeddiad disgyblion sydd o dan anfantais. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos bod cysylltiadau rhwng gwariant a deilliannau ar gyfer disgyblion yn gymhleth, ac yn aneglur yn aml. Trwy grynhoi tystiolaeth ymchwil ar wella dysgu a chyrhaeddiad, nod yr Ymddiriedolaeth yw helpu ysgolion i wneud dewisiadau mwy gwybodus ynglŷn â sut i gynorthwyo eu disgyblion. Ym mhob maes, mae'r ddogfen yn nodi gwahanol ddulliau o wella dysgu, cryfder yr ymchwil bresennol ac amcangyfrif o gostau mabwysiadu'r dulliau.

Dosbarthwch y cardiau post a'r cynlluniau gweithredu. Gofynnwch i'r cyfranogwyr ysgrifennu eu henw ar y cerdyn post a chofnodi o leiaf un gwelliant y gallant ei wneud i'w harfer o fewn cyfnod o chwe mis. Dylent roi'r rhain yn ôl i chi ar ddiwedd yr hyfforddiant. Dylent gwblhau'r cynllun gweithredu personol, ac efallai y byddant am storio hwn yn eu portffolio datblygiad staff.

Gofynnwch i'r grwpiau enwebu cofnodwr fel bod modd nodi cynigion gweithredu ar gyfer cynlluniau gweithredu adrannau a chynllun gwella'r ysgol.

**Gweithgaredd: Nodi arfer effeithiol** **30 munud**

Gofynnwch i'r cyfranogwyr fyfyrio ar y meysydd i'w datblygu a nodwyd yn y gweithgaredd diwethaf. Dylent ystyried sut y gallant wneud newidiadau i'w harfer eu hunain er mwyn helpu mynd i'r afael â'r materion hyn, gan nodi'r arweiniad o daflen Ymddiriedolaeth Sutton. Dylent ddewis o leiaf un newid y gallent ei wneud o fewn cyfnod o chwe mis, a'i ysgrifennu ar y cerdyn post gyda'u henw. Dylent gwblhau'r cynllun gweithredu personol yn ogystal â chynnig camau gweithredu i'w cynnwys mewn cynlluniau gweithredu adrannau ac yng nghynllun gwella'r ysgol.

Sesiwn lawn – yn yr adborth, rhannwch ddeilliannau'r sesiwn. Dylech gasglu'r cardiau post â'u dychwelyd i'r staff ymhen chwe mis. Dylech hefyd drefnu i gasglu'r wybodaeth gan y grwpiau a lledaenu hon yn unol â'r prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn eich ysgol.

## Sleid Powerpoint 1

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- myfyrio ar eu darpariaeth eu hunain a darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais; ac
- ystyried tystiolaeth ymchwil ar wella dysgu a chyrhaeddiad.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- nodi o leiaf un newid i'w harfer er lles disgyblion dan anfantais; a
- chynnig camau gweithredu ar gyfer cynlluniau gwella adrannau a chynllun gwella'r ysgol.

## Cynllun gweithredu personol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion dan anfantais

| Rhif | Cam Gweithredu | Cyfrifol | Dyddiad adolygu |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | |

## CYNLLUNIO GWEITHREDU AR GYFER GWELLA
## Awgrymiadau ar gyfer cynlluniau gweithredu adrannau

## Awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol

## Cydnabyddiaethau

Bu Estyn yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd i gynhyrchu'r deunyddiau hyn. Hoffem ddiolch i'r ysgolion canlynol am eu cyfraniadau:

Ysgol Gynradd Alexandra, Wrecsam
Ysgol Uwchradd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Uwchradd Dyffryn, Casnewydd
Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Caerdydd
Ysgol Gynradd Pillgwenlli, Casnewydd

# Adran 2 – deunyddiau ar gyfer cyfranogwyr

**Papur briffio ar dlodi ac anfantais**

Mae dylanwad a chyrhaeddiad tlodi yn ymestyn ymhell y tu hwnt i effaith incwm yn unig. Gall chwarae rhan yn hyder ac uchelgais dysgwyr, a'u cyflogadwyedd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae tlodi'n effeithio ar un o bob tri o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn gyfystyr â rhyw 200,000 o blant yng Nghymru, y gallai fod ganddynt lai o ddewisiadau a llai o gyfleoedd bywyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ystod o fentrau i geisio gwella cynnydd addysgol disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae'r mentrau hyn a'r cynllun yn cydnabod fod gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae i helpu gwella'r deilliannau i blant o gefndiroedd o amddifadedd, yn annibynnol ar, ac mewn partneriaeth â mentrau eraill i fynd i'r afael ag achosion creiddiol amddifadedd.

Dengys ymchwil mai anfantais economaidd-gymdeithasol yw'r rhwystr unigol mwyaf rhag cyflawni mewn addysg. Mae'r cysylltiad rhwng anfantais a thangyflawniad addysgol yn un cryf. Fodd bynnag, heblaw tlodi, mae ffactorau eraill hefyd sy'n effeithio ar ddeilliannau asesiadau ysgol a chanlyniadau arholiadau. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys dyheadau isel ar gyfer y disgyblion hyn a diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng disgyblion dan anfantais a disgyblion sy'n tangyflawni.

Mae hawl i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn cael ei ddefnyddio fel mesur o amodau economaidd-gymdeithasol poblogaeth ysgol. Yng Nghymru, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn is na'u cyfoedion heb yr hawl honno ym mhob cyfnod allweddol ac o ran bob mesur perfformiad. Mae'r bwlch cyrhaeddiad hwn i'w weld yn amlwg erbyn saith mlwydd oed, a bydd yn ehangu'n raddol. Erbyn 16 oed, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ryw hanner mor debygol o gael pum gradd A*-C mewn TGAU na disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn golygu bod plentyn wedi'i dynghedu i dangyflawni. Gall disgyblion o gefndiroedd cymharol dlawd gyflawni ar y lefel uchaf ac maent yn cyflawni ar y lefel uchaf, a gall ysgolion sy'n gwasanaethu cymdogaethau tlawd berfformio'n well nag ysgolion â dalgylchoedd mwy cefnog.

Am flynyddoedd lawer, gwella cyflawniad disgyblion dan anfantais fu un o'r heriau mawr i ysgolion yng Nghymru. Nid oes yr un esboniad unigol pam nad yw dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais yn perfformio gystal â'u cyfoedion oherwydd ystod o ffactorau cymhleth y mae cydberthynas rhyngddynt yn aml. Golyga hyn nad oes yr un ateb hawdd. Er bod Strategaeth Tlodi Plant gan Gymru, nid oes rhaglen genedlaethol i ysgolion ei dilyn ar gyfer mynd i'r afael â materion tlodi ac anfantais. Fodd bynnag, caiff ysgolion eu cynorthwyo drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sef prif gyfrwng Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y flaenoriaeth genedlaethol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Caiff ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig eu hannog yn gryf i weithio gyda'u Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn lleol, a gyda'r ddarpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i gynorthwyo teuluoedd yn eu cymunedau. Mae gan bob ysgol ran allweddol i fynd i'r afael ag anfantais a gallant wneud gwahaniaeth. Yn benodol, mae gan ysgolion ddylanwad pwysig a phwerus ar wella cyrhaeddiad a dyheadau, a gallant ddarparu ysgol cyfleoedd bwerus i bobl ifanc. Dywed gwaith arolygu ac ymchwil wrthym mai 'ansawdd' ein hystafelloedd dosbarth a'n hysgolion sy'n bwysig i bob disgybl, ac i ddisgyblion dan anfantais yn arbennig.

Mae'r ysgolion sy'n gwneud gwahaniaeth i gyflawniad disgyblion dan anfantais yn gwneud yr hyn y mae bob ysgol lwyddiannus yn ei wneud i sicrhau cyflawniad disgyblion.  Yn ychwanegol, maent hefyd yn creu ethos hynod gadarnhaol sy'n galluogi disgyblion dan anfantais i gyflawni'n dda.  Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio strategaethau i fynd i'r afael yn benodol â ffactorau sy'n rhoi disgyblion dan anfantais.  Hefyd, drwy helpu disgyblion dan anfantais, mae'r holl ddisgyblion mewn ysgol yn gwneud yn well.  Gall ymgysylltiad effeithiol gan deuluoedd a'r gymuned gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i bawb, ond yn enwedig i ddisgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig.  Mae ysgolion llwyddiannus yn cydnabod nad yw'n ddigon i wasanaethu pob disgybl yn gyfartal - mae angen ffocws penodol ar y disgyblion a'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu magu mewn tlodi.  Mae ysgolion yr ymddengys eu bod yn mynd yn groes i'r duedd, yn mynd i'r afael ag effaith anfantais gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau ac ymyriadau sy'n eu helpu i fynd i'r afael â set gymhleth o broblemau.

## Rhan 1: Beth rydym ni'n ei wybod am ddisgyblion dan anfantais?

**<u>Sleid Powerpoint 1</u>**

**Nodau cyffredinol yr hyfforddiant:**

Nodau cyffredinol yr hyfforddiant yw hyrwyddo arfer orau wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn ogystal â chynorthwyo ysgolion i ddatblygu dull ysgol-gyfan sy'n strwythuredig, yn gydlynus ac yn cynnwys ffocws er mwyn gwella cyflawniad disgyblion dan anfantais.

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- ystyried nodweddion ac effaith tlodi ac anfantais ar ddisgyblion; a
- myfyrio ar sut yr effeithir ar ddisgyblion yn yr ysgol gan anfantais.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, dylai cyfranogwyr:

- fod yn deall sut mae tlodi ac anfantais yn effeithio ar gyflawniadau a chynnydd eu disgyblion; a
- gwybod beth yw blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol.

**<u>Sleid Powerpoint 2</u>**

**Sut dylem ni ddiffinio disgyblion dan anfantais?**

Mae'n bwysig cael ystod eang o feini prawf ar gyfer nodi disgyblion dan anfantais. Mae disgyblion dan anfantais yn cynnwys:


- y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- y rhai o grwpiau lleiafrifol;
- y rhai mewn teuluoedd ar incwm isel;
- plant sy'n derbyn gofal; a
- phlant teithwyr.

## Sleid Powerpoint 3

**Canran yr ysgol o ddisgyblion oed ysgol statudol sydd â hawl i gael PYDd – cyfartaledd 3 blynedd**

*Dylech fewnosod siart 1.2b o set ddata graidd Cymru Gyfan yr ysgol. Mae'r siart canlynol yn dangos enghraifft o'r tabl hwn.*

**1.2b** % y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn ôl blwyddyn - cyfartaledd 3-blynedd




## Sleid Powerpoint 4

Mae astudiaethau ar dlodi plant yn dweud y canlynol wrthym:

- bod y bwlch rhwng disgyblion o gefndiroedd cyfoethocach a thlotach yn ehangu'n arbennig o gyflym yn ystod yr ysgol gynradd;
- bod disgyblion dan anfantais mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol o fod heb uchelgais a hunan-barch, ac o fod â phroblemau ymddygiadol ac anhawster yn ymwneud â'u cyfoedion;
- bod bechgyn mor ifanc â naw mlwydd oed mewn ysgolion difreintiedig yn dadrithio gyda'r ysgol ac yn dechrau ymddieithrio; ac
- mai mynediad cyfyngedig sydd gan ddisgyblion mewn ysgolion difreintiedig at weithgareddau cerddoriaeth, celf a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol y bydd disgyblion mewn ysgolion breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol yn gyffredinol.

**Sleid Powerpoint 5**

Rydym hefyd yn gwybod bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig;

- yn fwy tebygol o fod â chofnod presenoldeb gwael;
- yn gweld bod y cwricwlwm yn amherthnasol yn aml;
- yn llai tebygol o dderbyn diwylliant yr ysgol;
- yn fwy tebygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol;
- â rhieni sy'n llai tebygol o fod yn rhan o addysg eu plant;
- â rhieni sy'n fwy tebygol o fod â chanfyddiad a phrofiad negyddol o'r ysgol ac addysg;
- yn llai iach;
- yn fwy tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant;
- yn fwy tebygol o gael plentyn yn ystod eu harddegau; ac
- yn achos bechgyn gwyn y dosbarth gweithiol, yn llai tebygol o gyflawni'u potensial nag unrhyw grŵp arall.

**Sleid Powerpoint 6**

Mae ymchwil yn dweud wrthym hefyd fod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o wneud yn dda mewn TGAU os yw'r unigolyn ifanc:

- yn credu yn …;
- o'r farn fod …;
- yn gweld yr ysgol yn …;
- o'r farn ei bod yn debygol y bydd …;
- yn osgoi …; a
- nid yw'n dioddef ….

**Sleid Powerpoint 6 (wedi'i gwblhau)**

Mae ymchwil yn dweud wrthym hefyd fod disgyblion dan anfantais yn fwy tebygol o wneud yn dda mewn TGAU os yw'r unigolyn ifanc:

- yn credu yn ei allu/gallu ei hun yn yr ysgol;
- o'r farn fod digwyddiadau yn deillio yn bennaf o'i ymddygiad/hymddygiad a'i weithredoedd/gweithredoedd ei hun;
- yn gweld yr ysgol yn werthfawr;
- o'r farn ei bod yn debygol y bydd yn gwneud cais i fynd i addysg uwch, ac yn mynd i mewn i addysg uwch;
- yn osgoi ymddygiad peryglus fel ysmygu'n aml, defnyddio canabis, ymddygiad gwrthgymdeithasol, triwantiaeth, atal a gwahardd; ac
- nid yw'n dioddef bwlio.

**Sleid Powerpoint 7**

Mae blaenoriaethau presennol yr ysgol ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais yn cynnwys:

- …
- …
- …
- …

*(Dylech gwblhau'r sleid hon gyda gwybodaeth a gymerwyd o gynllun gwella'r ysgol.)*

# Rhan 2: Pa mor dda y mae ein disgyblion dan anfantais yn cyflawni?

**<u>Sleid Powerpoint 1</u>**

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- archwilio ystod o ddata cenedlaethol a lleol ar berfformiad disgyblion dan anfantais; ac
- ystyried perfformiad disgyblion dan anfantais yn yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, dylai cyfranogwyr:

- wybod am berfformiad disgyblion dan anfantais yng Nghymru; a
- deall pa mor dda y mae disgyblion dan anfantais yn cyflawni yn yr ysgol.

**<u>Sleid Powerpoint 2</u>**

**Canlyniadau allweddol ar gyfer disgyblion dan anfantais yng Nghymru**

- At ei gilydd, mae perfformiad disgyblion PYDd a disgyblion nad ydynt yn cael PYDd wedi gwella er 2005. Gan edrych ar y dangosydd pwnc craidd, mae'r bwlch mewn perfformiad wedi lleihau'n gyffredinol dros y chwe blynedd diwethaf yng Nghyfnod Allweddol 3.

- Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael PYDd yn is na'u cyfoedion heb yr hawl i gael PYDd ym mhob cyfnod allweddol ac o ran bob mesur perfformiad. Mae'r bwlch mewn perfformiad yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

- Yng Nghyfnod Allweddol 3, ar gyfer pynciau unigol, mae'r bwlch mwyaf ym Mathemateg (23.1 pwynt canran) er mai yn Saesneg y bu'r bwlch mwyaf yn hanesyddol. Mewn Cymraeg y mae'r bwlch lleiaf (17.8 pwynt canran).


- Yng Nghyfnod Allweddol 4, ar gyfer y Dangosydd Pwnc Craidd y mae'r bwlch mwyaf (32.1 pwynt canran), er mai ar drothwy L2 y mae'r bwlch mwyaf wedi bod yn hanesyddol. Ar drothwy L1 y mae'r bwlch lleiaf (10.6 pwynt canran).

- Mae 'bylchau' mewn perfformiad rhwng grwpiau o ddysgwyr, fel plant sy'n derbyn gofal, o gymharu â phob disgybl: mae 10% yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn yr ysgol uwchradd o gymharu â 50% ar gyfer pob disgybl.

**Sleid Powerpoint 3**

## Canlyniadau allweddol ar gyfer disgyblion dan anfantais yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3


### Gwahaniaeth rhwng perfformiad DPC disgyblion PYDd a'r rhai nad ydynt yn cael PYDd yng nghyfnod allweddol 3, 2008-2013



## Sleid Powerpoint 4

**Canlyniadau allweddol ar gyfer disgyblion dan anfantais yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 4**

**Gwahaniaeth rhwng perfformiad o ran trothwy Lefel 2 yn cynnwys TGAU A*-C yn Saesneg / Cymraeg a mathemateg disgyblion PYDd a'r rhai nad ydynt yn cael PYDd yng nghyfnod allweddol 4, 2008-2013**




## Sleid Powerpoint 5

## Cyfnod allweddol 3 – data perfformiad ysgolion

*(Mewnosodwch ddata o Adran 1.2a/1.2b (tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd a chymhariaeth â'r teulu) o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer y CA3.)*

## Sleid Powerpoint 6

## Cyfnod allweddol 4 – data perfformiad ysgolion

*(Mewnosodwch ddata o Adran 1.4a/1.4b (tuedd PYDd/heb fod yn cael PYDd a chymhariaeth â'r teulu) o set ddata craidd Cymru Gyfan ar gyfer y CA4.)*

## Sleid Powerpoint 7

*Mewnosodwch eich data eich hun ar berfformiad disgyblion dan anfantais, fel data gwerth ychwanegol.*

## Rhan 3: Beth mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda?

**<u>Sleid Powerpoint 1</u>**

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- myfyrio ar arfer dda yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion dan anfantais; ac
- arfarnu agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi nodi:

- cryfderau yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais; a
- meysydd i'w gwella er mwyn helpu codi safonau cyflawniadau disgyblion dan anfantais.

**<u>Sleid Powerpoint 2</u>**

**Strategaethau y gall yr ysgol yn unig eu rhoi ar waith**

**Strategaethau yn yr ysgol**:

- Dull ysgol-gyfan
- Defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd
- Medrau llythrennedd a dysgu
- Medrau cymdeithasol ac emosiynol
- Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad
- Teilwra'r cwricwlwm
- Profiadau cyfoethogi
- Gwrando ar ddysgwyr
- Ymgysylltu â rhieni
- Datblygu arbenigedd staff

**Sleid PowerPoint 3**

**Strategaethau sy'n cynnwys gweithio gyda phartneriaid**

**Ni all ysgolion ar eu pennau'u hunain dorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chyflawniad.**

**Gweithio gyda phartneriaid**
Gwaith amlasiantaethol

Cymorth arbenigol

Tîm o amgylch y teulu

Cydgyfrannu adnoddau

Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion

**Strategaethau yn yr ysgol**:

- Dull ysgol-gyfan
- Defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd
- Medrau llythrennedd a dysgu
- Medrau cymdeithasol ac emosiynol
- Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad
- Teilwra'r cwricwlwm
- Profiadau cyfoethogi
- Gwrando ar ddysgwyr
- Ymgysylltu â rhieni
- Datblygu arbenigedd staff

Rhieni

Teuluoedd disgyblion sy'n agored i niwed

Gwaith sy'n canolbwyntio ar y gymuned

Dysgu y tu allan i oriau

**<u>Sleid PowerPoint 4</u>**

**Beth mae ysgolion mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda?**

1 Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais
2 Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais
3 Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned
4 Gweithio mewn partneriaeth
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth wrth fynd i'r afael ag anfantais

## Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 1: Mae Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi dylunio system broffilio i olrhain cynnydd dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4.

### Cyd-destun yr ysgol

Ysgol gymunedol 11-16 yn Llansawel, Castell-nedd Port Talbot yw Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart. Mae 500 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd. At ei gilydd, mae nifer o ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig yn rhan o'r dalgylch, ac mae gan 34% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan hanner y disgyblion ym Mlwyddyn 7 hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan yr ysgol ddwy bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ei dalgylch. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan 24% o ddysgwyr.

### Strategaeth

Nod yr ysgol yw "galluogi pob unigolyn i gyflawni ei lawn botensial o fewn fframwaith o ddisgwyliadau uchel". Mae rhan o strategaeth yr ysgol i wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais yn cynnwys:

- lleihau'r amrywiaeth mewn perfformiad rhwng pynciau a grwpiau o ddysgwyr;
- dadansoddi data yn effeithiol i osod targedau heriol ac olrhain cynnydd meysydd pwnc, dysgwyr unigol a grwpiau allweddol o ddysgwyr; ac
- ymgorffori prosesau gosod targedau ac olrhain systematig.

### Gweithredu

### Nodi

Mae'r ysgol yn nodi dysgwyr yng ngharfan Blwyddyn 11 sydd: yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; plant sy'n cael gofal; dysgwyr mwy abl a dawnus; dysgwyr y mae angen cymorth iaith a lleferydd arnynt; a dysgwyr â nam ar eu clyw.

Mae proffil gan bob dysgwr. Mae'r proffiliau hyn yn defnyddio'r wybodaeth uchod ac amrywiaeth o ddata academaidd, yn cynnwys data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT) a gwybodaeth o'r Profion Gallu Gwybyddol (CATs). Defnyddir y data gwaelodlin hwn i ddyrannu 'band ysgol' ar gyfer dysgwyr. Mae saith band ac mae gan bob un isafswm o ran perfformiad disgwyliedig. Er enghraifft, os yw dysgwyr ym mand 5, yr isafswm o ran perfformiad disgwyliedig iddo yng nghyfnod allweddol 4 yw cyflawni gradd 'C' neu gyfwerth mewn TGAU. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol yn disgwyl y bydd pob dysgwr yn cyflawni o leiaf lefel 5. Caiff y targed hwn ei adolygu ddwywaith y flwyddyn yn ystod gosod targedau ysgol gyfan a'i addasu i gynnwys her ar gyfer dysgwyr, lle bydd angen.

Ar ddiwedd Blwyddyn 10, mae athrawon pwnc yn rhoi amcangyfrif o radd ar gyfer pob dysgwr, sy'n cael ei roi ym 'mhroffil y dysgwr'. Defnyddir hyn i nodi dysgwyr sy'n tangyflawni mewn unrhyw feysydd pwnc penodol. Mae'r wybodaeth hon yn ffurfio sail y grwpiau dysgu sy'n cael eu ffurfio ar gyfer Blwyddyn 11, sy'n cynnwys tua

chwe dysgwr. Rhoddir y dysgwyr mwy abl a dawnus mewn grŵp ar wahân. Rhoddir dysgwyr sy'n tangyflawni mewn Saesneg neu fathemateg mewn grŵp dysgu pwnc craidd penodol o 10 dysgwr. Mae unrhyw ddysgwyr sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cael eu croesgyfeirio gyda'r grwpiau cychwynnol hyn er mwyn gallu rhoi cymorth unigol ychwanegol i'r dysgwyr hyn. Caiff dysgwyr â nam iaith a lleferydd a nam ar eu clyw eu dysgu gan staff arbenigol. Caiff pedwar deg y cant o ddysgwyr Blwyddyn 11 eu hyfforddi yn y modd hwn, a chaiff 11% yn ychwanegol eu dysgu trwy'r cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach (Reaching Wider) mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe.

Caiff y proffiliau dysgwyr hyn eu rhannu gyda phob aelod er mwyn gallu cael system gymorth gydlynus.

**Y broses hyfforddi**

Mae saith aelod o staff, y mae pump ohonynt wedi'u hyfforddi'n anogwyr dysgu, yn cael sesiwn i weithio gyda'r rhai y maent yn eu mentora bob pythefnos. Maent yn gweithio gydag unigolion neu gyda grŵp o ddysgwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i fodloni anghenion penodol. Pan fydd angen, mae anogwyr dysgu'n gweithio gydag athrawon pwnc i ddatblygu mwy o strategaethau. Mewn mathemateg, mae cynllun 'mentora cyfoedion' ar waith mewn rhai dosbarthiadau i ddysgwyr sy'n teimlo'n llai hyderus ynghylch rhifedd. Caiff llythrennedd ei ddatblygu gyda'r grŵp dysgwyr mwy abl a dawnus trwy gymdeithas drafod, a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r cydlynydd llythrennedd ac yn gorffen gyda fideo yn cael ei gyflwyno gan ddysgwyr i gystadleuaeth Question Time y BBC.

Mae'r system broffilio yn galluogi staff i fireinio strategaethau i fynd i'r afael â thangyflawni. Pan gaiff canlyniadau ffug arholiadau eu bwydo i mewn i'r system, mae anogwyr yn myfyrio ar lwyddiant strategaethau amrywiol, ac yn ystyried sut i addasu dulliau a ffyrdd o rannu arfer dda.

Mae disgyblion yn llenwi holiadur ar ddechrau pob tymor sy'n gofyn iddynt roi gradd i agweddau ar eu hunan-barch, eu hyder a'r nodau a osodir ar eu cyfer. Mae staff yn dadansoddi'r ymatebion ar ôl adolygiad y tymor cyntaf ac yn cyflwyno eu canfyddiadau ar ffurf graff. Mae'r graff yn dangos canran y myfyrwyr a nododd ddatblygiad cadarnhaol ym mhob maes cwestiwn penodol. Trwy arfarnu, mae'r ysgol wedi canfod:

- er bod holiaduron ffurfiannol yn rhoi cipolwg ar y modd y mae teimladau personol dysgwyr amdanyn nhw eu hunain wedi newid, mae angen i athrawon ganfod mwy ynglŷn â pham mae dysgwyr yn teimlo bod y newid hwn wedi digwydd; a
- bod y broses broffilio yn neilltuo amser a chymorth i ddysgwyr nodi eu meysydd gwendid eu hunain, datblygu strategaethau i'w goresgyn a myfyrio ar ba ffyrdd eraill y gallant ddefnyddio'r medrau hyn. Mae'r ysgol yn bwriadu rhoi amser ychwanegol i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol hon ar gyfer Blwyddyn 11 y flwyddyn nesaf.

**Deilliannau**

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda yng Nghwrt Sart. Dros y blynyddoedd diwethaf, maent wedi cyflawni canlyniadau gwell na'r rhai mewn ysgolion tebyg. Yn 2011, fe wnaeth 31% o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim gyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, a oedd yn uwch na pherfformiad cyfartalog dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ledled Cymru (22%). Mae lefelau presenoldeb wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am y pum mlynedd diwethaf.

## Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 2: Mae Ysgol Bryn Elian yng Nghonwy wedi aildrefnu ei system fugeiliol i helpu olrhain a monitro anghenion ei disgyblion dan anfantais.

### Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11-18 gydag 850 o ddisgyblion yw Ysgol Bryn Elian. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ochr ddwyreiniol Bae Colwyn a'r pentrefi cyfagos. Mae'r dalgylch yn amrywiol ac yn cynnwys ardal o amddifadedd cymdeithasol, sy'n gymwys i gael cyllid cydgyfeirio Ewropeaidd. Mae gan 22% y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae 30% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

### Strategaeth

Cydnabu'r ysgol fod angen ailffurfio'r system fugeiliol fel ei bod yn addas ar gyfer y disgyblion. Roedd angen cymorth academaidd a bugeiliol penodol ar ddisgyblion dan anfantais i oresgyn eu rhwystrau unigol rhag gwneud cynnydd. Penodwyd mentor dysgu nad yw'n addysgu i bob grŵp blwyddyn i gynorthwyo rheolwr dysgu, sef aelod o staff addysgu'r ysgol. Yn unol â chynllun strategol yr ysgol, hyfforddwyd pob mentor i fod yn anogwyr dysgu.

### Gweithredu

Mae mentoriaid dysgu yn ymgymryd ag ystod o dasgau. Maent:

- yn dadansoddi data ar gyfer eu grŵp blwyddyn bob chwe wythnos, gan fesur perfformiad a chynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd. Pan fydd disgyblion yn methu cyrraedd eu targedau, caiff strategaethau eu hailasesu, ac mae mentoriaid dysgu yn targedu unigolion ar gyfer sesiynau mentora;
- yn defnyddio data prawf Agweddau Disgyblion Atyn Nhw eu Hunain a'r Ysgol (PASS) i nodi'r rhwystrau rhag dysgu i ddysgwyr dan anfantais unigol. Trwy waith unigol a gwaith grŵp, mae mentoriaid yn gweithio gyda'r disgybl i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion;
- yn rhoi cymorth ymddygiad i staff a disgyblion trwy gynnal sesiynau un i un gyda disgyblion, ac fe barheir â nhw wedyn yn yr ystafell ddosbarth, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- yn goruchwylio sesiynau 'dal i fyny' a 'chymorthfeydd gwaith cwrs' gyda disgyblion sydd wedi bod yn absennol neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt;
- yn cysylltu ag asiantaethau eraill i gydweithio'n agos â disgyblion ar y gofrestr amddiffyn plant, ar y gofrestr plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd dan adain y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg;
- yn gweithredu system alw ar y diwrnod cyntaf y mae disgybl yn absennol; ac
- yn rhan annatod o strwythur bugeiliol yr ysgol.

Mae pob mentor wedi cael ei hyfforddi gan seicolegydd clinigol mewn therapi ymddygiad gwybyddol hefyd. Mae mentoriaid unigol wedi cael eu hyfforddi mewn maes arbenigedd. Mae'r mentoriaid yn gweithio fel tîm trwy gyfeirio grwpiau o ddysgwyr â phroblemau penodol at fentor sy'n arbenigo yn y maes hwnnw. Mae mentoriaid yn cynnal sesiynau ar gyfer disgyblion mewn meysydd fel datblygu cyfeillgarwch, meddwl cadarnhaol ac ymddygiad a rhaglenni cymorth i gyfoedion mewn grŵp. Mae mentoriaid yn ennyn diddordeb disgyblion mewn prosiectau a gynlluniwyd i ddatblygu empathi a datrys problemau bywyd go iawn hefyd.

Fe wnaeth yr ysgol hefyd sefydlu 'canolfan cymorth i ddisgyblion' (PSC) yn 2006-2007 i gynorthwyo disgyblion â phroblemau ymddygiad. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi newid natur y cymorth a gynigir yn y PSC i gryfhau lles emosiynol dysgwyr.

Caiff gwaith mentoriaid dysgu ei arfarnu trwy ddadansoddi:

- data perfformiad disgyblion;
- data PASS;
- monitro ymddygiad a phresenoldeb; ac
- adborth gan ddisgyblion.

Mae arfarnu gwaith mentoriaid dysgu wedi dangos bod angen i'r ysgol wneud y canlynol i wella'r gwaith a wnânt:

- nodi mwy o gyfleoedd hyfforddiant achrededig ar gyfer mentoriaid;
- cryfhau'r tîm trwy gael gweithwyr allweddol yng nghyfnod allweddol 3 ac yng nghyfnod allweddol 5; a
- datblygu strategaethau i ddarparu mwy o sesiynau ar ôl yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ac ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Deilliannau**

Mae lefelau presenoldeb wedi bod yn y chwarter uchaf o blith y rhai ar gyfer ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Mae presenoldeb disgyblion dan anfantais wedi gwella. Mae data PASS yn dangos bod agwedd disgyblion at ddysgu wedi gwella gan arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion sydd â phroblemau ymddygiad. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni lefel 2 wedi cynyddu'n sylweddol, o 25% yn 2009 i 70%, ac mae lefelau perfformiad yn llawer gwell na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan erbyn hyn.

## Grŵp 1: Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 3: Mae Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn Abertawe wedi canolbwyntio ar wella presenoldeb trwy ddefnyddio ystod o ddulliau.

### Cyd-destun yr ysgol

Ysgol gyfun gymysg 11-16 ar ochr ddwyreiniol Abertawe yw Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed. Mae'r ysgol yn yr unfed ward ar ddeg mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 73% o ddysgwyr yn byw mewn 30% o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 664 o ddysgwyr ar y gofrestr, ac mae 36% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer fawr o ddysgwyr yn trosglwyddo i mewn ac allan o'r ysgol.

### Strategaeth

Mae gwella presenoldeb wedi bod yn flaenoriaeth strategol yn y cynllun datblygu ysgol ers cael ei nodi'n argymhelliad arolygu yn 2005. Ar yr adeg honno, barnwyd bod presenoldeb yn anfoddhaol. Argymhellodd y tîm arolygu hefyd y dylai'r ysgol arfarnu, a bu gwelliant yn narpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 i ddysgwyr gallu cymedrol ac is. Roedd yr ysgol yn ystyried bod yr argymhellion hyn yn gydberthynol.

Mae camau strategol allweddol i wella presenoldeb wedi cynnwys:

- datblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i anghenion yng nghyfnod allweddol 4;
- trawsnewid cwricwlwm cyfnod allweddol 3 trwy newid cynlluniau gwaith sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm medrau;
- cymell Blwyddyn 9 yn nhymor yr haf gyda rhaglen o fedrau allweddol achrededig; a
- chraffu ar ystod o faterion presenoldeb i nodi blaenoriaethau a sefydlu meini prawf llwyddo i fesur gwelliant.

Sefydlodd yr ysgol grŵp ffocws ar bresenoldeb gyda chenhadaeth i:

- leihau absenoldebau anawdurdodedig;
- diffinio'r gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor;
- lleihau triwantiaeth a gwella prydlondeb; a
- rheoli presenoldeb trwy gynllun parhad busnes.

### Gweithredu

Presenoldeb yw'r eitem gyntaf ar yr agenda yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol, y tîm arweinyddiaeth, yr uwch dîm bugeiliol a'r tîm bugeiliol. I wella presenoldeb, datblygodd yr ysgol nifer o ddulliau, sef:

- ymestynnwyd tîm o swyddogion cymorth bugeiliol (SCB), a sefydlwyd i ddechrau trwy gyllid Rhagori, ac fe gafodd ei ariannu'n ddiweddarach gan gyllideb yr ysgol. Mae swyddogion cymorth bugeiliol a'r Swyddog Lles Addysg (SLlA) yn

cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Mae tiwtoriaid dosbarth yn cefnogi gwaith y swyddogion cymorth bugeiliol ar bresenoldeb. Mae'r swyddogion cymorth bugeiliol a'r uwch dîm bugeiliol yn cynnwys cyfarfodydd cymorth sydd wedi'u hanelu at rieni targedig;

- ailstrwythurwyd y tîm bugeiliol a gwnaed newidiadau i gyfrifoldebau addysgu a dysgu ac i ddefnyddio staff cysylltiol;
- bu'r ysgol yn arbrofi â system negeseuon testun i fonitro presenoldeb, ac yn dilyn adborth cadarnhaol gan rieni, datblygwyd hyn ar gyfer yr ysgol gyfan;
- cafodd cyllid ENGAGE (cynllun cyllid Ewropeaidd, sy'n cael ei redeg trwy Lywodraeth Cymru) ei dargedu at bresenoldeb dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yng nghyfnod allweddol 4;
- bu grŵp ffocws ar bresenoldeb yn cyfarfod bob mis, wedi'i gadeirio gan y pennaeth;
- buddsoddodd yr ysgol mewn hyfforddiant staff i wella cysondeb cysylltu presenoldeb a chynnydd mewn adborth i ddysgwyr yn ystod yr adolygiadau academaidd ddwywaith y flwyddyn, i rieni mewn nosweithiau rhieni ac wrth gwblhau adroddiadau dysgwyr;
- defnyddiodd yr ysgol arfer dda ei hysgolion cynradd o ran lles a chymorth i ddysgwyr. Datblygodd ddarpariaeth gofleidiol, yn cynnwys clwb brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol, a gynlluniwyd i ddatblygu medrau personol a dysgu dysgwyr; ac
- ystod o weithio amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar bresenoldeb, yn cynnwys y prosiect 'So To Do', sef Prosiect Menter Ieuenctid, gwasanaeth seicoleg addysg, cymorth ymddygiad, Ymgysylltu â Dysgwyr yn Abertawe a'r Gwasanaeth Ymgynghorol ar gyfer Ieithoedd Ethnig Lleiafrifol.

Caiff disgyblion eu gwobrwyo am bresenoldeb da hefyd trwy:

- wobrau pwysig mewn Noswaith Wobrwyo Flynyddol;
- llythyrau tymhorol at rieni i ddysgwyr y mae eu presenoldeb yn 95%+; a
- gwobrau arbennig am bresenoldeb 100% am y flwyddyn gyfan.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod staff yn monitro ac yn arfarnu strategaethau presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfarfodydd monitro wythnosol penaethiaid ysgolion is, canol, uwch;
- cyfarfod swyddogion cymorth bugeiliol cyn cyfarfod y swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg;
- cyfarfodydd monitro wythnosol swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg; a
- chyfarfodydd monitro misol y grŵp ffocws ar bresenoldeb i nodi materion o archwilio data yn ôl grŵp blwyddyn, rhyw a grwpiau o ddysgwyr (ethnig lleiafrifol, anghenion addysgol arbennig, plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim).

**Deilliannau**

Mae deilliannau da yr ysgol yn cynnwys:

- presenoldeb gwell ym mhob grŵp blwyddyn o flwyddyn i flwyddyn: dros y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb cyffredinol wedi cynyddu o 83.4% i 90.9%;
- presenoldeb gwell ar draws grwpiau o ddysgwyr. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb Blwyddyn 11 wedi cynyddu o 62% i 90.6%;
- gostyngiad yng nghanran yr absenoldebau anawdurdodedig yn ôl grŵp blwyddyn ac yn gyffredinol. At ei gilydd, mae canran yr absenoldebau anawdurdodedig wedi gostwng o 15.8% i 0.8% dros y pum mlynedd diwethaf;
- dilyniant cynyddol i'r sector ôl-16 o ganlyniad i bresenoldeb ac ymgysylltu gwell;
- gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn y ganran sy'n gadael heb gymwysterau. Bu gostyngiad cyson yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael heb unrhyw gymhwyster, o 7% yn 2005 i 0% yn 2011;
- perthnasoedd agosach gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr unigol trwy fonitro presenoldeb mewn modd sensitif; a
- lles gwell dysgwyr yn sgîl ymgysylltu cyson a pharhaus trwy bresenoldeb gwell.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella'n sylweddol. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella o 45% i 63%, ac yng nghyfnod allweddol 4 o 23% i 37%. Mae canlyniadau diweddar yng Nghefn Hengoed wedi bod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion.

## Grŵp 1:  Nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion dan anfantais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1. Pa fecanweithiau ydym ni'n eu defnyddio ar gyfer nodi disgyblion dan anfantais? Pa mor effeithiol yw'r rhain?
2. A ydym ni'n defnyddio data a gwybodaeth feintiol ac ansoddol, gan gynnwys gwybodaeth am les a chanfyddiadau disgyblion?  Pa mor dda ydym ni'n defnyddio'r wybodaeth hon?
3. Pa mor dda ydym ni'n olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion dan anfantais yn systematig?
4. Sut ydym ni'n defnyddio meincnodau allanol i fesur cynnydd yn erbyn ysgolion eraill?
5. Pa mor dda ydym ni'n monitro ac yn arfarnu'r cymorth a'r ymyriadau a ddarparwn ar gyfer disgyblion dan anfantais?  Os nad yw strategaethau yn arwain at welliannau disgyblion, a ydym ni'n eu mireinio neu'n eu newid?
6. A oes gennym ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng lles a safonau?  Sut byddem ni'n esbonio hyn?
7. Pa mor dda y mae ein prosesau mentora yn cefnogi datblygiad cyffredinol disgyblion?

**Ble mae'r cryfderau yng nghyflawniadau ein disgyblion dan anfantais?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

## Grŵp 2: Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 1: Mae Ysgol Gyfun Sandfields wedi dylunio dull ysgol-gyfan llwyddiannus o ddatblygu llythrennedd.

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Ysgol Sandfields yn gwasanaethu ystâd Sandfields ym Mhort Talbot, sef un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd yng Nghymru. Mae 625 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan 39% o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan ryw 12% o ddysgwyr ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, ac mae gan 42% angen addysgol arbennig. Mae darpariaeth adnoddau gwell yn yr ysgol ar gyfer 67 o ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol a dwys.

### Strategaeth

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, nid oes gan lawer o'r dysgwyr y medrau darllen i gymryd rhan yn y cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi datblygu strategaethau effeithiol i wella medrau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd.

### Gweithredu

Mae'r ysgol wedi datblygu strategaeth ysgol-gyfan ar gyfer addysgu medrau. Yn sgîl hyfforddiant i staff, mae staff yn craffu ar raglenni astudio yng nghyfnod allweddol 3 i nodi ble caiff medrau eu haddysgu ar draws meysydd pwnc. Wedyn, mae staff yn mapio amlder a defnydd o fedrau penodol ar gyfer pob maes cwricwlwm ym mhob hanner tymor trwy gydol cyfnod allweddol 3. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ymateb i unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth.

Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad llythrennedd a rhifedd hefyd. Wrth ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae staff yn cynllunio rhaglen gymorth strwythuredig ar gyfer y rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn y medrau penodol hyn. Caiff y gweithdai iaith neu fathemateg dilynol eu cynnal gan y cydlynydd anghenion addysgol arbennig mewn ymgynghoriad â'r penaethiaid Saesneg a mathemateg. Mae staff yn olrhain cynnydd dysgwyr gan ddefnyddio profion llythrennedd a rhifedd. Nod y gweithdai iaith yw gwella oedran darllen swyddogaethol dysgwyr i fod uwchlaw 10 oed. Mae'r targed gwaelodlin hwn yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen unigol ar gyfer tynnu dysgwyr o wersi ar gyfer y ddau weithdy hyn yng nghyfnod allweddol 3. Mae athrawon yn cyfeirio dysgwyr at y gweithdai, ond gall dysgwyr gyfeirio'u hunain hefyd, a gall rhieni ofyn bod eu plant yn mynychu. Mae'r ysgol hefyd wedi atal Ffrangeg ym Mlwyddyn 7 i ddosbarthiadau dethol sydd â diffygion iaith sylweddol. Am dymor, mae'r athro Ffrangeg yn gweithio gyda'r tîm anghenion addysgol arbennig i ddatblygu medrau darllen. Mae dysgwyr yn dilyn rhaglen ymyrraeth strwythuredig. Mae'r dull hwn yn datblygu arbenigedd staff ac yn rhoi mwy o amser i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd hefyd.

Yn ychwanegol, mae'r adran Saesneg, ar ôl dadansoddi data dysgwyr, wedi cyflwyno rhaglen ddarllen yng nghyfnod allweddol 3. Mae pob dysgwr yn dilyn y rhaglen, ac mae'n gwella'r cwricwlwm trwy ganolbwyntio ar fedrau mewn ffordd strwythuredig a mesuradwy.

Mae'n darparu dull unffurf ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael safon gyson o gyflwyno, gan ddefnyddio adnoddau priodol, trwy gydol y cyfnod allweddol. Mae'r adran Saesneg wedi cymryd yr awenau i ailysgrifennu polisi asesu'r ysgol gyfan. Mae hyn wedi helpu i wella cysondeb marcio ac adborth i ddysgwyr ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn rhannu arfer dda trwy lanlwytho adnoddau ar fewnrwyd yr ysgol. Ar gyfer pob adnodd iaith, mae arwydd o ddarllenadwyedd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i staff asesu eu hadnoddau ac addasrwydd y deunydd y maent yn ei ddefnyddio.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae'r holl ddysgwyr yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Y nod yw cael pawb i gyflawni lefel 1, a lefel 2 i'r rhai sy'n abl i wneud hynny. Mae'r broses hon yn cysylltu â fframwaith cymwysterau cyfnod allweddol 4, lle mae pob dysgwr yn dilyn cwrs Bagloriaeth Cymru.

Mae uwch arweinwyr yn adolygu meysydd y cwricwlwm yn rheolaidd i fonitro cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer medrau. Mae'r ysgol yn casglu safbwyntiau dysgwyr
yn rheolaidd.

**Deilliannau**

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol rhwng yr adeg pan fyddant yn dechrau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r dysgwyr wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ran cymhwysedd mewn darllen. Pan ddechreuodd y Flwyddyn 9 bresennol yn yr ysgol, roedd oedran darllen tua 73% ohonynt islaw 10 oed. Mae'r dysgwyr wedi elwa'n sylweddol, ac ar hyn o bryd, dim ond 14% o'r garfan sydd ag oedran darllen islaw 10 oed.

Yng nghyfnod allweddol 4, am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod yn y chwarter cyntaf neu'r ail chwarter ar gyfer pob ysgol ar y meincnodau prydau ysgol am ddim o ran pob un o'r prif ddangosyddion. Mae perfformiad ymhlith y gorau yn nheulu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn llwyddo i leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu cael. Dros y pum mlynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd rhwng y dysgwyr hynny y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion mwy breintiedig wedi gostwng o 33% i 17%.

## Grŵp 2: Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 2: Defnyddio'r cwricwlwm a strategaethau eraill i gefnogi dysgwyr sydd o dan anfantais

### Cyd-destun

Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 11-16 oed yw Ysgol Bryngwyn. Mae wedi'i lleoli yn Dafen, ar ochr ogledd-ddwyreinol Llanelli, ac mae'n denu disgyblion o rannau o ganol y dref a nifer o bentrefi y tu allan i'r ardal. Mae 834 o ddysgwyr ar y gofrestr. Ar y cyfan, mae'r dalgylch o dan anfantais. Mae 22% o'r disgyblion yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Canolbwyntio ar wella presenoldeb, agwedd a chyflawniad dysgwyr sydd o dan anfantais yw nodau craidd yr ysgol.

### Gweithredu

Mae'r ysgol yn nodi ei disgyblion sydd o dan anfantais gan ddefnyddio ystod eang o feini prawf ac yn olrhain cynnydd disgyblion unigol yn erbyn data gwaelodlin bob tymor. Dadansoddir cynnydd disgyblion sydd o dan anfantais yn benodol ar ddiwedd cyfnodau allweddol 3 a 4 i lywio cynlluniau.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio ystod dda o brosesau i ddadansoddi amrywiaeth o ddata am berfformiad. Mae'r rhain yn cynnwys data olrhain yr ysgol a gwybodaeth o Brofion Gallu Gwybyddol (PGG) a phrofion y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysgol (SCYA) i arfarnu effaith strategaethau ar ddisgyblion dan anfantais.

Mae strategaethau ar gyfer gwella medrau disgyblion dan anfantais yn cynnwys:

- nodi dau aelod o'r uwch dîm yn benodol i wella deilliannau disgyblion ym meysydd cyfathrebu a rhifedd;
- cynyddu nifer y setiau Saesneg a mathemateg ym Mlynyddoedd 9, 10 ac 11;
- creu grwpiau ar wahân ar gyfer rhifedd a llythrennedd ym Mlynyddoedd 7 ac 8;
- cyflwyno cymwysterau Medrau Allweddol ym maes Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu ar gyfer lefelau 1-3;
- cyflwyno prosiect llythrennedd pontio ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3. Caiff disgyblion o Flynyddoedd 6 a 7 eu nodi ar sail dadansoddiadau data i dderbyn sesiynau 'dal i fyny' wythnosol yn ogystal â sesiynau darllen yn gynnar bob bore;
- cyflwyno prosiect rhifedd pontio ar gyfer cyfnod allweddol 2/3. Caiff disgyblion ym Mlynyddoedd 6, 7 ac 8 eu nodi drwy ddefnyddio data a chrëir grwpiau ymyrryd bychain. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn sesiwn wythnosol awr o hyd – sy'n dilyn 'rhaglen ymarfer rhifau'; a
- defnyddio cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 3 i gymell disgyblion.

Mae strategaethau eraill i fynd i'r afael ag anfantais yn cynnwys:

- prosiect llythrennedd emosiynol i ddysgwyr cyfnod allweddol 3 a nodwyd gan bennaeth y flwyddyn fel dysgwyr sydd o dan anfantais y mae angen cymorth arnynt. Manteisiodd y grŵp hwn ar amrywiaeth o strategaethau ymyrryd a oedd yn gweddu i anghenion unigol. Rhoddwyd cymorth ychwanegol i'r prosiect drwy gysylltiadau â gwasanaethau cymorth eraill ac asiantaethau gwirfoddol;
- pwyslais cryf ar lais y dysgwr i wneud newidiadau i'r cwricwlwm. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o ddysgu'n seiliedig ar brosiectau 'gorchwyl a gorffen' byr i gymell dysgwyr, yn ogystal â sefydlu prosiect wythnos o hyd mewn achosion eraill a oedd yn cynnwys ymweliadau i roi profiad dysgu mwy cyfoethog i ddysgwyr;
- annog bechgyn i ddarllen yn fwy llwyddiannus drwy ddatblygu prosiect sy'n cysylltu pêl-droed â darllen. Aeth y dysgwyr a fu'n gysylltiedig â'r dasg ati i'w arwain drwy fentora dysgwyr Blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd a oedd yn bwydo'r ysgol;
- swyddog presenoldeb yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod cysylltiad effeithiol gyda rhieni. Mae'r swyddog hwn hefyd yn gweithio gyda grŵp o ddysgwyr a nodwyd a oedd yn absennol yn aml, i geisio lleihau nifer yr absenoldebau anawdurdodedig;
- darparu sylfaen ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at gyfathrebu gwell ac mae gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn effeithiol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r ysgol. Mae hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r ysgol i gefnogi dysgwyr sydd o dan anfantais; a
- chydweithio'n effeithiol â Chymdeithas Pobl Ifanc a Phlant Sir Gaerfyrddin i ddarparu gweithgareddau sydd ag amrywiaeth eang o ddarpariaeth y tu allan i oriau ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd.

**Deilliannau**

Mae'r ysgol yn ymgysylltu â disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn llwyddiannus iawn o ganlyniad i:

- ddatblygu medrau allweddol disgyblion yn effeithiol iawn yn eu rhaglenni astudio;
- gwrando ar adborth gan ddisgyblion dan anfantais a chymryd camau effeithiol dros ben ar sail y wybodaeth hon;
- addasu strategaethau dysgu ac addysgu yn llwyddiannus er mwyn cymell disgyblion a'u galluogi i gwblhau eu gwaith yn llwyddiannus;
- monitro effaith y strategaethau hyn ar ddisgyblion dan anfantais yn ofalus; a'r
- rhaglen y tu allan i oriau ysgol hynod effeithiol a phoblogaidd eithriadol.

Mae'r ysgol wedi gwella deilliannau ar gyfer disgyblion dan anfantais yn y meysydd canlynol:

- mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn 25% uchaf yr ysgolion tebyg yn y dangosydd perfformiad hwn;

- ym maes llythrennedd, mae'r ysgol wedi gwella cywirdeb darllen a medrau deall y dysgwyr yn sylweddol;
- ym maes rhifedd, gwellodd disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 eu medrau'n sylweddol gan gyflawni canlyniadau uwch na'r rhai a gafodd eu darogan;
- bu gwelliant amlwg yng nghyflawniad bechgyn dan anfantais yn gyffredinol. Yng nghyfnod allweddol 3, ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng perfformiad bechgyn a merched. Newidiadau yn y strategaethau dysgu ac addysgu sy'n gyfrifol am hyn yn ôl y pennaeth;
- roedd canlyniadau TGAU pob disgybl yn llawer uwch na'r hyn a gafodd eu darogan gan ddata'r Prawf Gallu Gwybyddol (PGG);
- mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf a nhw sydd â'r nifer uchaf erbyn hyn yn nheulu'r ysgolion tebyg y mae Bryngwyn ynddo;
- mae cyfartaledd y sgôr pwyntiau ehangach i ddisgyblion 15 oed yn yr ysgol wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf a nhw sydd â'r cyfartaledd uchaf yn nheulu'r ysgolion tebyg y mae Bryngwyn ynddo; ac
- mae presenoldeb wedi gwella ymysg disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a chofnododd yr ysgol ostyngiad yn nifer yr absenoldebau anawdurdodedig.

## Grŵp 2: Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 3: Dysgu y tu allan i oriau i gyd-fynd â'r cwricwlwm

### Cyd-destun

Mae rhaglen C3+, 'Cyfoethogi, Cymell, Cyffroi', yn gweithio gydag ysgolion yn Rhondda Cynon Taf lle mae oddeutu 23% o ddisgyblion oed ysgol yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Mae'r rhaglen yn targedu grwpiau o bobl ifanc ag anghenion penodol gan eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd neu mae ganddynt hunan-barch isel a medrau cymdeithasol gwael. Mae'r grwpiau hefyd yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal neu'r rhai sy'n fwy abl a dawnus. Mae'r rhaglen yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i dderbyn disgyblion a gyfeirir at y ddarpariaeth gan amrywiaeth o asiantaethau.

### Gweithredu

Mae gweithwyr C3+ yn ymgynghori â disgyblion i addasu a gwella'r rhaglen. Cynigir amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys hoci, celf, trampolinio, dawnsio stryd, crefftau creadigol, iaith arwyddion, pêl-rwyd, ffotograffiaeth, colur ar gyfer y theatr, dawnsio neuadd, newyddiaduraeth, cic-focsio, sgïo, marchogaeth, golff, cwad-feicio a choginio, yn ogystal ag ystafell lle gall pobl ifanc ymlacio mewn amgylchedd diogel a gofalgar.

Mae gweithgareddau C3+ wedi'u datblygu mewn cymunedau unig a difreintiedig mewn clystyrau o ysgolion. Mae'r ddarpariaeth wedi'i thargedu at gymunedau, grwpiau a phobl ifanc sy'n amharod i fynychu gweithgareddau mewn ysgol. Mae rhaglen C3+ wedi darparu cludiant, prydau min-nos rhatach, gweithgareddau am ddim yn ogystal â gweithgareddau cymunedol i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan.

### Deilliannau

Mae disgyblion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn nodi'r medrau, fel gweithio mewn tîm a chyfathrebu, y maent wedi'u dysgu drwy'r gweithgareddau. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymgysylltu â disgyblion ac yn meithrin ymdeimlad o werth a pherthyn yng nghymuned yr ysgol, yn ogystal â gwella hunan-barch a lles. Mae nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth C3+ wedi cynyddu wrth i'r ddarpariaeth ehangu. Yn 2007-2008, cafwyd 101,360 o gysylltiadau â phobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn C3+. Yn 2008-2009, cododd nifer y cysylltiadau i 227,405. Mae Mae canran y bobl ifanc 15 oed sy'n cyrraedd trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, yn Rhondda Cynon Taf wedi gwella'n llawer cyflymach na Chymru gyfan. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r dangosydd perfformiad hwn wedi codi chwe phwynt canran.

## Grŵp 2: Teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion disgyblion dan anfantais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1 Pa mor dda ydym ni'n addasu'r cwricwlwm er mwyn cynorthwyo disgyblion dan anfantais? Sut ydym ni'n gwybod bod hyn yn bodloni eu hanghenion?
2 Pa mor dda ydym ni'n defnyddio'r cwricwlwm i archwilio themâu tlodi ac anfantais ac yn helpu disgyblion i ddeall sut y gellir effeithio arnynt mewn ffyrdd gwahanol?
3 Pa mor dda ydym ni'n addasu ein strategaethau addysgu a dysgu i gyfateb i anghenion disgyblion dan anfantais?
4 A ydym ni'n nodi ac yn targedu cymorth ar gyfer disgyblion dan anfantais yn ein gwaith ar bontio rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3? A yw'r gwaith hwn yn effeithiol?
5 Pa mor dda ydym ni'n defnyddio dysgu y tu allan i oriau i gynyddu hyder, cymhelliant a hunan-barch disgyblion? A ydym ni'n cynnwys cyfoethogi diwylliannol a chwaraeon yn ogystal â chymorth addysgol ychwanegol fel clybiau gwaith cartref?
6 A ydym ni'n targedu disgyblion penodol dan anfantais i'w hannog i ymuno â chlwb a fyddai o fudd iddynt?
7 Pa mor dda ydym ni'n monitro faint o ddisgyblion dan anfantais sy'n manteisio ar weithgareddau y tu allan i oriau ac yn arfarnu'r effaith ar eu cyflawniad a'u lles?

**Ble mae'r cryfderau yn ein cymorth penodol ar gyfer disgyblion dan anfantais?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

### Astudiaeth achos 1: Mae Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd wedi creu cysylltiadau cryfach gyda rhieni a'r gymuned leol er mwyn sicrhau bod dysgwyr dan anfantais yn cael eu cynorthwyo'n dda.

### Cyd-destun yr ysgol

Ysgol cyfrwng Saesneg 11 i 18 ger canol Caerdydd yw Ysgol Uwchradd Cathays. Mae 896 o ddysgwyr ar y gofrestr, yn cynnwys 144 yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn derbyn dysgwyr o ardal ddaearyddol eang, a daw tua 40% o ddysgwyr o'r tu allan i'r dalgylch. Maent yn cynrychioli'r ystod gallu llawn, ond mae cyrhaeddiad cyfran sylweddol o ddysgwyr islaw'r cyfartaledd pan fyddant yn dechrau. Mae gan 38% o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol y gyfran uchaf o blant ceiswyr lloches o oedran ysgol uwchradd yng Nghaerdydd, sef rhwng 7% a 10% o boblogaeth yr ysgol yn nodweddiadol. Mae lefel symudedd y grŵp hwn yn uchel iawn. Ar gyfartaledd, mae trosiant poblogaeth y dysgwyr rhwng 20% a 30% bob blwyddyn.

Mae dros 30 o ieithoedd yn cael eu siarad gan ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Arabeg, Bengaleg, Tsieceg, Ffarseg, Pwnjabeg, Somalieg ac Wrdw. Nid yw'r Gymraeg yn famiaith i unrhyw un o'r dysgwyr na'r myfyrwyr. Saesneg yw mamiaith tua hanner ohonynt. Darperir cymorth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol ar gyfer 257 o ddysgwyr.

### Strategaeth

Mae rhan o gynllunio strategol yr ysgol yn ymwneud â chreu cysylltiadau cryfach gyda rhieni a'r gymuned leol, er mwyn sicrhau bod dysgwyr dan anfantais yn cael eu cynorthwyo'n dda. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio sylw ar gyfnod pontio dysgwyr o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 ac mae'n monitro cynnydd a lles dysgwyr yn ofalus.

### Gweithredu

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o lawer o asiantaethau a grwpiau cymunedol i helpu dysgwyr i ymgynefino a datblygu a chryfhau cysylltiadau cyfathrebu gyda'u rhieni.

### Dydd Sadwrn Pontio

Mae'r ysgol yn cynnal llawer o weithgareddau pontio, yn cynnwys 'Dydd Sadwrn Pontio', pan fydd yr ysgol yn cynnal ystod o weithgareddau ar gyfer dysgwyr a'u rhieni. Cynigir cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr sydd dan anfantais yng nghyfnod allweddol 2.

**Diwrnod dod â Rhiant i'r Ysgol**

Yn ystod Blwyddyn 7, gwahoddir y rhieni i dreulio bore yn gweithio ochr yn ochr â'u plant. Y llynedd, cymerodd 24 o rieni ran, ac eleni, mae'r ysgol yn gobeithio cynyddu'r nifer hon.

**Cyfarfodydd teuluol**

Gwahoddir pob dysgwr ym Mlwyddyn 7 i'r ysgol ar gyfer 'Cyfweliad Teuluol' gydag aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Trafodir materion fel pontio, medrau sylfaenol, a chyfleoedd ychwanegol sydd ar gael. Caiff y canlyniadau o'r cyfarfodydd eu hadrodd yn ôl wrth benaethiaid adran a phenaethiaid blwyddyn, ac fe gânt eu hymgorffori mewn eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd arweinwyr yn aml. Yn ogystal, caiff cyfarfodydd teuluol eu trefnu i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 i drafod cynnydd, uchelgeisiau a dyheadau dysgwyr. Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfieithwyr yn bresennol mewn digwyddiadau o'r fath. Mae'r cyfieithwyr hefyd yn helpu'r staff i werthfawrogi a deall gwahaniaethau diwylliannol penodol a allai effeithio ar addysgu a dysgu.

**Defnyddio arbenigedd yn y gymuned**

Mae cyfradd presenoldeb un grŵp o ddisgyblion ethnig lleiafrifol yn isel iawn ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r ysgol wedi manteisio ar gymorth a chefnogaeth unigolyn o'r un grŵp ethnig. Mae'n cynnig ei gymorth i weithredu fel person cyswllt rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio cynllun tebyg o'r blaen gyda grŵp ethnig arall, a llwyddodd hyn i wella'r cyfathrebu rhwng y rhieni a'r ysgol.

**Prosiect Fy Addysg: ymgysylltu â rhieni a datblygu llais y dysgwyr (wedi'i gefnogi gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd)**

Nod y prosiect yw ymgysylltu â rhieni o wahanol gefndiroedd ethnig, y mae llawer ohonynt yn amharod i ymgysylltu â'r ysgol ynghylch materion addysgu a dysgu. Cynlluniodd y dysgwyr darn o gyfrwng rhyngweithiol i roi gwybod i rieni ac aelodau o'r teulu am addysg eu plant a sut i ddeall y system addysg yn well. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd DVD a gwefan. Cafodd y dysgwyr eu hyfforddi i ddefnyddio cyfryngau digidol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd i gynllunio a chyfarwyddo'r gwaith. Bydd cam nesaf y prosiect yn golygu bod dysgwyr a'u rhieni yn gweithio gyda'i gilydd, er mwyn i rieni allu magu hyder ac ennill y medrau i gymryd rôl fwy rhagweithiol i gefnogi addysg eu plant.

Mae'r ysgol yn monitro ac yn dadansoddi cyfranogiad rhieni mewn digwyddiadau a nosweithiau rhieni. Caiff y wybodaeth hon ei monitro yn ôl grŵp ethnig ac yn ôl grŵp blwyddyn y dysgwyr.

Ar ôl dadansoddi'r arfarniad, mae'r ysgol yn ymestyn ei darpariaeth i wella'r cyfnod pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 trwy gynnig cwrs tridiau yn ystod hanner tymor i ddysgwyr cyfnod allweddol 2 a'u rhieni. Bydd y sesiynau yn cynnwys gweithgareddau ar gael mynediad i lyfrgell yr ysgol, cyfleoedd ffitrwydd a chwaraeon,

materion iechyd a gefnogir gan feddyg a deintydd lleol, bwyta'n iach, gyda'r bwriad o asesu anghenion ac ymgysylltu â rhieni a'u hannog i ymwneud â'r ysgol.

**Deilliannau**

Mae llawer o rieni'n teimlo bod ganddynt fwy o hyder wrth siarad gydag athrawon a'u holi. Mae'r ysgol wedi cyflogi cynorthwywyr addysgu dwyieithog ychwanegol i roi cymorth a gweithredu fel cyswllt. Mae ffocws yr ysgol ar ddysgwyr o grwpiau ethnig penodol a'u rhieni wedi cynyddu presenoldeb mewn nosweithiau rhieni ar gyfer y rhieni hynny o 50% i 86%. Mae perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

### Astudiaeth achos 2: Gweithio mewn partneriaeth gyda grŵp gwirfoddol yn y gymuned

### Cyd-destun

Mae disgyblion yn Ysgol Gyfun Esgob Gore yn Abertawe yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Mae oddeutu 25% o'r disgyblion yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Gwella cyflawniad grŵp penodol o ddysgwyr sydd o dan anfantais drwy gynnig cymorth dysgu a meithrin cysylltiadau agosach â'r gymuned leol.

### Gweithredu

Nododd yr ysgol grŵp o ddisgyblion o dras leiafrifol ethnig sydd hefyd o dan anfantais ac mewn perygl o dangyflawni. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, sef sefydliad gwirfoddol sy'n cefnogi dynion ifanc o dras ethnig yn ardal Abertawe.

Mae Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn cynnig rhaglen gwaith cwrs ac adolygu ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth i gefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr.

### Deilliannau

Mae'r strategaeth hon wedi cael effaith sylweddol ar gyflawniad y dysgwyr hyn. Ar ben hynny, mae cyfraddau gwahardd disgyblion o leiafrifoedd ethnig y nesaf peth i ddim o ganlyniad i bartneriaeth gwaith yr ysgol gyda Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig.

Mae'r gwaith gyda Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig wedi cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion a'r ysgol. Mae gweithwyr y tîm ar gael i ymateb i wahanol grwpiau ethnig, gwella dealltwriaeth a goddefgarwch yn ogystal â chynyddu hunan-barch y dysgwyr. Mae'r tîm yn gweithio yn yr ysgol bob wythnos ac mae hyn yn helpu'r ysgol i feithrin cysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol a chefnogi disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn dda. Mae'r ysgol hefyd yn fwy ymwybodol o unrhyw faterion yn y gymuned leol a allai effeithio ar gyflawniad y disgyblion.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill wedi culhau yn Esgob Gore. Mae perfformiad pob disgybl wedi gwella dros yr un cyfnod ac mae pob dangosydd perfformiad allweddol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

### Astudiaeth achos 3: Effaith cydlynwyr ysgolion bro

### Cyd-destun

Caerdydd yw'r chweched awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae oddeutu 22% o'r disgyblion mewn ysgolion yno yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Mae awdurdod lleol Caerdydd wedi nodi cydlynwyr ysgolion bro ym mhob ysgol uwchradd. Cydlynu, datblygu a monitro darpariaeth yr ysgol a'r gymuned ar draws clwstwr pontio yw eu cylch gwaith.

### Gweithredu

Mae'r cydlynwyr yn cwrdd yn rheolaidd mewn tîm yn yr awdurdod lleol i gael hyfforddiant ac i rannu arfer. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn gyfle i bartneriaid allweddol o'r gymuned ac asiantaethau eraill i fynychu a hysbysu cydlynwyr am strategaethau, ymyriadau a rhaglenni a all gefnogi darpariaeth wahanol yr ysgolion bro mewn cymunedau penodol. Mae cydlynwyr yr ysgolion bro yn cynnal gweithdai ymarferol hefyd i ddatblygu medrau arwain staff uwch yr ysgolion.

Mae'r cydlynwyr wedi datblygu 'Fframwaith Datblygu Ansawdd' i alluogi ysgolion i hunanarfarnu eu darpariaeth gymunedol yn ogystal â datblygu portffolio o dystiolaeth i roi enghreifftiau o arfer effeithiol. Mae'r gwaith hwn wedi helpu cryfhau ffocws yr ysgolion ar y gymuned. Mae llawer o ysgolion wedi meithrin cysylltiadau agosach gyda sawl prosiect cymunedol fel gwaith gyda grwpiau preswylwyr a chylchoedd chwarae.

### Deilliannau

Mae ysgolion wedi gweld bod mwy o ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio yn cymryd rhan a bod llawer o ddisgyblion wedi gwella eu medrau cymdeithasol a'u hunan-barch drwy brosiectau'r ysgolion bro hyn.

Mae Caerdydd yn parhau i berfformio ar lefel well yn y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 1 a 3, na'r hyn a allai fod wedi'i ddisgwyl ar sail y ganran sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mae disgyblion yn ysgolion Caerdydd yn cyflawni'n uwch na'r perfformiad disgwyliedig ym mhob dangosydd perfformiad allweddol.

## Grŵp 3: Ymgysylltu â rhieni a'r gymuned

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1 Pa mor dda yw ein dealltwriaeth o'r ystod o broblemau sy'n wynebu teuluoedd ein disgyblion dan anfantais?
2 Pa mor dda ydym ni'n cefnogi ac yn gwella lefelau ymgysylltiad teuluoedd? Beth mwy gallem ni ei wneud?
3 A ydym ni'n effeithiol o ran cynyddu gallu rhieni i gefnogi dysgu'u plant? A oes mwy y gallem ni ei wneud?
4 Pa strategaethau ydym ni'n eu defnyddio i ymgysylltu â'r gymuned leol?
5 Pa mor dda ydym ni wedi nodi heriau yn ein cymuned? Sut ydym ni'n ymateb i'r heriau hyn?
6 A oes gan bob un o'n staff ddealltwriaeth glir o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn ysgol fro? Sut ydym ni'n diffinio hyn?
7 Pa mor effeithiol ydym ni fel ysgol fro, fel lefel ein hymglymiad â grwpiau cymunedol, rhannu cyfleusterau gyda'r gymuned a'r ffordd y cydweithiwn ar brosiectau cymunedol?
8 Sut mae ein gwaith fel ysgol fro yn effeithio ar ddisgyblion dan anfantais?

**Ble mae'r cryfderau yn ein dull o ymgysylltu â rhieni disgyblion dan anfantais a'r gymuned?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

## Grŵp 4: Gweithio gydag ystod ehangach o bartneriaid

**Astudiaeth achos: Mae Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn Abertawe wedi llwyddo i wella presenoldeb trwy ddefnyddio ystod o ddulliau gyda phartneriaid.**

**Cyd-destun yr ysgol**

Ysgol gyfun gymysg 11-16 ar ochr ddwyreiniol Abertawe yw Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed. Mae'r ysgol yn yr unfed ward ar ddeg mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 73% o ddysgwyr yn byw mewn 30% o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 664 o ddysgwyr ar y gofrestr, ac mae 36% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer fawr o ddysgwyr yn trosglwyddo i mewn ac allan o'r ysgol.

**Strategaeth**

Mae gwella presenoldeb wedi bod yn flaenoriaeth strategol yn y cynllun datblygu ysgol ers cael ei nodi'n argymhelliad arolygu yn 2005. Ar yr adeg honno, barnwyd bod presenoldeb yn anfoddhaol. Argymhellodd y tîm arolygu hefyd y dylai'r ysgol arfarnu, a bu gwelliant yn narpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 i ddysgwyr gallu cymedrol ac is. Roedd yr ysgol yn ystyried bod yr argymhellion hyn yn gydberthynol.

Mae camau strategol allweddol i wella presenoldeb wedi cynnwys:

- datblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i anghenion yng nghyfnod allweddol 4;
- trawsnewid cwricwlwm cyfnod allweddol 3 trwy newid cynlluniau gwaith sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm medrau;
- cymell Blwyddyn 9 yn nhymor yr haf gyda rhaglen o fedrau allweddol achrededig; a
- chraffu ar ystod o faterion presenoldeb i nodi blaenoriaethau a sefydlu meini prawf llwyddo i fesur gwelliant.

Sefydlodd yr ysgol grŵp ffocws ar bresenoldeb gyda chenhadaeth i:

- leihau absenoldebau anawdurdodedig;
- diffinio'r gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor;
- lleihau triwantiaeth a gwella prydlondeb; a
- rheoli presenoldeb trwy gynllun parhad busnes.

**Gweithredu**

Presenoldeb yw'r eitem gyntaf ar yr agenda yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol, y tîm arweinyddiaeth, yr uwch dîm bugeiliol a'r tîm bugeiliol. I wella presenoldeb, datblygodd yr ysgol nifer o ddulliau, sef:

- ystod o weithio amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar bresenoldeb, yn cynnwys y prosiect 'So To Do', sef Prosiect Menter Ieuenctid, gwasanaeth seicoleg addysg,

cymorth ymddygiad, Ymgysylltu â Dysgwyr yn Abertawe a'r Gwasanaeth Ymgynghorol ar gyfer Ieithoedd Ethnig Lleiafrifol;

- ymestynnwyd tîm o swyddogion cymorth bugeiliol (SCB), a sefydlwyd i ddechrau trwy gyllid Rhagori, ac fe gafodd ei ariannu'n ddiweddarach gan gyllideb yr ysgol. Mae swyddogion cymorth bugeiliol a'r Swyddog Lles Addysg (SLlA) yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Mae tiwtoriaid dosbarth yn cefnogi gwaith y swyddogion cymorth bugeiliol ar bresenoldeb. Mae'r swyddogion cymorth bugeiliol a'r uwch dîm bugeiliol yn cynnwys cyfarfodydd cymorth sydd wedi'u hanelu at rieni targedig;
- ailstrwythurwyd y tîm bugeiliol a gwnaed newidiadau i gyfrifoldebau addysgu a dysgu ac i ddefnyddio staff cysylltiol;
- bu'r ysgol yn arbrofi â system negeseuon testun i fonitro presenoldeb, ac yn dilyn adborth cadarnhaol gan rieni, datblygwyd hyn ar gyfer yr ysgol gyfan;
- cafodd cyllid ENGAGE (cynllun cyllid Ewropeaidd, sy'n cael ei redeg trwy Lywodraeth Cymru) ei dargedu at bresenoldeb dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yng nghyfnod allweddol 4;
- bu grŵp ffocws ar bresenoldeb yn cyfarfod bob mis, wedi'i gadeirio gan y pennaeth;
- buddsoddodd yr ysgol mewn hyfforddiant staff i wella cysondeb cysylltu presenoldeb a chynnydd mewn adborth i ddysgwyr yn ystod yr adolygiadau academaidd ddwywaith y flwyddyn, i rieni mewn nosweithiau rhieni ac wrth gwblhau adroddiadau dysgwyr; a
- defnyddiodd yr ysgol arfer dda ei hysgolion cynradd partner o ran lles a chymorth i ddysgwyr. Datblygodd ddarpariaeth gofleidiol, yn cynnwys clwb brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol, a gynlluniwyd i ddatblygu medrau personol a dysgu dysgwyr.

Caiff dysgwyr eu gwobrwyo am bresenoldeb da hefyd trwy:

- wobrau pwysig mewn Noswaith Wobrwyo Flynyddol;
- llythyrau tymhorol at rieni i ddysgwyr y mae eu presenoldeb yn 95%+; a
- gwobrau arbennig am bresenoldeb 100% am y flwyddyn gyfan.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod staff yn monitro ac yn arfarnu strategaethau presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfarfodydd monitro wythnosol penaethiaid ysgolion is, canol, uwch;
- cyfarfod swyddogion cymorth bugeiliol cyn cyfarfod y swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg;
- cyfarfodydd monitro wythnosol swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg; a
- chyfarfodydd monitro misol y grŵp ffocws ar bresenoldeb i nodi materion o archwilio data yn ôl grŵp blwyddyn, rhyw a grwpiau o ddysgwyr (ethnig lleiafrifol, anghenion addysgol arbennig, plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim).

**Deilliannau**

Mae deilliannau yn cynnwys:

- presenoldeb gwell ym mhob grŵp blwyddyn o flwyddyn i flwyddyn: dros y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb cyffredinol wedi cynyddu o 83.4% i 90.9%;
- presenoldeb gwell ar draws grwpiau o ddysgwyr. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb Blwyddyn 11 wedi cynyddu o 62% i 90.6%;
- gostyngiad yng nghanran yr absenoldebau anawdurdodedig yn ôl grŵp blwyddyn ac yn gyffredinol. At ei gilydd, mae canran yr absenoldebau anawdurdodedig wedi gostwng o 15.8% i 0.8% dros y pum mlynedd diwethaf;
- dilyniant cynyddol i'r sector ôl-16 o ganlyniad i bresenoldeb ac ymgysylltu gwell;
- gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn y ganran sy'n gadael heb gymwysterau. Bu gostyngiad cyson yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael heb unrhyw gymhwyster, o 7% yn 2005 i 0% yn 2011;
- perthnasoedd agosach gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr unigol trwy fonitro presenoldeb mewn modd sensitif; a
- lles gwell dysgwyr yn sgil ymgysylltu cyson a pharhaus trwy bresenoldeb gwell.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella o 45% i 63%, ac yng nghyfnod allweddol 4 o 23% i 37%. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau yng Nghefn Hengoed wedi bod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion.

## Grŵp 4: Gweithio gydag ystod ehangach o bartneriaid

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1 A ydym ni wedi nodi uwch aelod o staff sy'n cydlynu ac yn datblygu gwaith yr ysgol gyda phartneriaid allanol?
2 A ydym ni'n wybodus ac yn gwybod llawer am rôl a swyddogaeth gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau a gwasanaethau eraill?
3 A ydym ni'n mynd ati'n weithredol i chwilio am asiantaethau a gwasanaethau a fydd yn cefnogi'r heriau a wynebir gan ein disgyblion dan anfantais yn fwyaf effeithiol?
4 Sut gallem ni weithio'n fwy effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid? Er enghraifft, a allem ni greu 'canolfan' o fewn yr ysgol ar gyfer ystod o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs), y gwasanaeth iechyd a Gyrfa Cymru ?
5 Pa wybodaeth fyddwn ni'n ei rhannu'n rheolaidd gydag asiantaethau a gwasanaethau allanol?
6 A yw rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid allanol yn sicrhau bod strategaethau ymyrryd partneriaid yn gyson â dulliau'r ysgol?
7 Pa mor effeithiol yw ein gwaith gyda'r awdurdod lleol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu ar gyfer ein disgyblion dan anfantais?

**Ble mae'r cryfderau yn ein gwaith gydag ystod o bartneriaid?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

# Grŵp 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth disgyblion dan anfantais

## Astudiaeth achos 1: Mae Ysgol Gyfun Treorci yn Rhondda Cynon Taf wedi canolbwyntio ar 'Gau'r Bwlch'

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Ysgol Gyfun Treorci yn ysgol gyfun gymysg fawr i ddisgyblion 11-18 oed yn sir Rhondda Cynon Taf. Mae 1,600 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 354 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ysgolion cynradd lleol, er yn y tair blynedd diwethaf, mae dros 40 o ddisgyblion y flwyddyn wedi ymuno â'r ysgol ar ôl mynychu ysgolion cynradd y tu allan i'r dalgylch traddodiadol.

Daw derbyniad yr ysgol o gefndir cymdeithasol amrywiol ac mae'n cynrychioli'r ystod gallu lawn. Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 24%, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae gallu academaidd adeg derbyn islaw cyfartaleddau cenedlaethol. Mae 16% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, mae tua 9% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl.

### Strategaeth

O ganlyniad i gefndir cymdeithasol amrywiol disgyblion yr ysgol a lefelau tlodi uwch na'r cyfartaledd, bu'n angenrheidiol darparu system gymorth ar gyfer disgyblion wedi'i theilwra yn ôl anghenion yr unigolyn. Roedd hyn yn golygu datblygu dull cyfannol hyblyg sy'n galluogi mynd i'r afael ag anghenion pob disgybl unigol, yn gymdeithasol ac academaidd, er mwyn ei alluogi/galluogi i gyflawni potensial. Ar yr un pryd, mae pwyslais cadarn ar gynhyrchu disgyblion llythrennog a rhifog.

### Gweithredu

Mae gan yr ysgol ddull cyfannol a hyblyg o ddarparu Gofal a Lles Bugeiliol ar sail anghenion unigol. Mae'r dull yn cynnwys strategaethau amrywiol sy'n mynd i'r afael ag anghenion datblygiadol cymdeithasol ac academaidd y disgyblion yn yr ysgol. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod disgyblion sy'n gadael Ysgol Gyfun Treorci yn llythrennog a rhifog. Mae'r strategaethau a ddefnyddir wedi'u rhestru isod:

- Pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn gysylltiedig â gofal bugeiliol bob dydd
- Pennaeth Dysgu a Medrau o ansawdd uchel ym Mhob Grŵp Blwyddyn, gan gynnwys tri yn y Chweched Dosbarth
- Swyddogion Arwain Cymorth Dysgu ym mhob Grŵp Blwyddyn, gan gynnwys yn y Chweched Dosbarth
- Swyddog Arwain Cymorth Dysgu dynodedig ar gyfer Blwyddyn 7 a Blwyddyn 11
- Anogwyr dysgu ar gyfer disgyblion â phroblemau Medrau Sylfaenol, a gyflogir gan yr ysgol
- Swyddog Cefnogi Presenoldeb a gyflogir gan yr ysgol

- Ymyriadau i gynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed (Grŵp Anogaeth/Grŵp Sgiliau Bywyd)
- Ymyriadau i gynorthwyo'r rhai sy'n cael PYDd (Prydau Ysgol am Ddim) fel: mentora gan y Pennaeth Dysgu a Medrau; Prosiectau pwrpasol i godi dyheadau/hunan-barch a hunanhyder (menter Gemau Olympaidd/Prosiect Llythrennedd 'Dragonfly')
- Arweiniad ar bwyntiau trosglwyddo allweddol
- Partneriaeth gydag asiantaethau amlddisgyblaethol
- Partneriaeth gyda rhieni
- Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDPau) mewnol ac allanol ar gyfer lles (e.e. CDPau Presenoldeb Clwstwr, Cau'r Bwlch)
- Darllen mewn parau y chweched dosbarth
- System gyfeillio y chweched dosbarth
- Mentora STEM y chweched dosbarth
- Ffeiliau cynnydd llwybrau dysgu ar gyfer pob grŵp blwyddyn
- Achredu / cydnabod rhagoriaeth gan dros 10 o gyrff dyfarnu

Lefel gyson y mentora a'r arfarnu sy'n seiliedig ar ddeilliannau mesuradwy ar gyfer y disgyblion yw'r allwedd i effeithiolrwydd bob un o'r strategaethau hyn. Mae lefel uchel o atebolrwydd a pherchenogaeth gan y staff felly. Caiff y deilliannau eu monitro ar y lefel ymyrraeth a hefyd ar lefel ysgol gyfan. Mae'r arfarniad hwn wedyn yn galluogi'r ysgol i dargedu ymyriadau effeithiol a gwella adnoddau/cyllid yn y meysydd hyn, ac mae'n galluogi cynllunio strategol effeithiol.

Mae archwiliad o ymyriadau yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion sy'n cael PYDd yn gysylltiedig â rhyw fath o gymorth neu ymyrraeth. Caiff cynnydd y disgyblion ei fonitro wedyn, yn feintiol ac ansoddol, gan ddefnyddio data fel canlyniadau cynnydd, cyfeiriadau ac adborth staff ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

**Deilliannau**

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn lleihau'r bwlch rhwng disgyblion sy'n cael PYDd a'u cyfoedion nad ydynt yn cael PYDd. Yn CA4, mae canran y disgyblion PYDd sy'n cyflawni Lefel 2 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf o 60% i 88%. Mae'r duedd hon o wella i'w gweld yn CA3 hefyd, lle mae cyfran y disgyblion sy'n cael PYDd a gyflawnodd y DPC wedi cynnydd o 41% i 50% dros yr un cyfnod.

## Grŵp 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth disgyblion dan anfantais

### Astudiaeth achos 2: Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yng Ngwynedd yn sicrhau disgwyliadau uchel gan bob disgybl

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr rhwng 11 a 18 mlwydd oed. Mae ganddi 360 o ddisgyblion, gan gynnwys 50 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Daw mwyafrif y disgyblion o ardal sy'n ddifreintiedig yn economaidd neu'n gymdeithasol. Mae bron i 18% o'r disgyblion yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

### Strategaeth

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar sefydlu ethos cynhwysol arbennig gan sicrhau cyfle cyfartal a llwyddiant i bob disgybl. Cyfunir y ffocws hwn â phwyslais ar ddarparu addysg o'r ansawdd gorau er mwyn gwella safonau a sicrhau bod pob disgybl yn meddu ar y medrau pwysig ar gyfer bywyd a gwaith.

### Arfarnu

Mae'r awyrgylch cartrefol a chynhwysol yn nodwedd amlwg a llwyddiannus iawn yn yr ysgol. Mae'r staff yn gwybod pwysigrwydd bod â disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion a chynlluniant weithgareddau hynod ddiddorol sy'n hyrwyddo safonau uchel. Hefyd, ceir pwyslais cryf ar gefnogi pob disgybl a sicrhau bod gan bawb fynediad a chyfle cyfartal i gyfranogi ym mhob gweithgaredd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Mae'r ysgol yn defnyddio data asesiadau yn dda er mwyn cynorthwyo a gwella dysgu'r disgyblion. Caiff perfformiad disgyblion ei olrhain yn effeithiol a'i fonitro'n rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Bu arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ffactor allweddol wrth ddatblygu a chynnal pwyslais parhaus a chadarn ar wella safonau ar gyfer pob disgybl, ac mae hyn wedi treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

### Deilliannau

Dros gyfnod o chwe blynedd o 2007 i 2012, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim, o ran y prif ddangosyddion, yn llai na'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg yn y teulu ac ar gyfer Cymru gyfan.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyfunol wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad y disgyblion wedi golygu bod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran lefelau hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ym mhob un o'r pynciau craidd unigol, mae perfformiad disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig dros y

tair blynedd diwethaf wedi gwella, ac mae perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn ei theulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012, mae perfformiad disgyblion wedi bod yn rhagorol ac yn y chwartel uchaf o ran pob un o'r prif ddangosyddion er 2010-2011. Er 2010-2011, mae canlyniadau wedi gwella ar gyfer trothwy lefel 1, trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, y dangosydd pwnc craidd a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio, ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran pob un o'r dangosyddion. Mae cynnydd disgyblion yn llawer gwell na'r disgwyl o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4, ac mae'n rhagorol.

Er 2009-2010, nid oes unrhyw ddisgyblion wedi methu ag ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn ar ôl Blwyddyn 11.

## Grŵp 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth disgyblion dan anfantais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi enwebu cofnodwr ar gyfer y grŵp er mwyn rhestru'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r pwyntiau trafod a'r astudiaeth achos arfer orau.

**Pwyntiau trafod:**

1 Pa mor dda ydym ni'n arwain, yn goruchwylio ac yn cydlynu gwaith ar gyfer disgyblion dan anfantais?
2 A oes gennym gynlluniau penodol i godi dyheadau disgyblion dan anfantais? A yw cynlluniau'n cynnwys targedau â ffocws y gellir eu mesur ar gyfer cyflawniad a phontio, yn ogystal â chynigion gweithredol manwl?
3 A ydym yn canolbwyntio ein cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion ar ddulliau sy'n targedu anghenion disgyblion dan anfantais yn benodol?
4 Pa mor dda ydym ni'n adeiladu ar y cysylltiadau sydd gennym ag ysgolion eraill i rannu a datblygu strategaethau i fynd i'r afael ag anfantais?
5 A ydym ni'n gweithio'n effeithiol fel clwstwr i wneud y defnydd gorau o gyllid grant a chynyddu gwaith asiantaeth i'r eithaf yn ein hysgol?
6 Ym mha ffyrdd ydym ni'n datblygu ein gweithlu i fynd i'r afael â materion tlodi ac anfantais?
7 A ydym ni'n wybodus ac yn gwybod llawer am rôl a swyddogaeth gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau a gwasanaethau eraill, ac a ydym ni'n goruchwylio cydlynu gwaith partneriaeth yn effeithiol?
8 A ydym ni'n defnyddio staff yr ysgol a staff amlasiantaeth yn effeithiol ac yn sicrhau ansawdd gwaith yr holl staff?
9 Pa mor dda ydym ni'n adolygu ac yn arfarnu gwaith gwasanaethau a'u heffaith ar ein disgyblion sydd o dan anfantais?
10 A ydym ni'n arfarnu effaith strategaethau a ddefnyddiwyd i wella cyflawniad disgyblion dan anfantais yn ddigon da i ddangos a fuont yn llwyddiannus?

**Ble mae'r cryfderau yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar ein disgyblion dan anfantais?**

**Ble mae angen gwelliannau?**

## Rhan 4: Sut gallwn ni fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn fwy effeithiol? Cynllunio gweithredu ar gyfer gwella

**<u>Sleid Powerpoint 1</u>**

**Amcanion ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- myfyrio ar eu darpariaeth eu hunain a darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion dan anfantais; ac
- ystyried tystiolaeth ymchwil ar wella dysgu a chyrhaeddiad.

**Deilliannau ar gyfer cyfranogwyr:**

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr wedi:

- nodi o leiaf un newid i'w harfer er lles disgyblion dan anfantais; a
- chynnig camau gweithredu ar gyfer cynlluniau gwella adrannau a chynllun gwella'r ysgol.

## Cynllun gweithredu personol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion dan anfantais

| Rhif | Cam Gweithredu | Cyfrifol | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|
| | | | |

## CYNLLUNIO GWEITHREDU AR GYFER GWELLA
**Awgrymiadau ar gyfer cynlluniau gweithredu adrannau**

**Awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol**

**Cynigion ar gyfer blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol**